

Cynllun Corfforaethol 2018-2023

Adran	Cynnwys	Tudalen
<i>Cyflwyniad</i>	Rhagair gan Arweinydd y Cyngor	2
1	Ein Cabinet & Ymrwymadau ein Cabinet	3
2	Egwyddorion ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2018	4
3	Sut mae ein Cynlluniau'n cyd-fynd â'i gilydd - y 'Fframwaith'	5
4	Disgrifio'r Fframwaith	6-9
5	Amcanion Llesiant 2018-2023	10
5.1	Amcan llesiant 1 – Gwella cyfleoedd addysg i bawb	11-23
5.2	Amcan llesiant 2 – Galluogi cyflogaeth	24-34
5.3	Amcan llesiant 3 – Mynd i'r afael â chyflenwad, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi ledled y fwrdeistref sirol a darparu cyngor, cymorth neu gefnogaeth er mwyn helpu i wella iechyd a lles pobl	35-47
5.4	Amcan llesiant 4 – Hyrwyddo system trafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfleoedd, yn hybu ffyniant ac yn lleihau'r effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd gymaint ag sy'n bosibl	48-55
5.5	Amcan llesiant 5 – Creu Bwrdeistref Sirol sy'n cefnogi Ffordd Iach o Fyw yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	56-68
5.6	Amcan llesiant 6 – Cynorthwyo dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu llesiant	69-75
6	Adolygu ein Hamcanion	76
7	Y saith nod llesiant i Gymru	77
8	Cysylltu â ni	78

Rhagair gan Arweinydd y Cyngor – Cyng. David Poole

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cychwyn ar daith gyffrous ond heriol o wella a newid.

Fel Arweinydd y Cyngor fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau y gall y sefydliad dderbyn yr heriau hyn a'i fod yn barod i ymateb mewn modd effeithiol ac effeithlon. Er mwyn cyflawni hyn mae'n glir y bydd angen inni wneud pethau'n wahanol ac mae'n rhaid inni fod yn barod i ymaddasu ac ymateb i newid.

Mae'r Cyngor hwn eisiau sicrhau y bydd ein cymunedau'n aros yn gynaliadwy yn ystod y cyfnod heriol hwn. Mae angen inni sicrhau ein bod wedi ein harfogi i ddarparu gwasanaethau effeithiol a phwrpasol i'n cymunedau a lle nad ydym yn y sefyllfa orau i'w darparu'n uniongyrchol, ein bod yn galluogi eraill i wneud hynny ar ein rhan. Rydym yn ymwybodol iawn o'r gostyngiad yn ein cyllideb dros yr ychydig flynyddoedd nesaf a gall hyn, ar y cyd â phwysau cynyddol mewn meysydd megis gofal cymdeithasol, greu "storm berffaith" os nad ydym yn mabwysiadu meddylfryd trefnus ac arloesol.

Wrth imi weithio'n agos gyda'r aelodau eraill o'r Cabinet rydym yn cyd-ganolbwyntio ar ddod ag ymdeimlad newydd o bwrpas a chyfeiriad i'r sefydliad.

Yn y Cynllun Corfforaethol hwn, rydym wedi diffinio gweledigaeth drosfwaol, sy'n cael ei chefnogi gan amcanion a blaenoriaethau clir, fel bod pawb yn deall i ba gyfeiriad yr ydym yn mynd, yr hyn yr ydym yn anelu at ei gyflawni ac, yn bwysicaf oll, pa ran sydd gan bob un ohonom i'w chwarae wrth ei lunio.

Mae'r **Amcanion Llesiant** yn rhan hanfodol o'r broses hon gan y byddant yn ein helpu i lunio gwasanaethau, targedu ein hadnoddau a blaenoriaethu ein hymdrechion dros y 5 mlynedd nesaf.

Mae hyn i gyd wedi'i osod yng nghyd-destun rhanbarthol ehangach newid sy'n mynd rhagddo'n gyflym – yn arbennig yn nhermau Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd y rhaglen hon, sy'n werth £1.2 biliwn, yn dod â swyddi newydd, cyfleoedd a thwf economaidd i ddeddwyrain Cymru ac rydym yn un o 10 cyngor yn y rhanbarth sy'n arwain y bartneriaeth newydd gyffrous hon.

Afraid dweud fy mod i'n benderfynol o sicrhau y bydd pob un o'n cymunedau, ledled y fwrdeistref sirol, yn elwa'n llawn o'r fargen hon, a thrwy hynny sicrhau bod y fwrdeistref sirol yn aros yn lle mae pobl yn dewis byw a gweithio ynddo a'i fwynhau.

Gobeithio y cewch y ddogfen hon yn ddefnyddiol a'i bod yn rhoi i chi syniad o'r daith sydd o'n blaen a'n huchelgais i'w llunio, wrth inni anelu nid yn unig at oroesi'r cyfnod heriol hwn, ond ffynnu ynddo!



Cyng. Dave Poole

1. Ein Cabinet



Ein Cabinet, o'r chwith i'r dde: Cyng. Eluned Stenner, Cyng. Nigel George, Cyng. Barbara Jones, Cyng. Carl Cuss, yr Arweinydd Cyng. David Poole, Cyng. Colin Gordon, Cyng. Sean Morgan, Cyng. Lisa Phipps, Cyng. Philippa Marsden.

Ymrwymïadau ein Cabinet

Mae Arweinydd y Cyngor a'i Gabinet wedi cytuno ar saith Ymrwymïad Allweddol sy'n sail i weledigaeth drosfwaol a blaenoriaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC), sef:

1. Byddwn bob amser yn gwneud ein gorau i ddiogelu swyddi a gwasanaethau yn yr hinsawdd ariannol heriol bresennol.
2. Byddwn yn adeiladu ar enw da CBSC fel awdurdod lleol arloesol sy'n perfformio'n dda.
3. Byddwn yn sicrhau bod gennym weithlu llawn ymroddiad a chymhelliad.
4. Byddwn bob amser yn ymdrechu i sicrhau bod CBSC yn rhoi gwerth am arian ym mhopeth mae'n ei wneud.
5. Byddwn yn helpu i warchod y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas ac yn gwneud diogelu'n un o'n prif flaenoriaethau.
6. Byddwn bob amser yn croesawu adborth ac yn ystyried barn preswylwyr, staff a rhanddeiliaid allweddol eraill.
7. Byddwn yn agored, yn onest ac yn dryloyw ym mhopeth a wnawn.

Y rhain fydd ein hegwyddorion arweiniol ym mhopeth a wnawn.

2. Egwyddorion ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2018-2023

Dros y pedair blynedd ddiwethaf gosodasom egwyddorion a fyddai'n llywio ein gwaith o wneud penderfyniadau ariannol. Fel rhan o'r amgylchedd heriol yr ydym ynddo o hyd, roeddem yn meddwl ei bod yn adeg dda i adolygu ein hegwyddorion ariannol yn unol ag ymrwymïadau newydd ein Cabinet a gwerthoedd a gweledigaeth y Cyngor.

Yn dilyn yr adolygiad hwnnw rydym wedi diwygio ein Hegwyddorion Ariannol Tymor Canolig, ac fe'u nodir isod:

- ❖ Byddwn yn ceisio gwarchod gwasanaethau i'r bobl fwyaf agored i niwed ac ar yr un pryd yn parhau i werthuso'r holl wasanaethau eraill.
- ❖ Byddwn yn cyfyngu ar effaith toriadau ar wasanaethau rheng flaen lle gallwn ac ar yr un pryd yn parhau i leihau gwariant ac ymchwilio i gyfleoedd i greu ffynonellau incwm newydd.
- ❖ Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd fwy tymor hir at gynllunio ariannol sy'n ystyried yr effaith ar genedlaethau'r dyfodol.
- ❖ Bydd angen inni dderbyn na fyddwn yn gallu cynnal y lefelau gwasanaeth presennol ond byddwn yn cyflwyno ffyrdd mwy arloesol o weithio trwy ddefnyddio technolegau sy'n dod i'r amlwg.
- ❖ Byddwn yn ymgysylltu â'n cymunedau er mwyn deall eu hanghenion ac ymchwilio i opsiynau i ddarparu rhai gwasanaethau trwy gydweithredu, partneriaethau, ymddiriedolaethau cymunedol ac ati er mwyn sicrhau y bydd cymunedau'n aros yn gydnerth ac yn gynaliadwy yn y tymor hirach.

Bydd yr egwyddorion hyn yn helpu i lywio ein gwaith o wneud penderfyniadau ariannol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf a byddant yn cael eu hadolygu fel mater o drefn er mwyn sicrhau y byddant yn aros yn berthnasol yn y blynyddoedd i ddod.

Er mai Cynllun pum mlynedd yw hwn, gallai'r Adran Adnoddau o dan bob amcan fod yn agored i newidiadau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth. Byddwn yn adolygu'r rhain yn rheolaidd ac yn rhoi diweddariadau i'r cyhoedd fel rhan o'n gwaith adrodd ar berfformiad cyhoeddus.

3. Sut mae ein Cynlluniau'n cyd-fynd â'i gilydd

A ninnau'n sefydliad mawr gall gwahanol agweddau ar ein gwaith cynllunio a fframweithiau ymddangos yn gymhleth a gall fod yn anodd gweld sut mae gwahanol weithgareddau'n dod ynghyd neu'n cyfrannu at ei gilydd. Mae'r diagram isod yn dangos sut mae ein gweithgareddau megis ein gwaith cynllunio – yr hyn yr ydym ni eisiau ei wneud, a'n gwerthoedd – sut yr ydym eisiau gwneud rhywbeth; i gyd yn cyfrannu at y nod yn y pen draw ac at y gwaith o gyflawni'r Amcanion Llesiant. Nid yw'r naill adran yn bwysicach na'r llall, mae'r gwerthoedd a'r ymddygiadau'n amgylchynu popeth a wnawn. Mae rhagor o fanylion ar y dudalen nesaf i esbonio'r gwahanol elfennau:

Fframwaith Cynllunio a Gwella 2018-2023



4. Disgrifio'r Fframwaith Cynllunio a Gwella

4.1 Ymrwymadau ein Cabinet

Y Cabinet yw'r enw ar arweinwyr gwleidyddol y Cyngor ac maent wedi cyflawni gwaith i benderfynu ar set o ymrwymadau maent eisiau eu gwneud i'r cyhoedd ac i'r staff. Y rhain yw'r safonau y gallwch ddisgwyl i'n harweinwyr gadw atynt a sut maent eisiau cael eu dal yn gyfrifol. Dangosir y rhain yn y diagram yn amgylchynu popeth a wnawn a'r ffordd y byddwn yn cynnal busnes.

4.2 Egwyddorion Ariannol Tymor Canolig

Y rhain yw'r egwyddorion y byddwn yn eu defnyddio i helpu i wneud penderfyniadau sydd â goblygiadau ariannol. Wrth i'r sefyllfa ariannol ddod yn anos, bydd yr egwyddorion yn ein harwain (tudalen 5) a byddwn yn eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau. Er enghraifft, un o'n hegwyddorion yw "cyfyngu ar effaith toriadau ar wasanaethau rheng flaen lle gallwn ac ar yr un pryd parhau i leihau gwariant ac ymchwilio i gyfleoedd i greu ffynonellau incwm newydd". Wrth wneud unrhyw benderfyniadau byddwn yn edrych ar hyn yn y lle cyntaf ac nid dim ond 'torri' ond mabwysiadu ymagwedd fwy ystyriol wrth ddod o hyd i ffyrdd eraill o wneud rhywbeth. Bydd hyn yn mynd law yn llaw â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

4.3 Gweledigaeth a Gwerthoedd

Dyma'r Weledigaeth i'r Cyngor yr ydym ni fel sefydliad eisiau anelu ati a'r gwerthoedd yr ydym eisiau eu cyd-rannu ac adeiladu arnynt. Yn gryno, y weledigaeth yw'r hyn yr ydym eisiau ei gyflawni a'r gwerthoedd yw'r ffordd y byddem yn mynd ati i wneud hynny. Mae'n bwysig bod â'r ddau beth, oherwydd mae llawer o ffyrdd i wireddu gweledigaeth ond mae'n rhaid gwneud hynny yn y ffordd iawn.

Mae ein gweledigaeth a'n gwerthoedd yn cael eu ffurfio fel rhan o'n Strategaeth Drawsnewid #TîmCaerffili - Yn Well Gyda'n Gilydd ac mae mwy o fanylion yn y Strategaeth ynghylch sut y byddwn yn cyflawni hyn. Mae'n hanfodol bod gwerthoedd yn perthyn i bawb ac nad ydynt yn cael eu harwain o'r brig i lawr. Yr unig ffordd i sicrhau hyn yw trwy ymgynghori'n llawn â'n staff. Ar ôl iddynt gael eu pennu byddwn yn eu cyhoeddi yn ein hadroddiad perfformiad blynyddol.


4.4 Strategaeth Drawsnewid #TîmCaerffili - Yn Well Gyda'n Gilydd

Mae Llywodraeth Leol o hyd ar groesffordd. Mae llawer yn teimlo y bydd y gostyngiad mewn cyllid yn ystod y rhaglen cyni dros y pum mlynedd nesaf yn fwy na dim ond gostyngiad mewn cyllidebau; mae'n bwynt tyngedfennol lle mae'n rhaid inni ailddiffinio'n sylfaenol yr hyn a wnawn; pa wasanaethau yr ydym yn eu darparu a sut yr ydym yn eu darparu. Bydd yn galw am berthynas a dealltwriaeth newydd gyda'n cymunedau ynghylch pam ein bod ni'n bodoli a beth y gall ein preswylwyr ei ddisgwyl. Yn flaenorol, fe wnaethom sefydlu bwrdd Portffolio Gwella Busnes i ddatblygu ystod o weithgareddau gwella, ond ers hynny rydym wedi adolygu hyn ac yn dilyn yr ail-ystyriaeth, sylweddolom yn yr hinsawdd bresennol, bod angen i ni fod hyd yn oed yn fwy uchelgeisiol ac ymestyn ein hunain ymhellach, felly rydym wedi datblygu a lansio model gweithredu awdurdod cyfan, i sicrhau Caerffili wydn ar gyfer y dyfodol. Enw'r strategaeth yw **#TîmCaerffili - Yn Well Gyda'n Gilydd** a'i bwrpas yw:

“Creu gallu a rhagwelediad i ddatblygu atebion i rai o heriau mwyaf y Fwrdeistref Sirol, gan sicrhau bod y Cyngor yn deall ac yn ymateb i anghenion a blaenoriaethau newidiol ein cymunedau”.

Mae hon yn rhaglen drawsnewid fawr a fydd yn archwilio sut mae gwasanaethau'n cael eu blaenoriaethu, sut y gallant ddod yn fwy effeithlon o ran busnes, archwilio cyfleoedd i ganolbwyntio mwy ar gwsmeriaid a darparu digidol, ac ystyried modelau cyflenwi amgen a chwilio am gyfleoedd masnachol. Bydd y rhaglen strategol o waith “awdurdod cyfan” yn cael ei chyflwyno drwy'r themâu allweddol canlynol, a fydd yn sail i fodel gweithredu newydd y Cyngor:

-



Gwaith allweddol o'r Rhaglen Drawsnewid hon yw:

- Cwblhau rhaglen gwella ffisegol gwerth £261 miliwn i'n stoc tai erbyn 2020. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein stoc dai presennol i ddarparu cartrefi fforddiadwy, ynni effeithlon o ansawdd uchel am oes. Bydd hyn yn cael ei wella gyda rhaglen adeiladu newydd cyffrous ac arloesol.
- Gweithredu'r Strategaeth Uchelgeisiau a Rennir i godi safonau a sicrhau bod ein dysgwyr yn iach, yn hyderus, yn falch ac yn uchelgeisiol ac yn gallu elwa ar gyfleoedd addysgol, lleoliadau a phrofiadau o ansawdd uchel.
- Cychwyn ail gam rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif, gan ddarparu gwerth £110 miliwn o gyfleusterau addysgol newydd.
- Cyflawni Strategaeth Ddigidol y Cyngor drwy agor y Drws Ffrynt Digidol a chyflwyno rhaglen drawsnewid ddigidol eang sy'n trawsnewid pob agwedd ar ddarparu gwasanaethau.

- Canolfan Blant “o'r radd flaenaf” newydd, canolfan ragoriaeth sy'n darparu gofal seibiant a gwasanaethau therapiwtig i blant bregus a'u teuluoedd.
- Parhau i ddarparu'r Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol, gan ddarparu dull cynaliadwy o ddarparu hamdden a gweithgarwch corfforol.
- Cyflwyno cynnig gwasanaeth cyhoeddus “siop-un-stop” integredig sydd wedi'i leoli yng nghalon ein cymunedau, trwy ganolfannau integredig sydd wedi'u lleoli'n strategol.

Bydd y rhaglenni uchod yn helpu i gyflawni **Amcanion Llesiant** y Cyngor. Bydd trefniadau llywodraethu a rheoli rhaglenni cadarn yn cael eu sefydlu i sicrhau y cytunir ar gerrig milltir allweddol i gefnogi cyflawniad llwyddiannus y prosiectau strategol allweddol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

[https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Strategies,-plans-and-policies/Corporate-strategies,-plans-and-policies/TeamCaerphilly---Better-Together-\(1\)?lang=cy-gb](https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Strategies,-plans-and-policies/Corporate-strategies,-plans-and-policies/TeamCaerphilly---Better-Together-(1)?lang=cy-gb)

4.5 Asesiad Perfformiad Cyfadrannau

Rydym wedi cyflwyno dull newydd o gynllunio a monitro gwasanaethau o'r enw 'Asesiadau Perfformiad Cyfadrannau' (APC). Cynlluniwyd yr asesiadau hyn i ddod ag ystod o wybodaeth adrodd ar wahân at ei gilydd i fod yn 'un ffynhonnell y gwir'. Bydd hyn yn rhoi mewnwelediad a dysgu i'r ffordd y mae pob Cyfadrann yn perfformio, gan nodi achos ac effaith yn ogystal â thynnu sylw at unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd i ysgogi gwelliant.

Bydd yr APC hefyd yn gyfrwng i wasanaethau ddarparu diweddariadau ar eu blaenoriaethau gwasanaeth, sy'n rhan o'n cylch cynllunio. Rydym yn treialu ffordd fwy ymddangosiadol a llai rhagnodol i wasanaethau nodi eu blaenoriaethau fel rhan o'r broses gynllunio, a byddwn yn parhau i werthuso'r ffordd orau o gyflawni cynllunio corfforaethol.

4.6 Datblygu Staff

Mae ein proses Adolygiad Datblygiad Personol blynyddol yn gyfrwng sydd wedi'i hen sefydlu ar gyfer datblygu staff, gan gynnwys sesiynau amlach 1-1. Fel rhan o'n Rhaglen Drawsnewid, rydym am harneisio'r ystod o sgiliau a phrofiad yn ein gweithlu a chreu cyfleoedd i staff arwain a chymryd rhan mewn gwahanol ffrydiau gwaith. Felly rydym yn adolygu'r ffordd rydym yn cynnal Adolygiadau Datblygiad Personol ac yn cyflwyno ystod o weithgareddau i ymgorffori dull 'trwydded i arloesi'. Byddwn yn cyflwyno 'Llyfr Diwylliant' fel ffynhonnell gyfeirio allweddol ar gyfer staff ac fel arf defnyddiol ar gyfer datblygu perfformiad.

4.7 Y Cynllun Corfforaethol a'r Amcanion Llesiant

Y ddogfen hon yw ein 'Cynllun Corfforaethol' ac mae'n cynnwys ein chwe Amcan Llesiant. Mae arnom ddyletswydd statudol i bennu Amcanion Llesiant gan ddefnyddio'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nid yw pennu amcanion yn beth newydd, rydym wedi pennu blaenoriaethau mewn amrywiaeth o ffyrdd ers amser maith; fodd bynnag dyma'r tro cyntaf inni bennu amcanion dros gyfnod cynllunio pum mlynedd. Byddwn yn adolygu'r amcanion fel mater o drefn gan y gall amgylchiadau newid, a byddwn yn ymgynghori â'r cyhoedd er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn berthnasol. Fodd bynnag,

gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf o welliannau tymor hir, mae ein hadolygiad yn fwy o 'gyffyrddiad ysgafn' ar gyfer 2019. Mae'n bwysig nodi nad dyma'r cyfan yr ydym yn ei wneud. Mae llawer o weithgareddau eraill sy'n cael eu cyflawni, ond yr amcanion hyn yw'r hyn y dywedasoeh wrthym (neu y dangosodd y data) lle gallem wneud gwahaniaeth gwirioneddol i lesiant y fwrdeistref sirol. Mae Adran 4 yn nodi beth yw ein Hamcanion Llesiant.

4.8 Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu bwrdd statudol o'r enw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys yr Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Tân, Cyfoeth Naturiol Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ynghyd ag aelodau gwadd eraill, gan gynnwys Heddlu Gwent ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Diben y Bwrdd yw gwella'r lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal trwy gryfhau cydweithio ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Er mwyn gwneud hyn cyflawnodd y Bwrdd asesiad lesiant o'r ardal ac mewn ymateb i'r canfyddiadau pennodd amcanion mewn Cynllun Llesiant.

Cafodd Cynllun y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei gyhoeddi ym mis Mai 2018 ac mae'n cael ei wireddu trwy gynllun cyflawni lesiant, sydd â phum maes gweithredu a phedwar galluogwr (sef pethau mae angen iddynt ddigwydd er mwyn gwneud y pethau eraill yn bosibl megis rhannu asedau'r sector cyhoeddus). Mae Amcanion Llesiant y Cyngor ei hun wedi'u bwriadu i gyfrannu at y Cynllun Llesiant lefel uchel yn hytrach na dyblygu'r gwaith o'i gyflawni.

Disgwylir i Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n manylu ar y cynnydd a wnaed ym mlwyddyn un, gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2019.

5. Amcanion Llesiant 2018-2023

Cyflwyniad

Penasom ein Hamcanion Llesiant trwy ddefnyddio gwybodaeth a data o'r Asesiad Llesiant a gyflawnwyd i ddarparu gwybodaeth ar gyfer Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd hyn wrthym am y pryderon oedd gan bobl a'r meysydd yr hoffent iddynt wella. Cafodd yr amcanion eu llywio hefyd gan ein dyletswydd i sicrhau cynaliadwyedd a ddisgrifir yn y pum ffordd o weithio ym mhob amcan. Edrychasom hefyd ar sut y gallem adeiladu ar gryfderau sy'n cefnogi gwelliannau yn ein gwaith cynllunio gweithredoedd (ac nid dim ond meysydd i'w gwella).

Rydym hefyd yn dangos sut mae ein hamcanion yn cyfrannu at y saith Nod Llesiant cenedlaethol a gellir gweld disgrifiad o'r Nodau hynny ar dudalen **76**. Nid y meysydd isod yw'r cyfan a wnawn; yn wir, nid oes modd cynnwys popeth mae'r Cyngor yn ei wneud, ond rydym wedi pennu'r chwe amcan hwn gan eu bod yn hanfodol i wella llesiant dinasyddion yn y tymor hir a'r tymor byr. Bydd yr amcanion hyn yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd a byddwn yn ymgynghori â'n dinasyddion ar unrhyw newidiadau.

Rhif	Disgrifiad	
Amcan 1	Gwella cyfleoedd addysg i bawb	Tudalennau 10-22
Amcan 2	Galluogi cyflogaeth	Tudalennau 23-33
Amcan 3	Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi ledled y fwrdeistref sirol a darparu cyngor, cymorth neu gefnogaeth i helpu i wella llesiant pobl	Tudalennau 34-46
Amcan 4	Hybu system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfleoedd, yn hybu ffyniant ac yn lleihau i'r eithaf effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd	Tudalennau 47-54
Amcan 5	Creu bwrdeistref sirol sy'n cefnogi ffordd iach o fyw yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Tudalennau 55-56
Amcan 6	Cynorthwyo dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu llesiant	Tudalennau 68-74

**“Nid paratoad am fywyd yw addysg;
bywyd ein hun yw addysg.”**

~ John Dewey~

1. Gwella cyfleoedd addysg i bawb

Canlyniadau

1. Anelu at leihau effaith tlodi yn y blynyddoedd cynnar.
2. Codi safonau cyrhaeddiad.
3. Lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ac analwedigaethol fel ei gilydd er mwyn darparu cyfle cyfartal.
4. Helpu'r rheiny na allant ddilyn llwybr cyrhaeddiad traddodiadol.
5. Cefnogi dysgu sy'n hwyluso cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc ac oedolion gan gynnwys canolbwyntio ar 'sgiliau'r dyfodol'.
6. Gwella 'Sgiliau Digidol' i bobl o bob oed.
7. Gwella'r amgylchedd dysgu.
8. Diogelu pob plentyn a pherson ifanc er mwyn creu hinsawdd ar gyfer dysgu, yn arbennig i'r rheiny sy'n fwyaf agored i niwed.

1. Gwella cyfleoedd addysg i bawb

Datganiad Llesiant

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi canolbwyntio ar wella deilliannau pobl ifanc a chymwysterau analwedigaethol er mwyn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer addysg bellach neu gyflogaeth. Mae hwn yn ganlyniad blaenoriaethol o hyd, ond rydym wedi penderfynu bod mwy o angen edrych mewn ffordd fwy cyfannol ar addysg megis deall problemau ym mlynnyddoedd cynnar plant ac agweddau fel tlodi a sut y gallant effeithio ar gyrhaeddiad. Mae llawer wedi cael ei wneud i ddatblygu ymagwedd amlasiantaethol ac i ddysgu o ymchwil berthnasol, megis gwaith ar 'Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod'.

Rydym hefyd eisiau edrych ar sut y gallwn helpu'r rheiny sy'n fwy agored i niwed ac na allant ddilyn llwybr traddodiadol, yn ogystal â darparu dysgu i bobl ifanc a chymorth i oedolion, sef naill ai darparu mwy o sgiliau neu gyfleoedd i sicrhau cyflogaeth. Nod yr amcan hwn yw atal problemau yn y tymor hirach i genedlaethau'r dyfodol sy'n gysylltiedig â sgiliau isel a diffyg cyfleoedd dysgu.

Y Blynnyddoedd Cynnar

Mae presenoldeb yn ffactor hanfodol i gael canlyniadau academiaidd da. Mae ymchwil wedi dangos pa mor bwysig yw'r blynnyddoedd cynnar ym mywyd plentyn, yn arbennig y 1000 diwrnod cyntaf. Er bod y pwyslais yn aml ar bresenoldeb a thriwantiaeth yn yr uwchradd, mae adroddiad Charlie Taylor (2012) yn nodi mai dim ond un dimensiwn yw 'triwantiaeth'. Mae hyn yn tynnu sylw i ffwrdd o achos y problemau hyn, sef diffyg presenoldeb yn y blynnyddoedd cynnar gyda chymeradwyaeth y rhieni. Yn fuan mae hyn yn dod yn batrwm ac yn sefydlu agweddau gwael at yr ysgol.

Mae'r ymchwil yn esbonio'r cysylltiad clir rhwng plant o gefndiroedd difreintiedig, presenoldeb a chyrhaeddiad yn yr ysgol yn ôl y dangosydd Lefel 2+ ar adeg TGAU. Dim ond 3% o'r disgyblion sy'n methu mwy na 50% o'r ysgol sy'n cael 5 A*-C o gymharu â 73% o'r rhai sydd â phresenoldeb o 95% sy'n cael 5 A*-C.

Mae plant sydd â phresenoldeb isel yn y blynnyddoedd cynnar yn fwy tebygol o ddod o gefndiroedd tlotach ac yn fwy tebygol o fod y tu ôl i'w cyfoedion eisoes pan ddechreuant yn yr ysgol, yn arbennig o ran caffael iaith a datblygiad cymdeithasol. Gall presenoldeb gwael fod yn arwydd bod yna broblemau mwy difrifol ym mywyd y plentyn. Heb y cyfle i gael dysgu o ansawdd da bob dydd o ddechrau eu haddysg, mae'r disgyblion mwyaf difreintiedig yn annhebygol o gau'r bwlch.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod plant â phresenoldeb gwael yn annhebygol o lwyddo'n academiaidd ac yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol.

Nod ein rhaglen Dechrau'n Deg, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, yw rhoi cymorth ar gyfer y blynnyddoedd cynnar (0-4 oed) a sefydlu ymddygiadau cadarnhaol mewn plant a theuluoedd, trwy ffyrdd iach o fyw, rhianta cadarnhaol, presenoldeb a chodi dyheadau. Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn cynnig amrywiaeth o gymorth i bob oedran ac mae'n hanfodol wrth sefydlu ymddygiadau cadarnhaol ymysg rhieni a phlant, yn barod at addysg y plant, er mwyn rhoi iddynt y cyfle gorau mewn bywyd yn ddiweddarach. Mae ymchwil yn dangos bod cymwysterau a phrofiad gwaith

rhieni'n debygol o arwain at well presenoldeb i'w plant. Dyna pam mae rhywfaint o raglen Dechrau'n Deg yn helpu i feithrin hyder ymysg rhieni a hybu dyheadau.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i bwriadu i wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'n pwysleisio atal a helpu teuluoedd mor gynnar ag sy'n bosibl er mwyn atal unrhyw broblemau rhag gwaethygu. Mae amrywiaeth o raglenni sy'n adlewyrchu 'Dechrau'n Deg' yn arbennig i'r rheiny sy'n byw mewn tldi y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg; hefyd mae Teuluoedd yn Gyntaf ar gael i bob oedran ac i bob ardal. Mae'r rhaglenni sy'n cefnogi'r amcan hwn yn amrywio o 'Teuluoedd yn Dysgu Gyda'i Gilydd' i helpu rhieni i ddysgu sut orau i gynorthwyo â dysgu eu plentyn o ran llythrennedd a rhifedd, i 'Little Voices / Tiny Talkers' sy'n gontract cydweithredol i dargedu plant ag oediad iaith a lleferydd.

Cyrhaeddiad

Cyrhaeddiad yw'r agwedd y cawn ein barnu arni'n genedlaethol o hyd ac rydym yn cydnabod bod cyrhaeddiad addysgol yn cyfrannu at y 'parodrwydd' cyffredinol hwn a'r gallu i achub ar gyfleoedd. Bob blwyddyn rydym yn y 19eg neu 20fed safle o ran ein canlyniadau cyrhaeddiad addysgol yng Nghyfnod Allweddol 4 (15-16 oed), ac er ein bod yn gwella o'r naill flwyddyn i'r llall mae ein safle yn isel o hyd o gymharu â'r gwelliant a welir gan awdurdodau eraill. Mae safonau yng Nghaerffili'n gwella ond nid yn ddigon cyflym o gymharu ag awdurdodau tebyg ar draws Cymru. Fodd bynnag, rydym yn y 6ed a'r 7fed safle o ran lleoliadau cynradd (yn ôl asesiadau athrawon), felly mae gwaith i'w wneud ar atal canlyniadau sy'n gwaethygu yn y blynyddoedd diweddarach.

Mae llawer o ffactorau sy'n gwneud dysgwyr yn fwy agored i niwed, ac un yw tldi ac amddifadedd. Yr hyn a ddefnyddir yn aml i fesur amddifadedd yw cymhwysedd disgybl i gael prydau ysgol am ddim. Mae un ar bymtheg o'r 110 o ardaloedd yng Nghaerffili ymysg y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, er bod ein disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n dda mewn canlyniadau arholiadau o gymharu â'r rheiny nad ydynt yn gymwys. Mae cau'r bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yng Nghyfnod Allweddol 4, Lefel 2+, yn ogystal â chodi safonau i bawb yn bwysig iawn gan y gall y mesur hwn effeithio ar gyfleoedd bywyd dysgwyr. Mae cyflawni'r dangosydd hwn yn 16 oed yn creu rhagor o gyfleoedd o ran addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Mae defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn galluogi ysgolion i greu lefel ddyfnach o gymorth i'r dysgwyr hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r Awdurdod Lleol yn rhan o gonsortium rhanbarthol gwella ysgolion a elwir y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA). Mae'r GCA yn darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar ein rhan ac yn monitro'r Grant Datblygu Disgyblion yn drylwyr er mwyn sicrhau bod yr adnoddau'n mynd i'r lle iawn.

Mewn trafodaeth a gynhaliwyd gyda Fforwm Busnes Caerffili a Chanolfan Arloesi Menter Cymru, daeth y materion canlynol i'r amlwg fel rhai pwysig o ran addysg lle barnwyd bod cael addysg ar lefel dda yn allweddol i sicrhau bod pobl ifanc yn barod am waith.

Helpu'r rheiny nad ydynt yn dilyn llwybr traddodiadol

Ni all pob disgybl aros mewn ysgol brif ffrwd nes ei fod yn 16 oed. Mae rhai pobl ifanc yn fregus neu'n agored i niwed ac angen darpariaeth arbenigol. Mae ar bobl ifanc eraill angen dull cyfunol,

hyblyg ac mae dau o'n gwasanaethau'n cynorthwyo disgyblion yn benodol fel hyn, sef Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) a'r Gwasanaeth Ieuenctid.

Mae gwasanaeth EOTAS yn darparu llwybrau addysgol amgen i'r disgyblion hynny na allant barhau mewn addysg brif ffrwd amser llawn am amrywiaeth o resymau. Ffocws y cyfleoedd addysgol sydd ar gael i ddisgyblion sydd yn yr agwedd hon ar y system addysg yw cynnal safonau cyrhaeddiad a datblygu strategaethau a fydd yn cynorthwyo unigolyn i reoli ei ymddygiadau ei hun yn fwy effeithiol wrth dyfu'n oedolyn trwy feithrin gwydnwch a datblygu strategaethau ymdopi.

Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i ddarparu llwybr addysgol priodol gan gynnwys y Gwasanaeth Ieuenctid, er mwyn i ddysgwyr gael cyfleoedd i lwyddo mewn profiadau dysgu ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol. Wrth ddarparu cymorth addysgol anffurfiol i bob person ifanc 11-25 oed, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn rhagweithiol wrth gynorthwyo'r rheiny nad ydynt bob amser yn cyflawni trwy lwybrau addysgol ffurfiol, megis TGAU. Mae pobl ifanc oedran ysgol yn cael eu cynorthwyo yn ystod oriau ysgol, er enghraifft, trwy ddarparu cwricwlwm amgen, a'r tu allan i oriau ysgol, er mwyn darparu cymorth cyfannol, integredig a chofleidiol i'r rheiny mae arnynt ei angen mwyaf. Fel hyn mae targedau addysgol o ran cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad yn cael cefnogaeth sylweddol.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r cyfeiriad polisi presennol, yn cydnabod yn gyson rôl gwaith ieuenctid ar ei holl ffurfiau mewn perthynas â sicrhau ymgysylltiad pobl ifanc â'r gymdeithas, gan gynnwys y dylanwad cadarnhaol ar eu haddysg, eu hiechyd, eu hymddygiadau a'u rhagolygon am waith – yn y ffyrdd hyn, mae gweithgarwch y Gwasanaeth Ieuenctid yn adlewyrchu'r bwriad ar draws yr holl themâu llesiant. Yn aml, gall y Gwasanaeth Ieuenctid ymgysylltu â phobl ifanc mewn modd cadarnhaol, yn arbennig mewn ardaloedd tlawd, lle na all eraill, gan sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn cael cysylltiad ag oedolion a all eu galluogi i fyw bywydau cadarnhaol a bodlon a chyfrannu at eu cymunedau. Mae'r berthynas unigryw sydd gan weithwyr ieuenctid gyda phobl ifanc yn helpu i gyflawni hyn, ar y cyd â chyrhaeddiad y Gwasanaeth Ieuenctid, sy'n mynd ymhell y tu hwnt i gyrhaeddiad ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a llawer o rai eraill, y mae llawer ohonynt yn dibynnu ar y Gwasanaeth Ieuenctid i gyfleu negeseuon allweddol i bobl ifanc. Mae ein hymrwymadau o ran cyfranogiad yn cael eu cyflawni i raddau helaeth gan y Gwasanaeth Ieuenctid; mae cynnwys a chydweithredu â phobl ifanc er mwyn dylanwadu ar eu bywydau a'u cymunedau yn ganolog i ddarparu gwaith ieuenctid. Mae'r cymorth hirdymor a roddir i bobl ifanc yn eu cynorthwyo wrth iddynt dyfu o fod yn blant i fod yn oedolion, gan ei gwneud yn bosibl cyflawni gwaith atal sylweddol, ac mae'n un o nodweddion unigryw gwasanaethau ym maes addysg a'r tu hwnt. Mae mathau eraill o gymorth yn cynnwys prosiect sy'n cael ei redeg gan Deuluoedd yn Gyntaf o'r enw Ymgysylltiad â Phobl Ifanc a Theuluoedd Targededig, sydd â'r nod o ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol, yn arbennig o ran ymddygiadau a ffiniau a meithrin hyder a hunan-dyb. Mae'r prosiect hefyd yn darparu cymorth un i un a chymorth mewn grŵp i rieni ifanc.

Mae ysgolion yn gweithio'n llwyddiannus gyda cholegau i sicrhau, lle bo disgyblion yn dewis llwybr galwedigaethol fel y cam nesaf yn 16 oed, fod y prosesau pontio'n effeithiol.

Galluogi Cyflogadwyedd

Pan gyflawnasom yr asesiad llesiant lleol, gwnaeth yr asesiad y cysylltiad rhwng diffyg cyfleoedd a rôl addysg a hyfforddiant wrth helpu i gynnig cyfleoedd i gael swyddi. Un o'r meysydd

arwyddocaol i ddod i'r amlwg o'n gwaith asesu oedd yr angen i ddarparu hyfforddiant, prentisiaethau, cyflogaeth a chyfleoedd sy'n briodol i bob rhan o'r gymuned.

Y darlun cyffredinol yw nad oes dim cymwysterau gan **31.4%** o breswylwyr y fwrdeistref sirol o gymharu â ffigur o 26% i Gymru gyfan. Daeth hyn i'r amlwg fel mater sy'n destun pryder gan y cymunedau y siaradasom â nhw. Nodwyd bod economi leol gref yn hanfodol er mwyn codi pobl leol o dlodi a chafodd cyrhaeddiad i bobl ifanc ei gysylltu ag ansawdd bywyd yn y tymor hirach.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eisiau mynd i'r afael â hyn fel rhan o'i Gynllun Llesiant newydd. Ein cyfraniad ni at wella'r darlun hwn yw tair rhaglen cyflogadwyedd yr ydym yn eu rhedeg mewn partneriaeth ranbarthol ac rydym yn ystyried pedwaredd raglen sydd â'r potensial i ddechrau tua dechrau 2018.

Un o'r rhaglenni yw **Ysbrydoli i Weithio**, gwaith ranbarthol gan chwe sir dan arweiniad Blaenau Gwent. Mae hon yn darparu cymorth i bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac sydd heb unrhyw fodd o gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ffurfiol neu anffurfiol. Cynigir i'r cyfranogwyr, y mae'n rhaid iddynt fyw mewn ardal nad yw'n dod o dan raglen Cymunedau yn Gyntaf, becyn wedi'i deilwra o gymorth un i un i'w helpu i ddychwelyd i addysg, cael gwaith neu ennill cymhwyster sy'n ofynnol i fanteisio ar gyfleoedd i wirfoddoli.

Mae **Pontydd i Waith 2** yn waith ranbarthol gan bum sir dan arweiniad Cyngor Torfaen. Mae hon yn rhoi cymorth wedi'i deilwra i gyfranogwyr sy'n 25 a hŷn sy'n economaidd anweithgar (mae'r ffigurau hyn yn eithaf uchel yn y fwrdeistref sirol) neu sy'n ddi-waith hirdymor (sy'n byw mewn ardaloedd nad ydynt yn dod o dan raglen Cymunedau yn Gyntaf).

Mae **Sgiliau Gweithio i Oedolion 2** yn rhoi cymorth i bobl gyflogedig neu hunangyflogedig 16 oed a hŷn gyda golwg ar ennill rhagor o gymwysterau i uwchsgilio er mwyn manteisio ar gyfleoedd gwell. Mae rhaglen newydd o'r enw Meithrin, Cyfarparu a Ffynnu bellach yn weithredol ac mae'n darparu cyngor ac arweiniad i'r bobl hynny mewn cyflogaeth sy'n dioddef o dlodi gwaith oherwydd eu bod yn gweithio er mwyn cael oriau ychwanegol neu ail incwm ac yn darparu cymorth i gael y rhai sydd â salwch tymor hir yn ôl i gyflogaeth. Mae'r holl raglenni i fod i redeg tan 2022 o leiaf ac mae ganddynt dargedau mesuradwy ar gyfer sicrhau bod pobl yn cymryd rhan, yn cael cymwysterau neu'n cael gwaith.

Mae'r Cyngor yn dilyn y **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu** cenedlaethol. Mae hyn wedi golygu recriwtio cydgysylltydd yn y Gwasanaeth Ieuenctid; ei rôl yw gweithio'n agos gyda phlant a phobl ifanc y mae ysgolion ac eraill wedi nodi eu bod mewn perygl o beidio â mynd i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Ar ôl iddynt gael eu nodi, bydd y cydgysylltydd yn darparu rhaglen gymorth helaeth ac amrywiol megis cyfarfodydd mentora rheolaidd gyda gweithwyr ieuenctid, ymweliadau â cholegau a sefydliadau eraill yng nghwmni hebryngwr, ymweliadau â chyflogwyr a chan gyflogwyr i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth, eu symbyliad a'u mynediad i ddigwyddiadau sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc weld a gwneud cais am amrywiaeth o gyfleoedd cysylltiedig ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Mae arian newydd ar gael i'r Gwasanaeth Ieuenctid i gefnogi'r bobl ifanc fwyaf bregus sy'n debygol o fod, neu sydd mewn perygl o fod heb addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant a / neu'n ddigartref. Er mwyn lleihau lefel y risg a'u hailgysylltu â chyfleoedd ysgol neu hyfforddiant, rydym yn cysylltu hyn â'r Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant.

Yn rhanbarthol mae **Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** yn ystyried dyrannu cronfa ddatblygu ar gyfer cynllun peilot i ddatblygu achos busnes o ran dichonoldeb prosiect 'Sgiliau ar gyfer y Dyfodol'. Bydd hwn yn darparu cymorth ymgysylltu ag ysgolion i fusnesau ledled y rhanbarth a chronfa buddsoddi mewn sgiliau i ddarparu mwy na 10,000 o brentisiaethau, interniaethau i raddedigion a gwaith gwella sgiliau gweithwyr yn y sector preifat. Gellir gweld mwy am hyn yn ein hamcan Galluogi Cyflogaeth, ond mae'n werth cydnabod y cysylltiad yma rhwng sgiliau, addysg a chyflogaeth.

Gallai'r diffyg cyngor a chyfarwyddyd cyson i bobl ifanc, ar y cyd â'r nifer rhy fach o bobl ifanc sydd â diddordeb mewn dilyn prentisiaethau yn y meysydd y mae ar sectorau blaenoriaethol eu hangen, wneud y diffyg cyfatebiaeth rhwng y sgiliau sydd ar gael a'r sgiliau y mae eu hangen yn fwy byth. Mae'r ansicrwydd ynghylch pa sgiliau y bydd eu hangen ar ôl Brexit, y twf mewn awtomatiaeth a phwysigrwydd cynyddol sgiliau digidol yn golygu ei bod yn bwysig inni gefnogi dull rhanbarthol ar y cyd i ddarparu 'system sgiliau dan arweiniad cyflogwyr' yn Rhanbarth Prifddinas Caerdydd. Mewn geiriau eraill mae angen inni sicrhau bod y sgiliau sy'n cael eu haddysgu'n cyfateb yn well â'r sgiliau mae ar gyflogwyr eu hangen. Mae llai o blant a myfyrwyr yn astudio Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg (a elwir STEM) a sgiliau digidol yn y rhanbarth. Rhan o'r gwaith o fynd i'r afael â hyn o dan brosiect 'Sgiliau ar gyfer y Dyfodol' yw nod y Fargen i fuddsoddi mewn cyngor gyrfaoedd o ansawdd da mewn ysgolion o flwyddyn 8 ymlaen (fel rhan o raglen lawer ehangach) er mwyn gweithio gydag ysgolion wrth ddarparu dewis mwy gwybodus i ddysgwyr o ran cyflogaeth a sicrhau bod pobl ifanc mewn sefyllfa well i ddewis gyrfaoedd sy'n talu'n well.

Mae gan **Awtomatiaeth** a **Deallusrwydd Artiffisial** oblygiadau ar gyfer busnesau yn y dyfodol agos, gan olygu goblygiadau ar gyfer y mathau o wybodaeth a sgiliau mae ar ein plant eu hangen i sicrhau y gallant elwa ar y cyfleoedd y gall deallusrwydd artiffisial eu creu. Mae pryderon hefyd. Mae adroddiadau helaeth y gallai un o bob pedair swydd (amcangyfrif o 112,000 o swyddi) gael eu colli yng Nghymru erbyn 2030 oherwydd awtomatiaeth a deallusrwydd artiffisial oni fydd sgiliau'n newid. Mae angen inni sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael hyfforddiant heddiw ar gyfer sgiliau yfory.

Strategaeth a Chymhwysedd Digidol

Cymhwysedd Digidol – Rydym yn cydnabod, yn yr oes ddigidol newydd, fod cael mynediad at dechnoleg a chyfleusterau i astudio, er enghraifft astudio ar lein, yn un ffordd o helpu pobl gydag ansawdd eu bywydau. Dyna pam y byddwn yn canolbwyntio'n gryf ar ffyrdd o gyflwyno mwy o fand eang cyflym o ansawdd da ac yn ceisio cynnig cyfleoedd digidol. Rydym yn cymryd rhan yn rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol i ddarparu band eang cyflym i ysgolion (a gyllidir gan Lywodraeth Cymru). Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag awdurdodau lleol a British Telecom (BT) i ddechrau archebu a gweithredu mwy o wasanaethau eleni. Mewn ysgolion, fel rhan o'r cwricwlwm newydd, mae Fframwaith Cymhwysedd Digidol newydd yn cael ei gyflwyno.

*“*Cymhwysedd digidol yw'r enw ar set o sgiliau, gwybodaeth ac agweddau sy'n caniatáu i rywun ddefnyddio technolegau a systemau'n hyderus, yn greadigol ac yn feirniadol. Mae'n set hanfodol o wybodaeth i blant a phobl ifanc fod yn wybodus, yn alluog a llwyddiannus yn y gymdeithas sydd ohoni.”*

*<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/160831-dcf-guidance-cy-v2.pdf>

Mae nifer o'n hysgolion yn arwain ar hyn ac mae rhai'n dod yn ganolfannau rhagoriaeth i rannu arferion da. Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol wedi cael ei ddatblygu i gynnwys yr holl ddysgwyr rhwng 3 oed ac 16 oed a hŷn. Mae'n ymdrin â datblygu sgiliau o'r camau cynharaf mae angen i blant ifanc iawn eu dysgu.

Rhan arall o'n agenda ddigidol yw'r gwaith sy'n cael ei wneud yn ein llyfrgelloedd. Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn gweithio gyda theuluoedd a phlant bach i ddatblygu sgiliau codio sylfaenol a hybu llythrennedd, cyfrif, cymdeithasu, datrys problemau a gwaith tîm trwy ddefnyddio tegau Code-a-Pillar Fisher Price lle mae rhannau o'r corff yn rheoli gwahanol agweddau, megis symudiad, sŵn a goleuadau. Gellir ad-drefnu'r rhannau hyn i wneud i'r lindysyn symud mewn cyfeiriadau gwahanol. Cynhelir y prosiect yn y 4 prif lyfrgell, sef Caerffili, Coed Duon (lle cafodd y prosiect ei dreialu), Bargod a Rhisga, ac fe'i disgrifir fel rhaglen parodrwydd i fynd i'r ysgol i gefnogi'r cwricwlwm digidol. Mae ein rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn dod â theuluoedd i mewn i lyfrgelloedd i gymryd rhan yn ei phrosiect 'Teuluoedd yn Dysgu Gyda'i Gilydd' sy'n gwella llythrennedd a rhifedd.

Mae grŵp oedran 7-12 yn canolbwyntio ar godio ar lein a defnyddio cyfarpar Raspberry Pi a BBC Microbit. Addysgir iaith godio sylfaenol o'r enw Scratch iddynt. Gall plant sydd wedi gwneud mwy o gynnydd ddysgu codio gan ddefnyddio ieithoedd codio uwch megis HTML a Python. Mae'r prosiect hwn yn cymryd grwpiau o blant dros nifer o wythnosau i roi amser iddynt ddatblygu eu sgiliau.

Bydd trydydd darn o waith yn canolbwyntio ar blant hŷn ac oedolion ac mae llyfrgelloedd yn gweithio gyda disgyblion hŷn o Goleg Gwent ar hyn o bryd i gasglu tystiolaeth a gweithio allan sut y gall y prosiect hwn roi i'r disgyblion y sgiliau cyflogadwydd technolegol mae arnyn eu hangen ar ôl eu haddysg. Ar hyn o bryd mae llyfrgelloedd yn cynnal sgwrs gyda'r Gwasanaethau Addysg Oedolion ynghylch sgiliau cyflogadwydd ac mae'n bosibl mai datblygiad yn y dyfodol fydd hyn.

Mae gan bob llyfrgell ei chynllun gwella ei hun lle mae'n dangos ei chyfraniad at y 4 maes sgiliau: Parodrwydd i fynd i'r ysgol, Iechyd, Bywyd a Chyflogadwydd.

Mae'r gweithdai eraill sydd ar gael gan lyfrgelloedd yn cynnwys 'Sgiliau Gwybodaeth' sy'n canolbwyntio ar oedran 11 (blwyddyn 6) i ymgysylltu â phlant cyn yr ysgol gyfun. Mae ein llyfrgellwyr Cymunedol yn dangos i grwpiau o ddisgyblion sut mae llyfrgelloedd yn gweithio ac yn eu cynorthwyo â datblygu sgiliau meddwl beirniadol, defnyddio peiriannau chwilio i gael y canlyniadau gorau, a dysgu sut i ddefnyddio adnoddau testun yn effeithiol gan gynnwys defnyddio tudalennau cynnwys a mynegai. Maent hefyd yn ymgysylltu â'r plant ynghylch e-ddiogelwch gyda phynciau megis seiber fwlio a secstio ac yn siarad am yr effeithiau y gall y rhain eu cael ar y plant a'u ffrindiau. Mae'r gwasanaeth Addysg Oedolion hefyd yn darparu amrywiaeth o gyrsiau dysgu digidol ar draws y fwrdeistref sirol, ac mae'r rhaglenni Cefnogi Pobl yn cynorthwyo â sgiliau a gweithgareddau cyfrifiadurol sylfaenol megis 'dyddiau Gwener digidol'.

Rydym eisiau mabwysiadu ymagwedd arloesol at gysylltedd digidol a bod yn effro i'r cyfleoedd yn y rhanbarth a all fod o fudd i'n cymuned. Dyna pam rydym wedi ymrwymo i'r gwaith o ddatblygu **Strategaeth Ddigidol** fel rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o gynigion sy'n dibynnu ar seilwaith datblygedig sy'n defnyddio rhwydwaith 'ffibr tywyll'. Mae hyn yn golygu y caiff data eu trawsgludo dros ffibr optegol nas defnyddir yn lle ceblau traddodiadol. Seilwaith ffibr optegol nad yw'n cael ei ddefnyddio yw rhwydwaith ffibr tywyll. Byddai ymchwilio i'r defnydd o 'ffibr tywyll' yn arwain at gysylltiad cyflymach a helaethach ar lefel fyd-eang, ranbarthol a chymunedol. Byddai hyn hefyd yn

cefnogi'r genhedlaeth nesaf o fynediad symudol digidol 5G sydd â chyflymder lawrlwytho mwy a chapasiti ar gyfer niferoedd mwy o ddyfeisiau. Er enghraifft, y gwahaniaeth rhwng cyflymder 4G a 5G fyddai'r gallu i lawrlwytho ffilm mewn llai na 10 eiliad ar rwydwaith 5G o gymharu â 10 munud ar rwydwaith 4G. Bydd mynediad a chyflymder o'r math hwn yn rhoi cymorth helaeth i ysgolion a cholegau ar eu teithiau digidol. Mae amrywiaeth fawr o gynigion yn y strategaeth, a bydd ymwybyddiaeth o'r ffordd y bydd y dyfodol digidol yn effeithio ar ein pobl ifanc yn hanfodol i'r sgiliau y mae eu hangen, er enghraifft mewn swyddi a allai gael eu hawtomeiddio yn y dyfodol.

Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif

Mae rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif Llywodraeth Cymru 2014-2019 wedi arwain at fuddsoddi £56.5 miliwn mewn addysg yn y fwrdeistref sirol. Mae hyn wedi cael ei ariannu 50% gan Lywodraeth Cymru a 50% gan yr Awdurdod. Nodwyd 5 prosiect fel rhan o'r rhaglen. Mae dau wedi'u cwblhau erbyn hyn, sef Ysgol Uwchradd Islwyn, a agorodd ym mis Gorffennaf 2017, ac Ysgol Uwchradd Gymraeg Y Gwyndy, sy'n estyniad i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ym Masn Caerffili, ac sydd hefyd wedi cynnwys cartref newydd i Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili. Agorodd adeilad Ysgol Gynradd Abertyswg/Pontlotyn, sy'n rhan o ysgol 3-18 oed Rhymni, ym mis Ionawr 2018 o dan enw Ysgol Idris Davies 3-18. Mae'r rhain yn ddatblygiadau Ysgolion yr 21ain ganrif o'r radd flaenaf. Yn ddiweddar dechreuwyd ar yr estyniad i Ysgol Trecelyn sydd i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2018. Buddsoddodd y cynllun olaf £2 miliwn i brosiect adnewyddu Ysgol Gyfun Coed Duon.

Yn ddiweddar cyflwynodd yr Awdurdod ei gais i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain ganrif, a fydd yn rhedeg am 7 blynedd o 2019 ymlaen, ac a fydd yn canolbwyntio ar wella cyflwr adeiladau ysgolion a sicrhau'r defnydd cymunedol mwyaf posibl.

Sut ddefnyddiasom y '5 ffordd o weithio' i bennu'r amcan Llesiant hwn?

Cynnwys – Mae llawer o bobl yn ymwneud â chyflawni'r amcan hwn, gan gynnwys ysgolion, rhieni, gwasanaethau iechyd, llyfrgelloedd, adeiladwyr (ar gyfer gwelliannau i ysgolion), colegau a sefydliadau cyflogaeth. Un o'n partneriaid mwyaf wrth helpu pobl ifanc ac ysgolion i well lefelau cyflawniad a chyrhaeddiad yw'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) sy'n gwneud gwaith gwella ysgolion ar ein rhan. Mae gormod o bartneriaid i'w rhestru ond byddwn yn parhau i hybu gweithio mewn partneriaeth a rhannu adnoddau gan gofio'r hen ddywediad "mae'n cymryd pentref i fagu plentyn".

Hirdymor - Mae'r amcan dros 4-5 mlynedd ond bydd y buddion i blant a phobl ifanc dros gyfnod o 25 mlynedd, o'u geni nes tyfu'n oedolion. Mae'r amcan yn cynnwys camau gweithredu a phwysigrwydd y blynyddoedd cynnar i ddysgu, ymlaen i gymorth i oedolion ifanc i elwa ar raglenni cyflogaeth a'r gydnabyddiaeth bod dysgu digidol yn sgil pwysig heddiw ac yn y dyfodol.

Cydweithio – Y GCA a'n hysgolion yw ein prif bartneriaid ym maes gwelliannau academiaidd ac rydym yn cydweithio'n agos â hwy i wella cyrhaeddiad. Mae gennym amrywiaeth o wahanol fentrau cydweithredol a fydd yn rhan o'n cynlluniau gweithredu manwl. Mae llawer o'r prosiectau sy'n cyflawni'r Amcan Llesiant hwn yn cael eu cyflawni trwy bartneriaethau cydweithredol rhwng partneriaid iechyd, awdurdod lleol, statudol a gwirfoddol.

Integreiddio – Rydym yn ymwybodol bod dyheadau'n gysylltiedig â'r teulu ac felly bydd Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Cefnogi Pobl ac asiantaethau allweddol eraill sy'n gweithio gyda theuluoedd hefyd yn bartneriaid allweddol. At hynny, mae astudiaethau wedi dangos bod

codi dyheadau a gwella agweddau at ddysgu'n ehangach na rhwystrau addysgol yn unig. Felly, mae'n bosibl y bydd arnom angen cymorth gwasanaethau megis hamdden a pharciau a chefn gwlad, y sector gwirfoddol a gwasanaethau iechyd fel ffordd o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

Atal – Rydym yn cymryd ymagwedd hirdymor trwy ddeall effaith blynyddoedd cynnar plant ar eu parodrwydd i fynd i'r ysgol a'u profiad ohoni, sy'n gysylltiedig â phresenoldeb ymlaen i'r sgiliau a'r lefelau arholiadau maent yn eu cyflawni yn yr ysgol. Rydym yn cymryd ymagwedd ataliol i'r rheiny na allant ddilyn llwybr traddodiadol, trwy amrywiaeth o gymorth a gwaith un i un. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd twf mewn sgiliau digidol mae eu hangen ar gyfer gwaith yn y dyfodol ond hefyd hyrwyddo gwaith galwedigaethol a sicrhau y bydd y bobl ifanc hynny nad ydynt yn dilyn llwybr traddodiadol mewn addysg yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynorthwyo. Mae llwyddiant yr amcan hwn yn cael effaith fawr ar ansawdd bywyd, gan y cydnabyddir mai sgiliau sy'n galluogi cyflogaeth yw un o'r prif ffyrdd allan o dlodi.

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd i gyrraedd y nod hwn?

Bydd yna gynllun gweithredu manwl i gynorthwyo â'r gwaith o gyflawni'r amcan hwn dros y 4-5 mlynedd nesaf. Yn y cyfamser rydym yn nodi isod rai o'r prif gamau gweithredu y byddwn yn eu cymryd dros y cyfnod hwn:

Canlyniadau	Amserlen
1. Anelu at leihau effaith tlodi yn y blynyddoedd cynnar	
Parhau i gyflawni rhaglen Dechrau'n Deg i helpu i wella mynediad, cynyddu'r nifer sy'n manteisio arni a gwella presenoldeb.	2017-2021
Parhau i gyflawni rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i helpu i wella mynediad, cynyddu'r nifer sy'n manteisio arni a gwella presenoldeb.	2017-2021
Cynyddu nifer y teuluoedd cymwys sy'n gweithio sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant am ddim.	Medi 2017-2021
2. Codi safonau cyrhaeddiad	
Lleihau'r amrywiad rhwng ysgolion fel y bydd pob ysgol yn gwneud gwelliannau trwy gydweithio'n agos â'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i barhau i hogi prosesau ac ymyrryd yn effeithiol.	2017 parhaus
Lleihau nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol yn arbennig mewn ysgolion cynradd ac uwchradd targededig trwy ddiwygio'r strategaeth ymddygiad a datblygu darpariaeth arbenigol addas i'r diben.	Tachwedd 2017 – Mehefin 2018
Datblygu cronfa ddata STRIVE (System for Tracking and Reporting Identified Vulnerability in Education) ymhellach i gynnwys data am bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar hyn o bryd er mwyn canfod cyrchfannau a chynorthwyo pobl ifanc i gael rhagor o hyfforddiant neu gyflogaeth.	Rhagfyr 2017 - 2018

3: Lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ac analwedigaethol fel ei gilydd er mwyn darparu cyfle cyfartal	
Tracio cynnydd grwpiau agored i niwed yn fwy effeithiol a monitro effaith ymyriadau ar ddeilliannau.	Gorffennaf 2017 ymlaen
Datblygu rôl hyrwyddwr ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gwreiddio ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn ysgolion targededig.	Medi 2016 – Awst 2018
Cynyddu gwaith ymgysylltu a chymorth i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar hyn o bryd neu sydd â risg o beidio â bod mewn un o'r meysydd hynny, er mwyn sicrhau cyrchfannau a gwireddu eu potensial.	2016 - 2019
Ad-drefnu'r Gwasanaeth Ieuencid Craidd i sicrhau y bydd pobl ifanc sydd â'r angen mwyaf yn cael eu cynorthwyo i gyflawni, trwy ddulliau ffurfiol neu ddulliau heb fod yn ffurfiol.	Ebrill 2018 – Medi 2019
4: Helpu'r rheiny na allant ddilyn llwybr cyrhaeddiad traddodiadol	
Gwella cysondeb yr hyn sy'n cael ei ddarparu i'r holl ddysgwyr (Addysg heblaw yn yr ysgol) gan y darparwyr sydd ar y Fframwaith EOTAS ar hyn o bryd.	Ionawr 2018
Datblygu'r cynllun pontio mewn perthynas â Team Teach gydag ysgolion yn trefnu eu hyfforddiant eu hunain.	Gorffennaf 2017
Gweithio gyda'r Awdurdodau Lleol sy'n ymwneud â'r cynlluniau peilot Cyllid Hyblygrwydd i baratoi ar gyfer gweithredu o Ebrill 2019 er mwyn sicrhau'r cyrhaeddiad mwyaf posibl i raglenni a gyllidir gan grantiau i deuluoedd agored i niwed.	Ebrill 2018-2021
Adolygu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) mewn ysgolion prif ffrwd gan gynnwys Cymorth Ychwanegol ac Addysg yn y Gymuned, ac Addysg heblaw yn yr ysgol. Y diben yw: • sicrhau bod pob ysgol yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau o dan y Cod Anghenion Addysgol Arbennig presennol a'r datblygiadau mewn perthynas â diwygio 'Anghenion Dysgu Ychwanegol', ac yn cyflawni'r cyfrifoldebau hynny • sicrhau y targedir adnoddau'n effeithiol er mwyn diwallu anghenion • sicrhau ymagwedd gyson at ddysgwyr EOTAS • sicrhau y sefydlir llwybrau priodol i ddysgwyr EOTAS	Ionawr 2017 – Medi 2019
5: Cefnogi dysgu sy'n hwyluso cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc ac oedolion gan gynnwys canolbwyntio ar 'sgiliau'r dyfodol'.	
Cyflawni gwaith Dysgu Oedolion yn y Gymuned a Chronfa Gymdeithasol Ewrop i wella lefel sgiliau a chynnig cyfleoedd i ennill cymwysterau (ffurfiol a heb fod yn ffurfiol) a symud pobl tuag at gyflogaeth.	2017-2023
Parhau â'r rhaglenni 'Ysbrydoli i Weithio', cymorth i bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac sydd heb fodd o ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth, neu hyfforddiant. Mae'r Prosiect wedi'i gymeradwyo ar hyn o bryd	Dechreuwyd cyflawni Mehefin 2017 – Mehefin 2019.
Parhau i ehangu'r Cynllun Hyfforddeiaeth Cynnydd sy'n targedu pobl ifanc 16-18 oed sy'n gadael gofal. Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar waith yr awdurdod lleol i ddarparu rhaglen ragorol o brofiad gwaith i'r person ifanc i'w alluogi i ddatblygu ac ennill cymhwyster ystyrlon ar y cyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol.	2017 - 2018
Bydd Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynorthwyo â dyrannu cyllid datblygu i dreialu prosiect 'Sgiliau ar gyfer y Dyfodol' i roi prawf ar y cysyniad a datblygu achos busnes.	2018/19
6: Gwella sgiliau digidol i bobl o bob oed	
Cyflwyno cymhwysedd llythrennedd, rhifedd a digidol a ddisgwylir gan bob athro	Medi 2017 -

a disgybl. Mae ysgolion Caerffili'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddod yn ganolfannau rhagoriaeth wrth rannu arferion da mewn cymhwysedd digidol.	parhaus
Datblygu cymorth i Addysg Oedolion gyflenwi sgiliau llythrennedd digidol, gan gefnogi'r tair rhaglen cyflogadwyedd.	2017-2022
Cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Ddigidol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.	2018-2023
7. Gwella'r amgylchedd dysgu	
Cytuno ar y rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain ganrif y bwriedir iddi redeg o 2019 ymlaen.	2018
Sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau y cyflwynir Achosion Busnes yn brydlon i Lywodraeth Cymru.	2018
Sicrhau y bodlonir holl ofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion wrth gyflawni'r rhaglen.	2018-2023
Rheoli'n effeithiol y gwaith o gaffael a chynllunio prosiectau er mwyn sicrhau gwerth am arian a'r defnydd gorau o adnoddau.	2018-2023
Rheoli ein hadnoddau Cyfalaf yn effeithiol er mwyn sicrhau y'u targedir ar y meysydd lle mae'r angen mwyaf.	2018-2023
Sicrhau bod yr ysgolion iawn yn y lleoedd iawn i ateb y galw heddiw ac yn y dyfodol.	2018-2023
8: Diogelu pob plentyn a pherson ifanc er mwyn creu hinsawdd ar gyfer dysgu, yn arbennig i'r rheiny sy'n fwyaf agored i niwed	
Datblygu Strategaeth Llesiant a pholisi enghreifftiol i ysgolion.	2018
Datblygu system gynaliadwy i ddarparu digon o hyfforddiant diogelu i'r holl staff i greu diogelwch i'r holl ddysgwyr.	2018-2022

Pam rydym ni'n barnu y bydd ein Hamcan Llesiant yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gennym ni at y Nodau Llesiant cenedlaethol

Mae **Cymru lewyrchus** yn datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig; mae arnom angen i'n pobl ifanc feddu ar fwy o sgiliau galwedigaethol neu analwedigaethol er mwyn cael swyddi sy'n talu'n well a mwy o foddhad swydd sy'n cyfrannu at y gymuned a gwell ansawdd bywyd. Mae cyflawni ein Hamcan Llesiant yn hanfodol er mwyn cyfrannu at y nod cenedlaethol hwn.

Nod y gwaith hwn yw helpu pob person ifanc (ac oedolyn) i gyflawni ei botensial ac felly mae'n sail i Gymru **sy'n fwy cyfartal**. Mae llythrennedd, chwarae, lleferydd a'r holl raglenni sydd wedi'u bwriadu i helpu i wella darllen ac ysgrifennu trwy gwrs bywyd yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i Gymru **â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

Mae cydnabod y ffordd mae iechyd a lles yn cyfrannu at gyrhaeddiad addysgol yn golygu y byddai pobl ifanc iachach yn galluogi **Cymru iachach**

Mae cymhwysedd digidol a'r rhwydweithiau y tu ôl iddo'n cyfrannu at **Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**.

Byddai llwyddiant yr amcan hwn hefyd yn cyfrannu at:

- Nod 2 Llywodraeth Cymru - Gwella deilliannau addysg i bawb a lleihau'r bwlch rhwng deilliannau gwahanol grwpiau
- Cyngor Celfyddydau Cymru - Cyrraedd – Datblygu creadigrwydd plant a phobl ifanc
- Iechyd Cyhoeddus Cymru – Rhoi i'n plant y dechrau gorau mewn bywyd gan gynnwys cyfleoedd i dyfu, chwarae a dysgu mewn amgylchedd iach a diogel
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – Cynorthwyo pob rhiant sy'n disgwyl plentyn a rhoi i bob plentyn yng Ngwent gymorth er mwyn sicrhau'r dechrau gorau mewn bywyd.

Sut y byddwn ni'n sicrhau adnoddau i'r Amcan Llesiant hwn

O fis Ebrill 2019, dyfarnwyd Grant Plant a Chymunedau i'r Awdurdod Lleol, sef cyfanswm o £9,742,237, sef cyfuniad o 7 grant blaenorol Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Cronfa Etifeddiaeth (Cymunedau yn Gyntaf gynt), Cymunedau am Waith a Mwy, Gofal Plant a Chwarae, Hyrwyddo Cadarnhaol Ymgysylltu â Phobl Ifanc sydd mewn perygl o droseddu, a chronfa Dydd Gŵyl Dewi. Bydd y grant ariannu cyfunol hwn yn galluogi mwy o gydweithio rhwng y rhaglenni i wella gwasanaethau i deuluoedd a thrigolion ar draws y fwrdeistref.

Mae'r grant Cynnig Gofal Plant sy'n cael ei dalu i leoliadau gofal plant ar draws y fwrdeistref ar gyfer lleoedd gofal plant yn lleihau'r swm y mae rhieni sy'n gweithio yn ei dalu am ofal plant 3 oed mewn lleoedd rhan-amser yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r grant refeniw hwn yn £2,798,000 y flwyddyn. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwerth £5,110,989 o arian cyfalaf i'r awdurdod lleol i ddatblygu mwy o leoedd gofal plant ar gyfer plant 3-4 oed ar draws y fwrdeistref.

Bydd Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Band B yn cael ei hariannu 75% gan Lywodraeth Cymru a 25% wedi'i hariannu gan yr Awdurdod Lleol. Mae'r awdurdod lleol wedi llwyddo i sicrhau gwerth £6,306,000 o arian cyfalaf ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a darpariaeth gofal plant blynyddoedd cynnar, er mwyn cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop sy'n ariannu Sgiliau Gwaith i Oedolion (£755 mil) Ysbrydoli i Weithio (544k gydag ymrwymiad cyfatebol gan yr Awdurdod Lleol) a Phontydd i Waith 2 (1.6 miliwn gydag ymrwymiad cyfatebol gan yr Awdurdod Lleol) yn aros yr un fath â Chynllun 2018 gan fod yr arian wedi'i osod ar gyfer hyd y prosiectau.

Mae'r GCA yn sicrhau bod Grant Datblygu Disgyblion (£13,406,723) a'r Grant Gwella Addysg yn cael eu targedu a'u monitro'n briodol.

Mae'r grant Gwaith Ieuentid bellach yn £581,572, ac mae'r Grant Dysgu Cymunedol i Oedolion (a ariennir gan Lywodraeth Cymru) wedi cynyddu hefyd i £312,710

Ariennir rhaglenni digidol gan Lywodraeth Cymru, er ein bod yn cyfrannu at elfennau fel rhentu llinellau. Bydd Bargen Ddinesig Dinas-ranbarth Caerdydd yn cytuno ar ddryaniad o £120 mil ar gyfer cwrpasu strategaeth ddigidol.

Pryd fydd yr amcan yn cael ei gwblhau?

Bydd y daith hon yn barhaus gan y byddwn bob amser yn barnu bod gwella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc a galluogi cyfleoedd cyflogaeth yn bwysig. Fodd bynnag, gan fod yr amcan hwn wedi'i bennu am y 5 mlynedd nesaf byddwn yn barnu ein bod wedi sicrhau gwelliant sylweddol pan godwn uwchben cyfartaledd Cymru yn y dangosyddion isod.

Canlyniad	Mesur
1	Mae cyfanswm y plant sy'n manteisio ar raglen Dechrau'n Deg bob blwyddyn uwchben nifer y cap sef 2483
1 a 3	Cynnydd yn nifer y rhieni cymwys sy'n gweithio sy'n manteisio ar leoedd a gyllidir gan y Cynnig Gofal Plant

1	Nifer y teuluoedd unigol sy'n cael budd o raglen Teuluoedd yn Gyntaf
1	Nifer a % y cyfranogwyr sy'n nodi gwell lles emosiynol / meddyliol (yn dilyn y rhaglen y cyfranogasant ohoni).
2	% presenoldeb mewn ysgolion cynradd
2	% presenoldeb mewn ysgolion uwchradd
2	% y gwaharddiadau cyfnod penodol am bob 1000 o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd
7	% y lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd ac uwchradd
3 a 4	% pobl ifanc Blwyddyn 11 sy'n gadael ysgolion y gwyddys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
4,5 ac 8	Nifer y bobl ifanc sy'n gadael gofal (16-18) sy'n ymgysylltu â'r Cynllun Hyfforddiaeth Cynnydd yn codi
5	Nifer y bobl ifanc sy'n ymgysylltu â'r Digwyddiadau Swyddi Gwag Byw (2 bob blwyddyn)
5	Cyrraedd neu ragori ar dargedau cyflogadwyedd (fel y'u rhoddir ar gyfer rhaglenni Pontydd i Waith ac Ysbrydoli)
6	Cyflwyno'r fframwaith cymhwysedd digidol yn ein hysgolion
2	Sgôr 9 Pwynt wedi'i Gapio yng Nghyfnod Allweddol 4 (newydd ar gyfer 2019)
	Cyfnod Allweddol 4 A*-A (newydd ar gyfer 2019)
2	Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Lefel 1 a 2 (newydd ar gyfer 2019)

Rydym wedi dileu: 5 mesur ar gyfer 19/20 gan nad ydynt bellach yn cael eu casglu a'u defnyddio gan Lywodraeth Cymru ac wedi'u disodli â chanlyniadau yng nghyfnod allweddol 4. Byddwn yn adrodd ar y mesurau am y tro olaf yn ein hadroddiad perfformiad 2018/19.

I roi cyd-destun byddwn hefyd yn adolygu'r Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru isod fel rhan o'r amcan cyffredinol hwn:

Dangosyddion Llesiant Cyffredinol-	
Mesuriad o ddatblygiad plant ifanc	Ffynhonnell y data Proffil Cyfnod Sylfaen

Gwybodaeth berthnasol arall

Rydym yn cydnabod bod yna lawer o ffactorau eraill sy'n helpu pobl ifanc gydag addysg a sgiliau byw ehangach megis y gallu i goginio prydau bwyd neu fod â hunan-dyb da. Er enghraifft canfu ymchwil ddiweddar (University of Strathclyde and Dundee) fod ymarfer corff dwys yn gwella perfformiad academiaidd pobl yn eu harddegau. Er na allwn flaenoriaethu'r holl agweddau hyn, mae rhaglenni fel ein rhaglenni ysgolion iach ac ymarfer corff yn cydnabod yr agweddau eraill hyn ac yn cael eu cynnwys yn amcanion 3 a 5.

Gellir gweld gwybodaeth am ysgolion a'u perfformiad yn y fwrdeistref sirol ar www.mylocalschool.com



2. Galluogi cyflogaeth

Canlyniadau

1. Anelu at leihau effaith tlodi trwy gynorthwyo pobl i sicrhau gwell rhagolygon cyflogaeth.
2. Cyrraedd targedau rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop o sicrhau bod pobl yn meithrin sgiliau ac yn cael gwaith.
3. Bydd y Cyngor yn defnyddio gwerth ei wariant trydydd parti i ddod â mwy o adfywiad cymdeithasol ac economaidd i'r cymunedau a wasanaethwn.
4. Defnyddio buddsoddiad yn y stoc tai i gynyddu nifer y gweithwyr medrus a chymwysedig a mynd i'r afael â bod yn ddi-waith trwy ddarparu prentisiaethau, hyfforddiant a lleoliadau gwaith gyda'n gweithlu mewnol a chontractwyr adeiladu.
5. Sicrhau bod cyflawni rhaglenni gwaith yn lleol yn alinio ac yn cael y cyfleoedd mwyaf posibl o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

2. Galluogi cyflogaeth

Datganiad Llesiant

Nod yr amcan hwn yw galluogi pobl i fod yn barod ar gyfer swyddi a helpu i atal problemau yn y tymor hirach sy'n gysylltiedig â sgiliau isel a diffyg cyflogadwyedd. Rydym eisiau cyfrannu at y materion cyffredinol sy'n effeithio ar gyflogaeth yn yr economi leol.

Cyn cyflogaeth mae yna lawer o raglenni cymorth cysylltiedig sy'n helpu i roi pobl mewn sefyllfa i fod yn barod ar gyfer gwaith. Mae anghenion iechyd meddwl lefel isel, diffyg symbyliad, diffyg hyder a nifer o ffactorau eraill yn chwarae rhan mewn rhoi person mewn sefyllfa lle mae'n barod i hyfforddi neu lunio CV neu fynd i gyfsweliad. Mae nifer o'n prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chefnogi Pobl (er nad ydynt yn ymwneud yn benodol â chyflogaeth) yn helpu i feithrin hyder pobl ac i roi llais iddynt sy'n eu rhoi mewn gwell cyflwr meddwl i ddechrau edrych ar anghenion a chyfleoedd cyflogaeth.

Rhaid cydnabod na allwn ni, fel Awdurdod Lleol, ddatrys problemau diweithdra gan mai twf economaidd cenedlaethol yw un o'r prif benderfynyddion o ran argaeledd swyddi. Yr hyn y gallwn ei wneud yw helpu i arfogi pobl â'r sgiliau a phrofiad i roi iddynt y cyfle gorau i gael gwaith. Gallwn sicrhau bod ein gwaith cynllunio'n ystyried cymorth ar gyfer twf busnesau a'n bod ni'n deall ac yn gweithredu ar benderfynyddion ehangach cyflogaeth megis teithio a mynediad i swyddi.

Bernir o hyd mai cyflogaeth yw un o'r prif ffyrdd allan o dlodi felly mae'n bwysig inni edrych ar ffyrdd y gallwn arfogi pobl ar gyfer cyflogaeth sy'n 'gynaliadwy' ac 'yn talu'n dda'. Mae addysg yn ffactor allweddol yn hyn o beth ac mae gennym ganlyniadau yn ein hamcan Addysg i wella ein safonau cyrhaeddiad.

Yn ystod ein sgysiau gyda'r cyhoedd cyfarfuom â llawer o ddinasyddion a ddywedodd wrthym mai un o'r prif feysydd oedd yn destun pryder oedd gallu meddu ar sgiliau a mynediad i gyflogaeth. Dywedodd yr asesiad llesiant lleol wrthym fod gennym yn y fwrdeistref sirol 70% o wrywod 16-74 oed sy'n economaidd weithgar a bron 60% o fenywod 16-74 oed sy'n economaidd weithgar. Mae hyn yn golygu bod gennym 30% o wrywod 16-74 oed sy'n economaidd anweithgar ac oddeutu 40% o fenywod 16-74 oed a ddisgrifir fel economaidd anweithgar.

(Diffinnir pobl economaidd anweithgar fel rhai nad ydynt mewn cyflogaeth nac yn ddi-waith. Mae llawer o resymau pam y gall unigolyn fod yn anweithgar, er enghraifft efallai ei fod yn astudio, yn edrych ar ôl teulu neu â salwch hirdymor)

8.6% oedd canran y gwrywod 16-74 oed oedd â salwch hirdymor neu anabledd yn y fwrdeistref sirol o gymharu â chyfartaledd Cymru sef 6.5%. 7.8% oedd canran y benywod 16-74 oed oedd â salwch hirdymor neu anabledd, sydd ychydig yn llai na chyfartaledd Cymru, sef 6.0%.

Mae diweithdra ar draws llawer o rannau o'r fwrdeistref sirol yn cael ei nodweddu gan 'fod heb waith' hirdymor o genhedlaeth i genhedlaeth, yn fwyaf nodedig yn y cymunedau hynny lle gwelwyd effaith diswyddiadau helaeth yn dilyn cau diwydiannau yn y gorffennol. Hefyd mae problem gynyddol aelwydydd sydd heb waith, lle mae agweddau negyddol at gyflogaeth yn cael eu cynnal ledled teuluoedd, gydag effaith sylweddol ar agweddau a rhagolygon cenedlaethau'r dyfodol. Er enghraifft, yn ardal gymunedol Cwm Rhymni Uchaf mae cyfran fawr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y fwrdeistref sirol, lle mae diweithdra yn broblem fawr, ac mae yna genedlaethau o deuluoedd nad oes neb ohonynt erioed wedi gweithio. Mae data'n dangos bod y cyfraddau diweithdra fesul ward i wrywod 16-74 oed yn Rhymni yn sylweddol uwch na chyfartaledd y

fwrdeistref sirol (6.6%) a chyfartaledd Cymru (5.5%) yn y rhan fwyaf o'r wardiau. Bydd pobl sy'n byw yn y cymunedau hyn yn aml yn wynebu nifer fawr o rwystrau cymhleth i gyflogaeth gan gynnwys trafndiaeth (mae daearyddiaeth y fwrdeistref sirol yn golygu bod hon yn broblem benodol i rai ardaloedd), gofal plant, iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwael, diffyg hyder, sgiliau isel, diffyg addysg/cymwysterau a sgiliau hanfodol, symbyliad gwael, camdriniaeth ddomestig a chamddefnyddio sylweddau. Ceir mwy o fanylion am y data yn 'Asesiad Llesiant Lleol Ardal Bwrdeistref Sirol Caerffili' Mawrth 2017 y gellir ei weld ar lein ar <https://your.caerphilly.gov.uk/publicservicesboard/cy>.

Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (Gorffennaf 2016 – Mehefin 2017) yn dangos bod canran y bobl sy'n ddi-waith yn y fwrdeistref sirol (5.3%) yn uwch na chyfartaledd Cymru (4.7%) a chyfartaledd y Deyrnas Unedig (4.6%). Mae canran yr aelwydydd sydd heb waith yn uwch hefyd. Gwyddys bod diweithdra'n cael effaith niweidiol ar iechyd a lles, ac mae hefyd yn gysylltiedig ag amddifadedd a thlodi. Bydd helpu pobl i gael gwaith yn eu galluogi i fyw'n annibynnol, yn eu codi o dlodi ac yn helpu i hybu iechyd a lles da.

Mae datblygu sgiliau ac ennill cymwysterau i sicrhau y caiff pobl ifanc gyflogaeth yn cael ei drafod yn ein Hamcan Addysg ac mae'n hanfodol er mwyn cyflawni'r amcan hwn gan fod **31.4%** o'n preswylwyr sy'n oedolion heb unrhyw gymwysterau. Ymdrinnir â'r gallu i gyrraedd swyddi trwy drafndiaeth gynaliadwy yn ein hamcan ar drafndiaeth.

Galluogi Cyflogadwyedd

Roedd yr Asesiad Llesiant yn golygu siarad â llawer o ddinasyddion a welodd y cysylltiad rhwng diffyg cyfle, yn arbennig rhagolygon am swyddi, ac addysg a hyfforddiant wrth helpu i gynnig cyfleoedd i gael swyddi.

Yng Nghaerffili, cynhelir ystod o raglenni cyflogadwyedd, a gyllidir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a chan Lywodraeth Cymru, sydd wedi'u bwriadu i wella cyflogadwyedd ar draws amrywiaeth o grwpiau cwsmeriaid. Mae ein **Hamcan Addysg** yn darparu camau gweithredu yn benodol ar gyfer y rhaglenni isod sy'n cyfrannu at yr amcan hwn ac a nodir isod:

-  **Ysbrydoli i Weithio** – yn cysylltu'n uniongyrchol â'n gwaith gyda phobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac sydd heb unrhyw fodd o gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ffurfiol neu anffurfiol.
-  **Pontydd i Waith** - cymorth wedi'i deilwra i gyfranogwyr sy'n 25 a hyn sy'n economaidd anweithgar, gan weithio mewn ardaloedd nad ydynt yn cael blaenoriaeth (nid yw hon yn rhan o'r rhaglenni a elwir Cymunedau am Waith sy'n gweithredu mewn ardaloedd a ddisgrifir fel difreintiedig).
-  **Sgiliau Gweithio i Oedolion 2** - yn rhoi cymorth i bobl gyflogedig neu hunangyflogedig 16 oed a hyn gyda golwg ar ennill rhagor o gymwysterau i uwchsgilio er mwyn manteisio ar gyfleoedd gwell.

Yn ganolog i'r gwaith o gydgyssylltu'r rhaglenni hyn yn llwyddiannus mae proses **'brysbennu'**, sy'n rhan o raglen Cymunedau am Waith ac sy'n darparu man atgyfeirio canolog, lle gall cwsmeriaid sy'n chwilio am waith neu sgiliau gael eu hatgyfeirio at staff brysbennu dynodedig a fydd yn penderfynu a ydynt yn gymwys am unrhyw un o'r rhaglenni cyflogadwyedd sydd ar gael ac yn eu hatgyfeirio fel bo'n briodol. Mae'r dull hwn yn sicrhau gweithio partneriaethol effeithiol ac nad oes dyblygu ar draws y gwahanol raglenni cyflogadwyedd, gan ei gwneud yn bosibl darparu gwasanaeth cyflogaeth cyfannol ledled y fwrdeistref sirol, a all gynorthwyo pob cwsmer waeth beth fo ei feini prawf cymhwysedd unigol.

Mae **Cymunedau am Waith** yn darparu cymorth mentora dwys i gwsmeriaid di-waith yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (a elwir ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf) yn y fwrdeistref sirol. Caiff y rhaglen ei chyllido gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac mae'n bartneriaeth rhyngom ni a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae Mentoriaid Cyflogaeth sy'n gweithio i'r Cyngor a Chynghorwyr Cyflogaeth sy'n gweithio i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cydweithio mewn timau clwstwr er mwyn rhoi cymorth cyflogadwyedd dwys i fynd i'r afael â'r nifer fawr o rwystrau cymhleth i gyflogaeth y mae cwsmeriaid yn eu hwynebu.

Yn dilyn dileu'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn raddol ym mis Mawrth 2018, sefydlwyd y rhaglen **Cymunedau am Waith a Mwy** er mwyn "llenwi'r bylchau" o ran y cymorth cyflogadwyedd a ddarparwyd yn flaenorol gan Gymunedau yn Gyntaf. Dechreuodd y rhaglen yn ffurfiol ym mis Ebrill 2018 ac mae'n adlewyrchu'r gwasanaeth a gynigir gan Gymunedau am Waith trwy ddarparu cymorth cyflogadwyedd wedi'i seilio ar fentora i gwsmeriaid nad ydynt yn bodloni meini prawf cymhwysedd ffurfiol y rhaglenni presennol a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, yn ogystal â darparu lefel o gymorth cofleidiol i Gymunedau for Work ar ffurf cymorth ychwanegol i fynd i'r afael â'r rhwystrau cymhleth niferus sy'n wynebu pobl. Yn ogystal, cyflwynwyd Cronfa **Etifeddol** Llywodraeth Cymru i barhau ag etifeddiaeth Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer cymunedau lleol. Yng Nghaerffili, mae'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi 8 ardal Etifeddol, sydd wedi'u blaenoriaethu fel cymunedau sydd â'r angen mwyaf, sydd angen gweithgarwch ymgysylltu dwys i gael mynediad at yr unigolion anoddaf eu cyrraedd. Anogir cyfranogwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn eu cymunedau drwy'r rhaglen Etifeddiaeth, fel ffordd o gynyddu dyheadau, hyder a gwybodaeth, gyda'r nod o symud ymlaen wedyn i'r rhaglenni cyflogaeth.

Cynnig Gofal Plant i Gymru

Mae Cynnig Gofal Plant newydd Llywodraeth Cymru ar gael ar draws y fwrdeistref sirol erbyn hyn a gallai olygu arbedion ariannol enfawr i rieni cymwys sy'n gweithio am 16 awr **neu ragor** yr wythnos. O'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed, gallai plant fod â hawl i 20 awr o ofal plant a gyllidir gan y llywodraeth. Mae hyn yn ychwanegol at y 10 awr a ddarperir eisoes gan y Cyfnod Sylfaen rhan-amser a hyd at 30 awr o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol. Gallai'r gofal plant a gyllidir gan Lywodraeth Cymru yn y fwrdeistref sirol ar hyn o bryd gynnig ffordd o helpu rhieni yn ôl i gyflogaeth gan wybod y bydd eu hanghenion gofal plant o bosibl yn cael eu diwallu.

Rhaglen Buddsoddi Safon Ansawdd Tai Cymru

Rydym wedi ymrwymo i gyrraedd SATC ym mhob un o'n 10,805 o gartrefi erbyn 2020. Rydym hefyd wedi ymrwymo i gyflawni rhaglen trawsnewid uchelgeisiol lle bydd buddsoddiad SATC gwerth £200 miliwn yn gweithredu fel catalydd i drawsnewid nid yn unig cartrefi ond hefyd bywydau a chymunedau ledled yr ardal. Rydym yn cydnabod bod buddsoddiad ar y raddfa hon yn cynnig cyfle unigryw i ddarparu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ychwanegol i'r bobl sy'n byw yn ein cartrefi ac yn ein cymunedau.

Mae'r rhaglen buddsoddi'n cynnig cyfle i gysylltu canlyniadau o ran tai ac adfywio trwy sicrhau mwy o alinio rhwng rhaglenni strategol a gweithredol allweddol; trwy sicrhau cyllid allanol i ychwanegu at y rhaglen buddsoddi sy'n bodoli eisoes; trwy ymgysylltu â phobl a chymunedau y barnwyd gynt eu bod yn 'anodd eu cyrraedd'; a thrwy wneud pethau gwahanol a'u gwneud mewn ffordd wahanol.

Mae'r strategaeth caffael a'r strwythur contractau a fabwysiadwyd wedi cael eu cynllunio'n benodol i ysgogi cyflawni mwy o werth ychwanegol trwy fuddion i'r gymuned. Mae'r strwythur yn ceisio

sicrhau'r gwerth gorau am arian Cymru, darparu mwy o fuddion ac effaith cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, a rhoi mwy o sicrwydd a hyder i'r farchnad trwy symud i ffwrdd o gontractau fframwaith 'gwaith a allai fod' i gontractau ymrwymiad hirdymor 'gwaith a fydd'.

Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, rydym wedi cynnwys gofynion targededig o ran recriwtio a hyfforddiant mewn contractau gwaith mewnol a phartneriaid cyflenwi SATC (golyga hyn ein bod yn gofyn i'n contractwyr recriwtio a hyfforddi pobl sy'n ddi-waith fel rhan o'r contract). Rydym yn gofyn iddynt gymryd ymagwedd hyblyg at gyfres o fuddion i'r gymuned sy'n cynnwys cais i ystyried talu'r cyflog byw, creu cronfa i gynorthwyo grwpiau cymunedol lleol, a gweithgareddau i helpu i hwyluso trosglwyddo gwybodaeth a phrofiad mewn, a rhwng, y sector preifat ac ysgolion a cholegau lleol.

Hyd yma, mae 106 o gyfleoedd gwaith amser llawn newydd wedi cael eu creu ar draws Cartrefi Caerffili (adran tai'r Cyngor) a 71 o rai eraill o ganlyniad i'r gwaith a ddyfarnwyd i'n contractwyr gwaith mewnol a phartner cyflenwi SATC. Mae'r cyfleoedd a grëwyd, yn enwedig gan y Cyngor, wedi sicrhau budd uniongyrchol i'r economi leol gan fod oddeutu 80% o'r gweithlu a gyflogwyd yn byw yn y fwrdeistref sirol, ac felly'n gwario eu cyflogau'n lleol.

Hefyd crëwyd 43 o gyfleoedd prentisiaeth yn nhîm Cartrefi Caerffili i gynorthwyo â'r gwaith o gyflawni rhaglen SATC. Crëwyd 15 cyfle arall gan gontractwyr gwaith mewnol a phartner cyflenwi'r Cyngor.

Mewn ymgais i sicrhau y gall y bobl fwyaf difreintiedig yn y fwrdeistref sirol fanteisio ar y cyfleoedd mae'r rhaglen yn eu cynnig, rydym ni a'n partneriaid cyflawni wedi cynnig nifer o gyfleoedd lleoliadau gwaith i bobl 16 oed a hŷn sydd wedi bod yn ymwneud â rhaglen trechu tlodi Llywodraeth Cymru o'r enw Esgyn. Mae 17 unigolyn o aelwydydd oedd heb waith wedi cael budd o integreiddio rhaglen SATC gyda'r gwaith o gyflawni rhaglen Esgyn.

Crëwyd cyfleoedd lleoliadau gwaith gan ein contractwyr ac isgontractwyr gwaith mewnol, ynghyd â Robert Price, partner cyflenwi SATC y Cyngor, ac Eon sy'n cyflawni rhaglen helaeth o waith inswleiddio waliau allanol ac effeithlonrwydd ynni ar ran Cartrefi Caerffili, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru a ninnau, ym Mharc Lansbury.

Ymrwymwyd £50,000 y flwyddyn am 5 mlynedd ar ddechrau'r rhaglen i gynorthwyo'r rheiny y bernir eu bod bellaf o'r farchnad lafur i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth. Hyd yma defnyddiwyd y cyllid i ychwanegu gwerth at y gwaith cymorth cyflogaeth a wnaethpwyd gan y Tîm Adfywio Cymunedol a'r gwaith o gyflawni rhaglen Esgyn. Yn y dyfodol, bydd y cyllid yn cydategu'r gwaith o gyflawni'r rhaglenni cymorth cyflogaeth newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru (Etifeddol, Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy) ac yn cynorthwyo'r tenantiaid mwyaf agored i niwed ar eu taith tuag at gyflogaeth.

Caffael

Rydym yn gwario oddeutu £170 miliwn y flwyddyn ar wariant trydydd parti sy'n cynnig cyfleoedd i greu cysylltiadau gwell â'r hyn y gallwn ei wneud i gefnogi'r economi leol. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cyflawni gwerth am arian oddi wrth ein gwariant caffael trydydd parti. Felly rydym yn cydnabod gwerth defnyddio prynu i gefnogi amcanion diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach, mewn ffyrdd sy'n cynnig buddion hirdymor gwirioneddol i'r gymuned. Bydd ein 'Raglen ar gyfer Caffael' yn strategaeth fyw hyblyg, y gellir ei haddasu ac a

fydd yn effro i newidiadau yn yr amgylchedd a bydd yn nodi camau gweithredu penodol i gyflawni hyn.

Mae gan ein Hamcan gymysgedd o gamau gweithredu ymarferol yn y tymor byr a'r tymor canolig megis darparu sgiliau sy'n helpu pobl i baratoi ar gyfer cyflogaeth. Fodd bynnag, mae hefyd benderfynyddion ehangach a chamau gweithredu yn y tymor hirach y mae angen iddynt ddigwydd, ar ffurf ein **Strategaeth Adfywio drafft - 'Sylfaen ar gyfer Llwyddiant' 2018-2023**. Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili a Phrifddinas-Ranbarth ehangach Caerdydd yn dechrau ar gyfnod o newid trawsnewidiol, ac mae angen taer am strategaeth i gydgyssylltu amrywiaeth fawr o fentrau a gwneud y defnydd gorau o ffrydiau cyllido er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl i'r fwrdeistref sirol.

Er bod yna lwybrau gwahanol at drawsnewid, mae'r strategaeth yn cydnabod pa mor bwysig yw ein Heconomi Sylfaenol. Mae'r 'Economi Sylfaenol' yn enw swyddogol ar weithgareddau busnes yr ydym yn eu defnyddio bob dydd ac yn eu gweld o'n cwmpas ym mhob man, megis siopau, gofal cymdeithasol a gofal plant a diwydiannau bwyd, ynni a thai. Mae'n bwysig na chaiff hon ei hanwybyddu mewn cynlluniau partneriaethol i adfywio'r ardal oherwydd at ei gilydd y sectorau hyn yw 40% o'r farchnad lafur ar draws y Deyrnas Unedig ac maent yn gwneud cyfraniad sylweddol i dde Cymru ac i fwrdeistref sirol Caerffili.

Mae'r 'Economi Sylfaenol' yn darparu gwasanaethau hanfodol; pe bai'r rhain yn cael eu colli byddai ein dinasyddion yn teimlo hynny a byddai'n effeithio ar eu llesiant, boed colli siop y pentref neu gau cartref gofal. Mantais arall y math hwn o fusnes yw ei fod yn gymharol sefydlog, ac felly'n cynnig rhywfaint o amddiffyniad yn erbyn ergydion economaidd allanol, a'i fod yn gymharol wastad ei ledaeniad ar draws Cymru.

Yn y Strategaeth mae amrywiaeth fawr o flaenoriaethau; creu gwaith, hybu cysylltedd digidol, cynyddu entrepreneuriaeth a gwella mynediad i gyflogaeth. Mae 'Sylfaen ar gyfer Llwyddiant' yn nodi cyfres o gamau gweithredu y mae eu hangen er mwyn sicrhau gwelliant a thwf a bydd hyn yn sail i'r Cynllun Cyflawni. Caiff y Strategaeth ei chefnogi gan set o gynlluniau; un o'r rhain yw 'uwch gynllun Basn Caerffili'. Ynghyd ag agweddau megis twristiaeth a thrafnidiaeth, mae gan Gaerffili'r potensial i fod yn ganolbwynt metro allweddol oherwydd ei lleoliad canolog yn y rhanbarth ac mae'r uwch gynllun yn nodi sut y gellir manteisio ar y cyfle hwn. Mae Tasglu'r Cymoedd Llywodraeth Cymru wedi nodi bod ardal Caerffili ac Ystrad Mynach yn Ganolbwynt Strategol ac yn ardal lle gellir ffocysu arian cyhoeddus i gynnig cyfleoedd i'r sector preifat fuddsoddi a chreu swyddi newydd. Mae'r Strategaeth yn darparu'r cyfle i'r Cyngor gydgyssylltu ei weithgareddau ei hun ond mae'r un mor bwysig ei bod yn cynnwys ymagwedd amlasiantaethol ac ymrwymiad oddi wrth bartneriaid i gydgyssylltu gweithgarwch er mwyn cyflawni cost effeithiolrwydd, lleihau dyblygu a sicrhau'r buddion mwyaf posibl i'r fwrdeistref sirol.

Prosiect rhanbarthol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd 'Sgiliau ar gyfer y Dyfodol'

Rhagwelir twf sylweddol mewn swyddi gwag lle mae prinder sgiliau mewn sectorau allweddol (er enghraifft gweithgynhyrchu, ariannol ac adeiladu) ac mewn sgiliau digidol ym mhob un sector bron. At hynny mae arolygon o gyflogwyr wedi nodi potensial recriwtio heb ei gyffwrdd yn y sector preifat, yn arbennig ymysg busnesau bach a chanolig (BBaChau) ac mae'r rhesymau'n amrywiol iawn. Mae BBaChau yn arbennig o arwyddocaol yn yr economi ranbarthol gan mai hwy yw oddeutu 95% o gwmnïau a'r crëwr swyddi mwyaf, ond ar hyn o bryd mae llawer yn wynebu bylchau sgiliau ac yn cael problemau wrth recriwtio. Ystyrir bod cynyddu nifer y prentisiaethau a graddedigion yn her. Hefyd mae diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n cael ei gynnig ac fel y nodasom yn ein Hamcan Addysg, mae llai o fyfyrwyr yn astudio mewn meysydd megis peirianeg a sgiliau digidol. Dangosodd

arolygon o BBaChau y byddai gan 71% ohonynt ddiddordeb mewn cyflogi prentisiaid gyda rhywfaint o gymorth ychwanegol.

Amcangyfrifodd gwerthusiadau o rannau eraill o'r wlad a gyflawnodd waith ymgysylltu ag ysgolion a chymorth ar gyfer prentisiaethau mewn BBaChau (Leeds City Region) fod gwerth economaidd hirdymor pob prentisiaeth 22 gwaith cost gychwynnol rhoi prentisiaethau ar waith.

Mae patrymau mudo graddedigion yn dangos yn rheolaidd bod cyflogau isel yn un o'r ffactorau sy'n achosi i raddedigion adael Cymru ac yn nodi diffyg cyfleoedd i gael swyddi sy'n talu'n dda yn y sector preifat, sy'n achosi gorddibyniaeth ar y sector cyhoeddus. Mae prosiect 'Sgiliau ar gyfer y Dyfodol' yn edrych ar dreialu amrywiaeth o weithgareddau (gan adeiladu ar arferion sy'n bodoli eisoes) gan gynnwys: gwasanaeth broceriaeth sgiliau i fusnesau, ymgysylltu ag ysgolion, mynediad i brentisiaethau ac interniaethau i raddedigion, a hefyd cymorth a chymhellion ychwanegol i BBaChau, er mwyn cynyddu nifer ac ystod y cyfleoedd cyflogaeth a gwell aliniad rhwng sgiliau'r farchnad lafur a'r sgiliau mae ar ddiwydiant eu hangen.

Gwnaeth y Comisiwn Twf a Chystadleuaeth argymhellion y gallai'r Bartneriaeth Dysgu, Medrau ac Arloesi a elwir LSKIP (yr ydym yn aelod ohoni) o dan ymbarél y Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau arfaethedig, edrych ar gydgyssylltu'r ffrydiau cyllido presennol er mwyn buddsoddi mewn sgiliau sy'n cynorthwyo pobl o bob oed i gael gwaith. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod angen uwchsgilio gweithluoedd sy'n bodoli eisoes fel y caiff gweithwyr heddiw eu cynnwys wrth ddiogelu'r economi at y dyfodol. Mae Sefydliad Bevan, Sefydliad Joseph Rowntree a'r Comisiwn Twf a Chystadleuaeth i gyd yn nodi y gallai dull targededig o roi cyngor gyrfaedd hefyd helpu i leihau tlodi – yr amcangyfrifir ei fod yn costio £2.2 biliwn y flwyddyn i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae hyn yn gyfle cyffrous i wneud newidiadau eang i ansawdd bywyd pobl sy'n byw, astudio a gweithio yn y rhanbarth.

Sut ddefnyddiasom y '5 ffordd o weithio' i bennu'r Amcan Llesiant hwn?

Cynnwys – Mae'r rheiny sy'n ymwneud â'r gwaith o gyflawni'r amcan hwn yn niferus ac yn amrywiol, o'n contractwyr SATC, i'r Canolfannau Gwaith a'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n atgyfeirio pobl atom i gael ein 'gwasanaeth brysbennu' fel y gallwn ddod o hyd i'r rhaglen cymorth orau. Mae gennym Fforwm Addysg a Hyfforddiant a grŵp llywio Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n cyfarfod yn rheolaidd i ddod â'r holl bartneriaid allweddol ynghyd. Un maes i'w ddatblygu wrth gyflawni ein hamcanion fyddai galluogi mwy o ymwneud yn y sector preifat i ddiwallu ei anghenion er mwyn helpu pobl i gael swyddi cynaliadwy.

Hirdymor - Mae'r amcan dros 4-5 mlynedd ond mae'n amlwg bod buddion gwella sgiliau pobl a'u galluogi i gael swyddi cynaliadwy sy'n talu'n dda yn gysylltiedig â gwella ansawdd bywyd a chodi pobl allan o dlodi. Mae hyn yn dechrau gydag addysg megis llythrennedd a rhifedd ac yn symud ymlaen trwy amrywiaeth o brofiadau a sgiliau er mwyn dod yn barod ar gyfer gwaith. Un maes sy'n creu rhwystr i gynllunio ar gyfer y tymor hir yw cylch cyllid grant, sy'n flynyddol. Mae hyn yn golygu y gall fod yn aneglur a fydd y cyllid ar gael ar ôl y cyfnod hwnnw ac yn aml mae angen i ddysgu a hyfforddi ddigwydd dros gyfnod hirach (2-3 blynedd). Byddai newidiadau i gyfnodau cyllid y llywodraeth yn ei gwneud yn bosibl cynllunio'n well er mwyn cynorthwyo â'r ffordd hon o weithio.

Cydweithredu - Ni ellir cyflawni'r amcan hwn ar wahân gan ei fod yn ymdrin â chymhlethdod y natur ddynol, ansawdd bywyd a phenderfyniadau economaidd ehangach yn genedlaethol ac yn lleol. Mae'r Fargen Ddinesig yn rhaglen aml-bartneriaethol sydd ag is-grŵp dysgu a sgiliau sydd â'r nod o sicrhau bod y rhaglenni cyflogaeth bresennol leol yn cysylltu â'r anghenion ehangach a gydnabyddir fel 'meysydd twf' ym myd busnes. Mewn geiriau eraill, os oes twf yn yr economi, er

enghraifft mewn gwasanaethau ariannol, yna mae angen i'r sgiliau a'r hyfforddiant gydnabod ac adlewyrchu hyn fel eu bod yn alinio. Ni ellir cyflawni camau gweithredu adfywio ar wahân, mae'r amcan hwn wedi'i seilio ar egwyddor cydweithredu.

Integreiddio – Wrth nodi'r amcan hwn rydym wedi ystyried sut y byddai hyn yn cefnogi amcanion sefydliadau eraill a chanfuom fod budd sylweddol i amcanion sefydliadau eraill, megis y Canolfannau Gwaith a'r Adran Gwaith a Phensiynau, sydd â'r nod o alluogi pobl i gael gwaith. Yn lleol os oes mwy o arian yn mynd i mewn i'r economi mae hyn yn cefnogi busnesau lleol. O safbwynt iechyd dangoswyd bod swydd foddhaol a chyfraniad at y gymdeithas yn dod â buddion cadarnhaol wrth wella a chynnal iechyd meddwl da a all leihau'r angen am wasanaethau iechyd meddwl.

Atal – Mae natur gymhleth y broblem rydym yn ceisio ei datrys yn galw am ymagwedd hirdymor ac aml-bartneriaethol, o helpu pobl ifanc yn y blynyddoedd cynnar i gyrhaeddiad addysgol a sgiliau i oedolion megis sgiliau digidol, defnyddio ein pŵer prynu a'n contractau busnes i hybu prentisiaethau, deall problemau cynllunio ar lefel tref a bwrdeistref sirol i symbylu twf busnesau, a sicrhau ein bod yn cydgysylltu â rhaglenni perthnasol fel Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Nod y Gronfa Buddsoddi Tai bosibl o dan y Fargen Ddinesig, er enghraifft, yw symbylu'r sector BBaChau trwy ddarparu cyllid benthyciadau datblygu a chynllun Tai Pwrpasol i ryddhau plotiau llai o dir y sector cyhoeddus. Gall hyn ddiogelu swyddi a chreu rhai newydd trwy godi lefel y gwariant ar draws y sector adeiladu. Mae hefyd yn creu cysylltiadau trwy gefnogi BBaChau trwy dai o ansawdd da a'r gallu i ddenu gweithwyr medrus fel ein bod yn cysylltu'r hyn a wnawn â'r hyn y mae ei angen i wneud yn fawr o'r agendâu trawsnewidiol hyn.

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn?

Bydd yna gynllun gweithredu manwl i gynorthwyo â'r gwaith o gyflawni'r amcan hwn dros y 4-5 mlynedd nesaf. Yn y cyfamser rydym yn nodi isod rai o'r prif gamau gweithredu y byddwn yn eu cymryd dros y cyfnod hwn:

Canlyniadau	Erbyn pryd (2018-2023)
1: Anelu at leihau effaith tlodi trwy gynorthwyo pobl i sicrhau gwell rhagolygon cyflogaeth 2. Cyrraedd targedau rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop o sicrhau bod pobl yn meithrin sgiliau ac yn cael gwaith	
Datblygu rhaglen Cymunedau yn Waith a Chymunedau am Waith a Mwy er mwyn cyrraedd targedau cyflogaeth gynaliadwy.	2018-2019
Datblygu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strategaeth Sylfaen ar gyfer Llwyddiant a fydd yn nodi camau gweithredu o brosiectau bach i raglenni mawr cymhleth.	2018-2023
Datblygu (ar ôl ymgynghori) Uwchgynllun Basn Caerffili.	2018-2023
3: Bydd y Cyngor yn defnyddio gwerth ei wariant trydydd parti i ddod â mwy o adfywiad cymdeithasol ac economaidd i'r cymunedau a wasanaethwn	
Datblygu Rhaglen Caffael y Cyngor.	2018
Datblygu canllawiau priodol i gynorthwyo cyflenwyr i nodi buddion cymdeithasol ac economaidd.	2018/19
Datblygu mecanwaith effeithiol i gofnodi adfywio cymdeithasol ac economaidd.	2019
4. Defnyddio buddsoddiad yn y stoc tai i gynyddu nifer y gweithwyr medrus a chymwysedig a mynd i'r afael â bod yn ddi-waith trwy ddarparu prentisiaethau, hyfforddiant a lleoliadau gwaith	

Canlyniadau	Erbyn pryd (2018-2023)
gyda'n gweithlu mewnol a chontractwyr adeiladu	
- Creu prentisiaethau a lleoliadau gwaith yn y tîm Gweithrediadau Atgyweirio Tai gyda chysylltiad â gwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth a bwlch sgiliau - Creu prentisiaethau, cyfleoedd cyflogaeth a lleoliadau gwaith fel rhan o raglen buddsoddi SATC	Bob blwyddyn yn rheolaidd o 2017 ymlaen
5. Sicrhau bod cyflawni rhaglenni gwaith yn lleol yn alinio ac yn cael y cyfleoedd mwyaf posibl o'r Fargen Ddinesig.	
Cytuno ar egwyddor a) Creu Cronfa Buddsoddi Tai ranbarthol a fydd yn helpu i gefnogi gwaith i'r sector adeiladu bach a chanolig. b) Cynllun Tai Pwrpasol, Siop Plotiau. Ar ôl cytuno ar egwyddorion byddai achosion busnes llawn a threfniadau llywodraethu'n cael eu rhoi ar waith.	2018-19
Cytuno fel rhan o bartneriaeth Borgen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar ddyrannu cyllid datblygu i dreialu amrywiaeth o gynigion ar gyfer y gronfa 'Sgiliau ar gyfer y Dyfodol'.	2018

Pam rydyn ni'n barnu y bydd ein Hamcan Llesiant yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gennym ni at y Nodau Llesiant cenedlaethol

Mae **Cymru lewyrchus** yn datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig. Mae arnom angen i'n pobl ifanc ac oedolion feddu ar fwy o sgiliau galwedigaethol neu analwedigaethol er mwyn cael swyddi sy'n talu'n well a mwy o foddhad swydd sy'n cyfrannu at y gymuned gan arwain at well ansawdd bywyd. Mae hyn yn cysylltu â'n hamcan ar drafnidiaeth a mynediad. Rhan bwysig o gyflogaeth yw seilwaith a chysylltiadau trafnidiaeth da i ddarparu mynediad haws i swyddi cynaliadwy sy'n talu'n dda. Nod y gwaith hwn yw helpu'r holl bobl ifanc (ac oedolion) i gyflawni eu potensial ac felly mae'n sylfaen i **Gymru sy'n fwy cyfartal** a **Chymru iachach**. Mae cyflogaeth yn lleol ac fel rhan o'r cynlluniau ranbarthol trwy amrywiaeth fawr o gymorth yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at **Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**.

Mae llwyddiant gyda'r nod hwn yn hanfodol i gefnogi amrywiaeth o gyrff cyhoeddus eraill. Er enghraifft, mae gan yr Adran Gwaith a Phensiynau bum amcan, a dau ohonynt yw'r canlynol:

1. Cefnogi twf economaidd a chynhyrchiant gwell trwy sicrhau bod gwaith yn talu bob amser ac y caiff pobl eu cynorthwyo i ddod o hyd i waith a gwneud cynnydd ynddo
2. Helpu i leihau'r anfanteision mae pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn eu hwynebu trwy'r system les a'r farchnad lafur.

Mae hyn wedi'i alinio â'n Strategaeth Adfywio ninnau a nodau'r Fargen Ddinesig.

Sut y byddwn ni'n sicrhau adnoddau i'r Amcan Llesiant hwn

- ✚ £755,058 yw grant Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer Addysg Oedolion ar hyn o bryd, hyd at fis Ebrill 2019, a cheir arian cyfatebol trwy grant uniongyrchol Llywodraeth Cymru i wella'r sefyllfa o ran pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- ✚ Grant Cronfa Gymdeithasol Ewrop, £344,216 ar hyn o bryd hyd at fis Ebrill 2020. Ceir arian cyfatebol trwy grant uniongyrchol Llywodraeth Cymru i wella sgiliau'r gweithlu sydd mewn swyddi sgiliau isel a chyflogau isel ledled Caerffili.

- Mae cyllido Cymunedau am Waith (CCE), gwerth £1,298.672, wedi'i ymestyn i fis Mawrth 2023 ac mae Cymunedau i Waith a Mwy, sydd ar hyn o bryd ar £856,754 i Ebrill 2018-2019 wedi'i ymestyn i fis Mawrth 2020 gydag estyniad cyllid o £733,873. (Cyfanswm 2018-2020 o £1,556,289).
- Cymunedau am Waith a Mwy, £856,754 ar hyn o bryd hyd at fis Ebrill 2018-2019. (Ymrwymiad Llywodraeth Cymru hyd at fis Ebrill 2020).
- Mae Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn rhaglen werth £1.2 biliwn sydd ag amrywiaeth o ddryniadau at y gwahanol brosiectau posibl. Mae gan brosiect Sgiliau ar gyfer y Dyfodol ddryniad datblygu amodol o £2,247, 882 os cytunir arno mewn egwyddor.

Pryd gaiff yr amcan ei gwblhau?

Bydd yr amcan hwn yn barhaus fel rhan o ddull partneriaethol i'r fwrdeistref sirol gyfan. Mae llawer o'r camau gweithredu adfywio ehangach wedi'u seilio ar brosiectau sy'n cael eu barnu ar hyn o bryd ar sail cyrraedd cerrig milltir a bydd angen gwerthuso eu heffeithiolrwydd. Fodd bynnag, byddwn yn barnu y bu llwyddiant:

- pan fydd bron yr holl ddisgyblion mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- pan fyddwn wedi cyrraedd neu ragori ar y targedau cyflogadwyedd (fel y'u rhoddir ar gyfer rhaglenni Pontydd i Waith ac Ysbrydoli yn yr Amcan Addysg).
- pan fyddwn wedi cyrraedd neu ragori ar y targedau cyflogadwyedd ar gyfer y rhaglen Cymunedau am Waith.

Canlyniad	Mesuriad
1 a 2	Blaenoriaeth 1 (Oedolion 25 oed a hŷn) Targed 2018/19 Ymgysylltiadau 240 , Nifer yn dechrau swydd 24
1 a 2	Blaenoriaeth 1 (Oedolion 25 oed a hŷn) Targed ar gyfer 2019/2020 Ymgysylltiadau 240 , Nifer yn dechrau swydd 48
1 a 2	Blaenoriaeth 3 (Pobl ifanc/NEETS 16-24 oed) Targed 2018/2019 Ymgysylltiadau 96 , Nifer yn dechrau swydd 96
	Blaenoriaeth 3 (Pobl ifanc/NEETS 16-24 oed) Targed 2019/2020 Ymgysylltiadau 48 , Nifer yn dechrau swydd 48
1 a 2	Cyflawnir neu ragorir ar nodau cyflogadwyedd ar gyfer rhaglen newydd Cymunedau am Waith a Mwy (nid yw'r targedau eu hunain wedi'u cadarnhau eto)
3	Byddwn yn datblygu Mesuriadau Perfformiad newydd fel rhan o'n 'Rhaglen ar gyfer Caffael' sy'n datblygu
4	Nifer y prentisiaethau, lleoliadau gwaith a chyfleoedd cyflogaeth a ddarperir
4	SATC – nifer y prentisiaethau, lleoliadau gwaith a chyfleoedd cyflogaeth a ddarperir
5	Mae gan y rhaglen Cefnogi Pobl 11 mesuriad canlyniad; mae un yn ymwneud â phobl sydd wedi bod yn gwneud gwaith cyflogedig neu waith gwirfoddol – adroddir ar y rhain ddwywaith y flwyddyn i Lywodraeth Cymru

I roi cyd-destun byddwn hefyd yn adolygu'r Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru isod fel rhan o'r amcan cyffredinol hwn:

Dangosyddion Llesiant cyffredinol-	Ffynhonnell y Data
Canran y bobl sydd mewn cyflogaeth	Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
Canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran	Mesuriadau Cyfranogiad Llywodraeth Cymru
Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol	Arolwg Cenedlaethol Cymru
Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn tlodi incwm o gymharu â chymedr y Deyrnas Unedig, wedi'i mesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn.	Adran Gwaith a Phensiynau

Gwybodaeth berthnasol arall

Sefydlwyd 'Tasglu'r Cymoedd' gan Lywodraeth Cymru i edrych ar sut y caiff buddsoddiad yn y Cymoedd ei gyflawni dros y pum mlynedd nesaf. Yn benodol bydd y Tasglu'n ymdrin â'r ansicrwydd ynghylch cyllid buddsoddi, megis y cyllid a gafwyd o'r blaen oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd. Bydd y Tasglu'n cydweithio'n agos â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i harneisio potensial mentrau newydd megis y Metro, ac i wella tirwedd unigryw ac amrywiol y Cymoedd fel cyrchfan i dwristiaid.

Prif flaenoriaethau Tasglu'r Cymoedd fydd: dileu tlodi a chreu gwaith a gwella ansawdd bywyd. Gan edrych at y dyfodol bydd y Tasglu'n ceisio creu ymdeimlad o uchelgais, bywiogrwydd a hyder yn y dyfodol.

Gan hynny sefydlwyd cynllun lefel uchel, 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol' sy'n cael ei gefnogi gan fuddsoddiad oddi wrth Lywodraeth Cymru gwerth £100 miliwn dros 10 mlynedd. Gweledigaeth Tasglu'r Cymoedd yw cau'r bwlch cyflogaeth rhwng Cymoedd y De a gweddill Cymru trwy helpu 7,000 o bobl ychwanegol i gael gwaith.



3. Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi ledled y fwrdeistref sirol a darparu cyngor, cymorth neu gefnogaeth er mwyn helpu i wella llesiant pobl.

Canlyniadau

- 1a). Mae'r holl dai cyngor wedi'u gwella i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020.
 - 1b). Gweithredu strategaeth rheoli asedau i gynnal cyflwr y stoc dai yn dilyn cyrhaeddiad WHQS (Rhagfyr 2020).
 2. Cynyddu'r ddarpariaeth tai cymdeithasol fforddiadwy newydd sy'n bodloni egwyddorion 'Cartrefi Gydol Oes' ac yn diwallu anghenion dynodedig, ac ar yr un pryd cefnogi rhaglen tai arloesol y llywodraeth.
 3. Darparu addasiadau i gynorthwyo ag iechyd a lles pobl yn eu cartrefi eu hunain a sicrhau y caiff cartrefi hygyrch eu cyflenwi a'u defnyddio'n briodol i'r graddau mwyaf posibl.
 4. Cynyddu'r cyflenwad tai trwy gefnogi cyfleoedd i aildefnyddio cartrefi yn y sector preifat sy'n wag ers amser hir.
 5. Mynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd a lles gwael trwy wella amodau tai yn y sector preifat.
 6. Atal digartrefedd a mynd i'r afael â chysgu allan.
 7. Cynnal tenantiaethau trwy ddarparu ystod o wasanaethau cysylltiedig â thai.
 8. Helpu i leihau tlodi tanwydd trwy wneud cartrefi'n fwy ynni effeithlon a rhoi cyngor i bobl ar y ffyrdd gorau i wresogi eu cartrefi.
-

3. Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi ledled y fwrdeistref sirol a darparu cyngor, cymorth neu gefnogaeth er mwyn helpu i wella llesiant pobl.

Datganiad Llesiant

Cafwyd yr holl wybodaeth ystadegol yn y paragraff hwn o Info Base Cymru ac mae'n ymwneud â bwrdeistref sirol Caerffili, oni nodir fel arall. Mae 78,714 o anheddau yn y fwrdeistref sirol (Mawrth 2016) – 13.8% awdurdod lleol, 4.9% cymdeithas tai, 71.1% perchen-feddiannwr a 10.3% rhentu preifat. Mae 36% yn dai teras, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae prisiau tai cyfartalog wedi codi £9,506 ers mis Medi 2016 i £130,651 ym mis Medi 2017. £488.80 yw'r cyflog gros wythnosol cyfartalog ar gyfer gweithwyr amser llawn, sy'n is na chyfartaledd Cymru gyfan, sef £505.90. 17.3% yw canran y bobl o oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 14.4%. Mae disgwyliad oes i wrywod (77.8) a benywod (81.2) yn is na chyfartaledd Cymru gyfan (gwrywod 78.4 a benywod 82.3). Yn 2016, roedd 10.0 marwolaeth am bob 1,000 o breswylwyr, o gymharu â 10.6 i Gymru gyfan. 16% oedd canran yr oedolion y nodwyd yn Arolwg Iechyd Cymru eu bod yn cael eu trin ar y pryd am salwch meddwl, o gymharu â 13% i Gymru gyfan.

Mae'r problemau yr ydym yn ceisio mynd i'r afael â hwy trwy'r amcan hwn yn gymhleth ac yn amlochrog ac ni ellir ymdrin â hwy trwy un cam gweithredu yn unig. Yn yr adran nesaf rydym yn nodi, pob un yn ei dro, pam yr ydym wedi dewis pob canlyniad i gyflawni'r amcan:

1. Mae holl dai'r cyngor yn cael eu gwella i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) erbyn 2020 ac 1b) Gweithredu strategaeth rheoli asedau i gynnal cyflwr y stoc dai yn dilyn cyrraedd WHQS (Rhagfyr 2020)

Mae ymchwil wedi dangos yn gyson bod cysylltiad cryf rhwng tai, iechyd a lles. Bydd buddsoddi yn y stoc tai yn caniatáu i'r Cyngor gyfrannu at iechyd a lles y tenantiaid, ac ar yr un pryd cyflawni'r gofynion statudol sydd arno. Mae gan y Cyngor stoc tai o 10,805 o anheddau ac ynddynt tua 13,000 o denantiaid ac mae'n buddsoddi tua £220 miliwn mewn codi'r holl gartrefi i Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020. Bydd y buddsoddiad yn y stoc yn cyfrannu at ein nod o wella cartrefi, bywydau a chymunedau.

2. Cynyddu'r ddarpariaeth tai cymdeithasol fforddiadwy newydd i ddiwallu anghenion dynodedig, ac ar yr un pryd cefnogi rhaglen tai arloesol y llywodraeth

Dangosodd ein hasesiad diweddaraf o'r farchnad dai (2015) y galw am dai fforddiadwy yn y fwrdeistref sirol yn ôl math a maint yr eiddo, a'r ardal. Dangosodd fod y galw mwyaf o bell ffordd am lety anghenion cyffredinol i bobl sengl. Ar hyn o bryd mae mwy na 5,000 o aelwydydd ar y gofrestr tai cyffredin yn aros i gael eu hailgartrefu. Ar hyn o bryd mae'r galw am dai fforddiadwy'n fwy na'r cyflenwad. Mae cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru'n caniatáu inni ddiwallu anghenion dynodedig yn rhannol, mewn partneriaeth â'r cymdeithasau tai, trwy'r rhaglen datblygu tai. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr angen i gynyddu nifer y tai fforddiadwy sy'n cael eu hadeiladu yng Nghymru i ddiwallu anghenion tai ac mae ganddi darged o 20,000 dros ei chyfnod mewn grym. Mae wedi neilltuo cyllid o dan y rhaglen tai arloesol i ddatblygu cartrefi ar gyfer y dyfodol sy'n rhatach i'w gwresogi, yn fwy eco cyfeillgar ac yn gallu ymateb i newidiadau demograffig.

Mae'r cyllid yn caniatáu i adeiladwyr tai, cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol ymchwilio i ffyrdd newydd o weithio er mwyn adeiladu cartrefi'n gynt ac yn fwy cynaliadwy. Hyd yma, mae dwy

gymdeithas tai wedi cael cyllid tai arloesol i ddatblygu un cynllun yr un yn y fwrdeistref sirol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu cyllid o dan y model Rhanberchenogaeth / Rhentu i Brynu yn ogystal â'r model Iechyd a Thai, sydd wedi'i fwriadu i ddiwallu anghenion pobl hŷn, plant ag anghenion cymhleth, gofalwyr, pobl ag anawsterau dysgu a phobl â dementia.

Mae Cartrefi Gydol Oes yn set o safonau y mae Llywodraeth Cymru'n gofyn amdanynt pan gaiff cartrefi eu hadeiladu. Maent wedi'u cynllunio yn unol ag egwyddorion cynwysoldeb, hygyrchedd, y gallu i gael eu haddasu, cynaliadwyedd a gwerth da am arian. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, drysau lletach, socedi ar uchder cadair olwyn a sylw penodol i'r ffordd y byddai pobl yn symud mewn cynteddau ac ar risiau. Mae wedi'i seilio ar egwyddor 'o'r crud i'r bedd' fel y gellir addasu cartrefi i ddarparu ar gyfer anghenion sy'n newid gan olygu nad oes rhaid symud pobl pan fo newidiadau mewn bywyd.

Yn y tymor hirach mae Cyd-gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn edrych ar gytuno ar set o egwyddorion ar gyfer 'Cronfa Buddsoddi Tai Rhanbarthol' bosibl. Mae'r Cyd-gabinet yn cydnabod bod arnom angen i fwy o gartrefi gael eu hadeiladu ar draws y rhanbarth ac y gall cyllid fod yn rhwystr yn arbennig i adeiladwyr bach a chanolig. Gallai cronfa hyblyg gynorthwyo adeiladwyr gyda phethau fel safleoedd codi tai sydd wedi mynd i gors a chyllido datblygu safleoedd tir llwyd, gan y gallai hyn helpu i wneud gwaith adeiladu'n fwy hyfyw.

Os cytunir ar egwyddorion 'cronfa hyblyg', byddai'r Cyd-gabinet yn ymchwilio i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru ar ffyrdd o fwrw ymlaen â 'Chronfa Buddsoddi Tai'. Fel syniad newydd a dyhead ar gyfer y tymor hir gallai hyn ddwyn ffrwyth y tu allan i amserlen y cynllun hwn. Fodd bynnag, gan fabwysiadu ymagwedd sy'n meddwl mwy am y dyfodol, rydym yn cydnabod pŵer yr ymagwedd ranbarthol hon wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r canlyniad hwn.

3. Darparu addasiadau i gynorthwyo ag iechyd a lles pobl yn eu cartrefi eu hunain a sicrhau y caiff cartrefi hygyrch eu cyflenwi a'u defnyddio'n briodol i'r graddau mwyaf posibl

Darperir addasiadau i alluogi person anabl i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn ei gartref ei hun. Mae cartref addas hefyd yn hybu iechyd a lles da. Gall darparu addasiadau leihau costau sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol a gofal iechyd. Mae diwallu anghenion pobl anabl yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae amcangyfrifon Llywodraeth Cymru'n dangos, am bob £1 sy'n cael ei gwario ar addasiadau i dai, caiff £7.50 ei arbed i'r gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae diffyg tai addas yn y fwrdeistref sirol i ddiwallu anghenion pobl anabl ac, o ganlyniad, mae'n bosibl bod pobl anabl yn byw mewn cartrefi anaddas.

Mae tai hygyrch yn cyfrannu at iechyd a lles y person anabl a'i ofalwyr ac yn hybu annibyniaeth. Gallant hefyd leihau costau sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol, er enghraifft trwy addasiadau amserol i dai a all leihau derbyniadau i ofal preswyl. Mae tai hygyrch yn cael eu creu nid yn unig mewn datblygiadau tai newydd, ond hefyd o ganlyniad i fuddsoddiad sylweddol mewn addasiadau i gartrefi sy'n bodoli eisoes ar draws yr holl fathau o ddeiliadaeth er mwyn sicrhau y caiff y cartrefi hyn eu defnyddio yn y modd gorau i'r rheiny sydd mewn angen.

4. Cynyddu'r cyflenwad tai trwy gefnogi cyfleoedd i ailddefnyddio cartrefi yn y sector preifat sy'n wag ers amser hir

Mae mwy na 900 o gartrefi dan berchnogaeth breifat yn y fwrdeistref sirol sy'n wag ers mwy na 6 mis, a hynny am amrywiaeth o resymau. Er y bydd marchnad dai iach sy'n gweithredu'n dda yn cynnwys cyfran o anheddau gwag, mae cartrefi gwag yn adnodd sy'n cael ei wastraffu i'r

perchennog ac i aelwydydd sy'n chwilio am dai. Os cânt eu gadael yn wag a heb eu cynnal a'u cadw, gall y cyflwr ffisegol waethgu a gall yr eiddo ddod yn niwsans i bobl sy'n byw yn yr ardal. Gall sicrhau bod cartrefi sy'n wag ers amser hir yn cael eu defnyddio eto gynyddu'r cyflenwad tai a gwella golwg ardal. Mae gan Lywodraeth Cymru darged o sicrhau bod 5,000 o gartrefi sy'n wag ers amser hir yn y sector preifat yn cael eu defnyddio'n fuddiol eto yn ystod ei chyfnod presennol mewn grym.

5. Mynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd a lles gwael trwy wella amodau tai yn y sector preifat.

Mae bron i 70% o'r holl dai yn y fwrdeistref sirol yn berchen-feddianwyr ac mae maint y sector rhentu preifat yn y fwrdeistref sirol wedi dyblu rhwng y ddau Gyfrifiad diwethaf (o 4.3% i 10.7%). Mae'r sector yn darparu cartrefi i lawer o bobl a rhagwelir y bydd yn fwy na'r sector rhentu cymdeithasol erbyn 2020. Mae cyflwr y tai ac ansawdd y rheoli yn y sector yn amrywio'n sylweddol. Ymdrinnir â hyn trwy gyflwyno deddfwriaeth newydd, Rhentu Doeth Cymru a swyddogaeth gorfodi statudol y Cyngor. Mae datblygu sector rhentu preifat bywiog yn darparu opsiynau i ddiwallu anghenion pobl o ran tai ac yn cyfrannu at gyflawni swyddogaeth atal ddigartrefedd y Cyngor yn llwyddiannus. Mae tai o ansawdd da hefyd yn cyfrannu at iechyd a lles da. Mae math ac ansawdd y tai yn y sector yn amrywio o dai teras traddodiadol i ddatblygiadau preifat newydd. Nid oes gan lawer o aelwydydd incwm digonol i gynnal eu cartref pan fydd yn adfeilio a gallai fod yn byw mewn amodau, sy'n niweidiol i'w diogelwch, eu hiechyd a'u lles. Gall tai sydd mewn cyflwr gwael hefyd gael effaith weledol a gwrthgymdeithasol negyddol ar gymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt. Mae angen mesurau cymorth amrywiol i ddarparu opsiynau fforddiadwy i berchnogion ar gyfer gwella eu heiddo.

6. Atal digartrefedd a mynd i'r afael â chysgu allan

Mae digartrefedd yn niweidiol i iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Gall bod yn ddigartref gynyddu'r tebygrwydd y bydd rhywun yn cymryd cyffuriau neu'n cael problemau iechyd corfforol neu iechyd meddwl. Newidiodd y gyfraith ar ddigartrefedd ym mis Ebrill 2015 gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu ymagwedd fwy ataliol. Ers y newid hwn mae nifer y bobl yn y fwrdeistref sirol mae arnynt angen cymorth â'u sefyllfa o ran ddigartrefedd neu y gwyddys eu bod yn cysgu allan wedi cynyddu, er gwaethaf y gwasanaethau ychwanegol yr ydym wedi'u rhoi ar waith. Bydd lleddfu digartrefedd a'r angen i gysgu allan yn lleihau costau i'r Cyngor, y system cyfiawnder troseddol a'r gwasanaeth iechyd.

7. Cynnal tenantiaethau trwy ddarparu ystod o wasanaethau cysylltiedig â thai.

Mae ymchwil wedi dangos bod nifer yr achosion o iechyd meddwl gwael yn uwch ymysg tenantiaid tai cymdeithasol nag ymysg perchnogion tai. Mae landlordiaid cymdeithasol yn y fwrdeistref sirol wedi nodi nifer gynyddol o denantiaid newydd â chyflwr iechyd meddwl mae arnynt angen cymorth i gynnal eu tenantiaeth. Gall darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai helpu i hybu iechyd a lles, ac atal y denantiaeth rhag methu, a allai arwain at ddigartrefedd neu dderbyniad i ysbyty. Gallai hyn leihau costau sy'n gysylltiedig ag eiddo gwag, digartrefedd, gofal cymdeithasol a gofal iechyd.

Achosodd y Ddeddf Diwygio Lles 2012 ddiwygiad ar raddfa fawr i'r system budd-daliadau. Mae'r diwygiadau'n cynnwys capio swm y budd-daliadau y caiff aelwydydd eu cael, y 'dreth ystafell wely' bondigrybwyll sy'n effeithio ar denantiaid tai cymdeithasol, a Chredyd Cynhwysol, sy'n cyfuno nifer o fudd-daliadau i un taliad, a delir yn fisol. Effaith y diwygiadau yw bod incwm llawer o aelwydydd wedi gostwng a gallant fod yn cael trafferth i dalu biliau, bwyta'n iach neu wresogi eu cartrefi'n

ddigonol. Mae canran fawr iawn o denantiaid tai cyngor yn dibynnu ar fudd-daliadau ac wedi gweld effaith y newidiadau. Bydd darparu cymorth i denantiaid er mwyn lleddfu'r effaith trwy helpu i sicrhau'r incwm mwyaf posibl a chyllidebu'n effeithiol yn helpu i gynnal tenantiaethau ac yn cyfrannu at iechyd a lles y bobl mae'r diwygiadau'n effeithio arnynt. Ar hyn o bryd mae rhaglen Cefnogi Pobl yn cynorthwyo tua 5000 o bobl i'w helpu i aros yn annibynnol ac yn eu cartrefi eu hunain gyda chymorth mewn amrywiaeth o feysydd megis cyllidebu, sicrhau'r incwm mwyaf posibl, mynediad at wasanaethau a dod o hyd i waith.

8. Helpu i leihau tlodi tanwydd trwy wneud cartrefi'n fwy ynni effeithlon a rhoi cyngor i bobl ar y ffyrdd gorau i wresogi eu cartrefi

Mae tlodi tanwydd yn effeithio ar bobl sydd ar incwm isel na allant fforddio gwresogi eu cartrefi'n ddigonol. Bydd pobl sydd mewn tlodi tanwydd yn fwy agored i iechyd a lles gwael. Mae codiadau yng nghost ynni'n golygu y bydd mwy o bobl mewn perygl o dlodi tanwydd. Mae llawer o aelwydydd yn y fwrdeistref sirol ar incwm isel ac o bosibl yn cael trafferth i wresogi eu cartrefi'n ddigonol. Gall rhoi cyngor i bobl ar y ffordd orau o wresogi eu cartrefi, gwneud cartrefi'n fwy ynni effeithlon, gan gynnwys datblygu cartrefi ynni effeithlon newydd, a defnyddio technolegau newydd helpu i ostwng lefel gyffredinol tlodi tanwydd yn y fwrdeistref sirol.

Sut ddefnyddiasom y '5 ffordd o weithio' i bennu'r amcan Llesiant hwn

Cynnwys – O gofio bod amrywiaeth o ganlyniadau wedi'u cynnwys yn yr amcan hwn, mae'n debyg y bydd grwpiau gwahanol yn gysylltiedig â chanlyniadau gwahanol. Er mwyn sicrhau y bydd y canlyniadau'n llwyddiannus byddwn yn cynnwys amrywiaeth fawr o bobl gan gynnwys perchnogion tai, tenantiaid y sector rhentu preifat a'r cyngor, cymdeithasau tenantiaid a phreswylwyr, Tasglu Cartrefi Caerffili, landlordiaid y sector preifat, cyrff yn y sector cyhoeddus, cymdeithasau tai a sefydliadau yn y trydydd sector. Mae rhaglen Cefnogi Pobl yn comisiynu mwy na 36 o ddarparwyr (megis Gofal, GAVO a Llamau) ac yn rhedeg tua 86 o brosiectau a chynlluniau. Mae hyn yn cynnwys llawer o bartneriaid yn y gwaith o helpu pobl sydd ag amrywiaeth fawr o anghenion.

Cydweithredu - Er mwyn hwyluso canlyniadau llwyddiannus, byddwn yn cydweithredu ag amrywiaeth o wahanol sefydliadau a phobl. Mae'r rhain yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Rhentu Doeth Cymru, yn fewnol ag adrannau eraill, yn rhanbarthol ag awdurdodau lleol eraill, contractwyr adeiladu, cymdeithasau tai, sefydliadau yn y trydydd sector, eglwysi lleol, landlordiaid yn y sector preifat, perchnogion eiddo gwag ac undebau credyd. Rydym yn cydnabod bod y cyfyngiadau ar gyllid y sector cyhoeddus yn golygu y bydd hwn yn faes lle byddwn eisieu gwneud mwy i rannu adnoddau a chyflawni cydamcanion. Er enghraifft, rydym yn comisiynu'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth i helpu pobl i fagu hyder wrth drin arian, sy'n cynorthwyo ag ansawdd eu bywydau yn y tymor hir ac yn cydnabod yr elfen atal yn fuan wrth reoli dyledion.

Hirdymor – Angen cymdeithasol hirdymor yw tai ac felly mae'r tai a'r gwasanaethau a ddarparwn yn cael eu gosod yn y cyd-destun hwn. Bydd y canlyniadau rydym yn ceisio eu cyflawni yn y tymor byr i ganolig yn sicrhau bod tai'n gynaliadwy (cost, maint, ansawdd, cyflwr ac addasrwydd) i bobl fyw ynddynt dros y tymor hirach, ac ar yr un pryd yn lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd cymaint ag sy'n bosibl ac yn cyfrannu at iechyd a lles ein cymunedau. Mae'n bosibl y bydd cymorth ag atebion yn y tymor hirach yn dod yn rhannol o'r Fargen Ddinesig ac yn benodol y 'Gronfa Buddsoddi Tai' bosibl.

Integreiddio – O gofio bod darparu tai o ansawdd da’n ganolog i iechyd a lles da’r boblogaeth, mae’n debyg y bydd yr amcan hwn yn effeithio ar gyflawni amcanion cyrff eraill yn llwyddiannus. Felly mae’n debyg y bydd darparu tai o ansawdd da yn cael effaith gadarnhaol ar gyllidebau a blaenoriaethau cyrff cyhoeddus eraill megis y bwrdd iechyd lleol.

Atal – Mae atal pobl rhag bod yn ddigartref trwy ddarparu mynediad at lety a gwasanaethau cysylltiedig o ansawdd da, gan greu cymunedau sy’n gynaliadwy ac yn gydnerth, i gyd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles. Bydd y rhan o'r amcan sy’n canolbwyntio ar wella cartrefi (SATC) hefyd yn helpu i fynd i’r afael â diweithdra lleol a rhoddir manylion amdani yn ein Hamcan Cyflogaeth. Mae Cartrefi Gydol Oes yn mabwysiadu ymagwedd ‘o’r crud i’r bedd’ at gynllunio cartrefi, ac felly yn enghraifft o ‘gampau atal ar waith’.

Gall y nod o wella bywydau a chymunedau gyda gwell golwg ar yr amgylchedd a gwell naws iddo helpu i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol pan fo gan bobl falchder yn y man lle maent yn byw. Mae darparu llety arbenigol ac addasiadau i bobl anabl yn cysylltu’n agos ag agenda atal gwasanaethau iechyd trwy leihau’r angen am dderbyniadau i ysbytai / lleoliadau gofal preswyl.

Rydym yn rhedeg rhaglen ‘Cefnogi Pobl’ a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ac a gyflwynwyd yn 2003. Mae’r gwasanaeth hwn yn cynorthwyo pawb er mwyn atal digartrefedd ac yn darparu amrywiaeth fawr o gymorth sy’n gysylltiedig â thai i unrhyw un sy’n ddigartref neu a allai ddod yn ddigartref. Mae pob gwasanaeth a gynigir wedi’i seilio ar egwyddor atal - cyngor ar arian, helpu i lenwi ffurflenni budd-daliadau a rhoi cymorth i fenywod sy’n ffoi rhag trais domestig, i enwi ond ychydig. Mae ein rhaglen Pwyslais yn cynnig cymorth i bobl ifanc (13-19 oed) sy’n debygol neu sydd â risg o ddod yn ddigartref er mwyn atal y digartrefedd rhag digwydd.

Pa gamau fyddwn ni’n eu cymryd i gyflawni’r Amcan Llesiant hwn?

Canlyniadau	Erbyn pryd
1a. Mae’r holl dai cyngor yn cael eu gwella i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020 1b. Gweithredu strategaeth rheoli asedau i gynnal cyflwr y stoc dai yn dilyn cyrraedd WHQS (Rhagfyr 2020)	
Datblygu strategaeth tai SATC.	2018
○ Cyflawni’r rhaglen buddsoddi cyfalaf blyneddol ar gyfer gwaith mewnol a gwaith allanol. ○ Sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Siarter Ymddiried. ○ Cydymffurfio â Rhan 6 SATC trwy gyflawni gwelliannau amgylcheddol i wneud cymunedau’n ddeniadol ac yn ddiogel a chydymffurfio â Rhan 7 trwy wneud addasiadau lle nodir angen. ○ 1b - Cytuno ar raglen o waith cynnal a chadw cynlluniedig er mwyn sicrhau y caiff SATC eu cynnal yn y dyfodol ar ôl 2020.	Bob blwyddyn yn rheolaidd tan 2020 Ar ôl 2020
2. Cynyddu’r ddarpariaeth tai cymdeithasol fforddiadwy newydd sy’n bodloni egwyddorion ‘Cartrefi Gydol Oes’ ac anghenion dynodedig, ac ar yr un pryd cefnogi rhaglen tai arloesol y llywodraeth.	
Llunio Strategaeth Tai sy’n darparu fframwaith ar gyfer darparu tai a chymorth sy’n gysylltiedig â thai.	2018/19
Cwblhau’r Asesiad o’r Farchnad Dai Lleol a fydd yn nodi’r nifer a math o gartrefi y mae eu hangen, a’u lleoliad, ac a fydd yn helpu i edrych ar atebion.	2017/18 wedyn bob 2 flynedd

Cynhyrchu a chyflwyno cynllun cyflawni'r rhaglen i Lywodraeth Cymru bob chwarter, wedi'i seilio ar y dystiolaeth o angen o ran tai.	Bob blwyddyn
Cael penderfyniad gan y Cyngor i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cartrefi fforddiadwy newydd.	2018
Adolygu dynodiad llety cyngor i aelwydydd llai yng ngoleuni newidiadau yn y galw.	2018/19
Cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am gyllid Rhentu i Brynu/ Rhanberchnogaeth.	2018/19
Cymdeithasau tai i gwblhau cais am Gam 1 o'r rhaglen tai arloesol a chyflwyno ceisiadau cynllunio.	2018
Cymdeithasau tai i gwblhau cais am Gam 2 o'r rhaglen tai arloesol Cyflwyno cais cynllunio, gwaith datblygu i ddechrau ar y safle - Cam 1.	2018/19
Dechrau ar y safle ar gyfer Cam 2 o'r rhaglen tai arloesol: ○ Datblygu 38 uned i safon Passivhaus ar safle hen Lys Ynadon Caerffili (Linc Cymru) ○ Datblygu 17 uned i safon Passivhaus ar safle hen ysgol gynradd Cwm Ifor (United Welsh)	2021/22
Cwblhau gwerthusiad o'r cynlluniau Passivhaus a Beattie Passive.	2021/22
Cwblhau Gwerthusiad Opsiynau ar gyfer ailfodelu 6 cynllun tai gwarchod sy'n diwallu anghenion a dyheadau pobl hŷn yn well.	2021/22
3. Cyflawni addasiadau i gefnogi iechyd a lles pobl yn eu cartrefi a gwneud y defnydd gorau posibl o gartrefi hygyrch.	
○ Darparu mân waith addasu priodol ar draws yr holl fathau o ddeiliadaeth trwy wario'r gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol sydd ar gael. ○ Darparu gwaith addasu mawr priodol mewn tai yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat trwy wario'r cyllid cyfalaf sydd ar gael a chyllid Hwyluso oddi wrth Lywodraeth Cymru. ○ Darparu grantiau adleoli dewisol mewn achosion lle nad oes modd addasu'r eiddo presennol i ddiwallu anghenion y preswlydd anabl. ○ Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Gofal a Thrwsio gan alluogi'r henoed eiddil i gael cymorth ychwanegol trwy amrywiaeth o fentrau gan gynnwys y Rhaglen Addasiadau Brys a'r Grant Byw'n Annibynnol. ○ Cwblhau'r ymarfer categoraidd parhaus i ganfod pa mor hygyrch yw'r stoc tai cymdeithasol sy'n eiddo i'r Cyngor a'r landlordiaid sy'n bartneriaid iddo. ○ Datblygu gwelliannau i'r gofrestr tai gyffredin mewn perthynas â chodio meddygol y cartrefi sydd ar gael ar gyfer rhentu cymdeithasol o blith ein stoc ein hunain a'r stoc sy'n eiddo i'r landlordiaid sy'n bartneriaid inni. ○ Gwella hygyrchedd y stoc presennol o gartrefi a allai ateb y galw am dai hygyrch. ○ Gweithio gyda'r cymdeithasau tai sy'n bartneriaid inni a'r therapydd galwedigaethol (tai) i ddarparu tai hygyrch.	2018 - 2023

○	
4. Cynyddu'r cyflenwad tai trwy ailddefnyddio cartrefi yn y sector preifat sy'n wag ers amser hir	
○ Darparu cymorth i gefnogi ailddefnyddio, mewn ffordd fuddiol, gartrefi sy'n wag ers amser hir yn y sector preifat, gan gynnwys benthyciadau. ○ Camau ymgysylltu a gorfodi yn erbyn perchnogion cartrefi sy'n wag ers amser hir yn y sector preifat, lle bo'n briodol, er mwyn sicrhau y cânt eu defnyddio'n fuddiol eto. ○ Targedu perchnogion eiddo gwag gyda mentrau ad hoc megis ymgyrchoedd llythyrau a phrydlesu sector preifat.	Yn ôl yr angen
5. Mynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd a lles gwael trwy wella amodau tai yn y sector preifat.	
○ Rhoi cymorth i landlordiaid yn y sector preifat a chodi ymwybyddiaeth yn eu mysg ynghylch argaeledd cymorth, trwy gynllun Arbed a mentrau ynni eraill. ○ Inswleiddio waliau allanol a mesurau cysylltiedig, gosod boeleri newydd ac inswleiddio atigau os oes angen. ○ Gweinyddu cymorth i landlordiaid trwy fenthyciadau a grantiau. ○ Gweithio mewn partneriaeth ag undebau credyd i sicrhau bod benthyciadau i berchnogion tai yn fforddiadwy.	2018/19
○ Gweinyddu cymorth ariannol i landlordiaid trwy fenthyciadau a grantiau addasu. ○ Gorfodi deddfwriaeth tai er mwyn sicrhau y cyrhaeddir safonau gofynnol yn y sector rhentu preifat mewn eiddo amlfeddiannaeth ac eiddo meddiannaeth sengl, gan gynnwys atgyweirio, gwahardd a dymchwel, lle bo'n briodol. ○ Gweithio mewn partneriaeth gyda Rhentu Doeth Cymru i godi safonau yn y sector rhentu preifat.	Bob blwyddyn yn rheolaidd
6. Atal digartrefedd a mynd i'r afael â chysgu allan	
Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yn y rhanbarth i gynhyrchu Strategaeth Ranbarthol ar Ddigartrefedd a chynllun gweithredu lleol.	2018/19
Treialu prosiect rhannu tŷ i bobl sengl iau na 35 oed a gwerthuso ei lwyddiant.	2018/19
Rhoi cymorth fel y bo'r angen i denantiaid i'w cynorthwyo â chynnal eu tenantiaethau.	Parhaus
Cynnal prosiect Lloches Nos Eglwysi Caerffili rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth bob blwyddyn i helpu i fynd i'r afael â chysgu allan a gweithio fel rhan o'r Strategaeth Ranbarthol ar Ddigartrefedd 'Tai yn Gyntaf'.	2018-2023
Archwilio model posibl 'Tai yn Gyntaf' i leihau lefel digartrefedd i bobl sy'n methu â chynnal tenantiaethau oherwydd iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau neu ffyrdd o fyw anhrefnus.	Bob blwyddyn yn rheolaidd
7. Cynnal tenantiaethau trwy ddarparu ystod o wasanaethau cysylltiedig â thai.	

Rhoi hyfforddiant i'r holl staff tai rheng flaen ar iechyd meddwl ac ar gynorthwyo pobl i gynnal eu tenantiaethau.	2018/19
Fel rhan o'r adolygiad o'n polisïau a gweithdrefnau rheoli tai, cymryd problemau iechyd meddwl i ystyriaeth.	2018/19
○ Gweithio gyda sefydliadau anabledd i adolygu'r trefniadau cyfeirio. ○ Gweithio'n agos gyda'r Tîm Cefnogi Pobl i nodi gwasanaethau cymorth ychwanegol. ○ Cydgysylltu'r cyngor a gynigir i sicrhau nad oes dim dyblygu na bylchau. ○ Adolygu'r wybodaeth a ddarparwn ar ein gwefan i sicrhau ei bod yn gyfredol. ○ Darparu help i denantiaid i'w galluogi i gyllidebu'n effeithiol, i hawlio'r budd-daliadau cywir ac i leddfu canlyniadau diwygiadau lles. ○ Atgyfeirio tenantiaid y mae arnynt angen cyngor ar arian a dyledion i'r asiantaethau iawn. ○ Darparu cyngor i denantiaid ar ddefnyddio ynni a mesurau eraill i helpu i arbed arian. ○	Bob blwyddyn yn rheolaidd
Cynnal y prosiect magu hyder wrth drin arian (a ddarperir gan y Ganolfan Cyngor ar Bopeth) i ddarparu cymorth â rheoli arian / dyledion a chymorth gyda budd-daliadau i deuluoedd sydd ag anableddau neu sy'n rhan o brosiectau 'tîm o gwmpas y teulu'. Cynnal prosiectau tebyg i gynorthwyo'r teuluoedd hynny ag anghenion sy'n gysylltiedig â thai.	2018-2020
Parhau i gomisiynu asiantaethau penodol i gynorthwyo pobl gyda hawliadau ac apeliadau ynghylch budd-daliadau gan gynnwys Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a'r Taliad Annibyniaeth Bersonol.	2018-2023
8. Helpu i leihau tlodi tanwydd trwy wneud cartrefi'n fwy ynni effeithlon a rhoi cyngor i bobl ar y ffyrdd gorau i wresogi eu cartrefi	
Cyflwyno ceisiadau i Lywodraeth Cymru am gyllid Arbed neu fentrau effeithlonrwydd ynni eraill i gyflawni gwelliannau i effeithlonrwydd ynni yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus.	2017/18
Rhoi cyngor i denantiaid ar fesurau arbed ynni a defnyddio ynni a gosodiadau.	Ar gais

Pam rydyn ni'n barnu y bydd ein Hamcan Llesiant yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gennym ni at y Nodau Llesiant cenedlaethol

Mae'r amcan hwn yn eang ei gwmpas ac yn amlochrog. Gwyddom fod darparu tai a gwasanaethau cysylltiedig o ansawdd da yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol o ran iechyd a lles, yn darparu man diogel i fyw, yn hybu cymunedau bywiog a chynaliadwy, yn cynnig cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant ac yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd gymaint ag sy'n bosibl.

Mae cyflawni'r amcan hwn yn cefnogi gwelliant o ran addysg oherwydd y gall amodau da yn y cartref a'r gymdogaeth helpu pobl ifanc i gyflawni. Mae llai o gysylltiad â thraffig a llygredd sŵn ac aer, a chynllunio cartrefi gyda'r anghenion lleiaf posibl am ynni (dŵr, tanwydd) yn cyfrannu at Gymru iachach a Chymru o gymunedau cydlynus.

Gellir cynllunio tai fel y gall pobl fod yn gorfforol weithgar yn eu cartrefi ac mae ymchwil yn dangos bod yna gysylltiadau rhwng problemau tai a lles corfforol a meddyliol, yn arbennig yn gysylltiedig â thlodi. Cydnabyddir hyn yn Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru 2017 'Ffyniant i Bawb' gan fod tai yn un o feysydd blaenoriaethol y strategaeth.

Rydym wedi nodi bod cyflawni'r amcan hwn yn llwyddiannus yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl i bob un o'r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol.

Sut y byddwn ni'n sicrhau adnoddau i'r Amcan Llesiant hwn

Byddwn yn sicrhau adnoddau i'n camau gweithredu gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau cyllid. Nodir rhai ohonynt isod:

- ✚ Rhaglen buddsoddi SATC gan ddefnyddio rhent a delir gan ein tenantiaid, arian oddi wrth Lywodraeth Cymru (Lwfans Atgyweiriadau Mawr), benthyca darbodus ac unrhyw incwm arall a gawn.
- ✚ Darparu prentisiaethau, cyfleoedd cyflogaeth a lleoliadau gwaith gan ddefnyddio'r Cyfrif Refeniw Tai a chyllid SATC.
- ✚ Datblygu tai fforddiadwy gan ddefnyddio cyllid y Grant Tai Cymdeithasol oddi wrth Lywodraeth Cymru (cyfalaf a refeniw) a chyllid preifat mae'r cymdeithasau tai yn ei gael.
- ✚ Treialu adeiladu cartrefi cynaliadwy, ynni effeithlon trwy wneud cais am gyllid y Rhaglen Tai Arloesol i Lywodraeth Cymru a chyda chyllid preifat mae'r cymdeithasau tai yn ei gael.
- ✚ Darparu addasiadau gan ddefnyddio cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru a chyllid y Cyngor (y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai).
- ✚ Gwella amodau yn y sector rhentu preifat a sector perchnogion feddianwyr gan ddefnyddio cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru a chyllid y Cyngor (y Gronfa Gyffredinol).
- ✚ Cynorthwyo â sicrhau y caiff cartrefi sy'n wag ers amser hir yn y sector rhentu preifat eu defnyddio eto gan ddefnyddio cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru a chyllid y Cyngor (y Gronfa Gyffredinol).
- ✚ Atal digartrefedd a mynd i'r afael â chysgu allan gan ddefnyddio arian pontio oddi wrth Lywodraeth Cymru a chyllid y Cyngor (y Gronfa Gyffredinol).
- ✚ Caiff rhaglen Cefnogi Pobl ei chyllido gan grant oddi wrth Lywodraeth Cymru gwerth £6,232,790 (gweler y sylw ar dudalen 21 ynghylch newidiadau i'r ffordd y caiff y rhaglenni hyn eu cyllido).
- ✚ Darparu cymorth i denantiaid gan ddefnyddio cyllid o'r Cyfrif Refeniw Tai a'r rhaglen Cefnogi Pobl.
- ✚ Darperir hyfforddiant i'r staff presennol ar ddiogelu, iechyd meddwl, effeithlonrwydd ynni a rheoli arian.
- ✚ Darperir cymorth i breswylwyr trwy ddefnyddio'r staff presennol gan gynnwys swyddogion cyswllt tenantiaid, swyddogion cymorth i denantiaid, swyddogion cyswllt a swyddogion rheoli ystad.
- ✚ Lleihau tlodi tanwydd trwy ddefnyddio a chodi ymwybyddiaeth o gyllid grant effeithlonrwydd ynni oddi wrth Lywodraeth Cymru, cyllid SATC a ffynonellau cyllid allanol, er enghraifft cwmnïau ynni.

Mae yna nifer o heriau, sy'n amrywio o ran eu maint a'u cymhlethdod, a all effeithio ar ganlyniad llwyddiannus yr amcan hwn. Ychydig o ddylanwad, neu ddim o gwbl, sydd gan y Cyngor ar lawer o'r heriau hyn.

Mae'r prif heriau'n cynnwys fframweithiau polisi cenedlaethol ar yr economi, lles a thai (llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU), newidiadau demograffig, gallu'r staff i flaenoriaethu'r tasgau presennol ac ysgwyddo tasgau newydd, y gofyniad i fodloni blaenoriaethau Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ac arbenigedd mewnol i wneud y defnydd gorau o ymchwilio i dechnolegau newydd a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg.

Pryd gaiff yr amcan ei gwblhau?

Gwaith parhaus yw datblygu tai a gwasanaethau cysylltiedig â thai sy'n gynaliadwy ac, er y bydd dulliau a pholisïau llywodraethau o bosibl yn newid, nid oes dyddiad terfyn ar yr achos a'r effaith ar lesiant ym maes tai. Fodd bynnag, dros y 5 mlynedd nesaf byddwn wedi gwneud cynnydd sylweddol pan fydd y camau gweithredu canlynol wedi cael eu cwblhau'n llwyddiannus:

Llwyddiant yr amcan	Dyddiad
Rydym wedi cwblhau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (a fydd yn darparu sail dystiolaeth i'n Strategaeth Tai yn y dyfodol).	2017/18
Rydym wedi cwblhau strategaeth tai a Strategaeth Ranbarthol ar Ddigartrefedd, ac rydym yn eu gwireddu.	2018/19
Mae rhaglen buddsoddi SATC ar gyfer Cartrefi Caerffili wedi'i chwblhau.	2020/21
Rydym wedi cwblhau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (sail dystiolaeth i'r Strategaeth Tai) a fydd yn dod i ben gyda'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.	2020/21
Rydym wedi cwblhau adolygiad o'n cofrestr tai gyffredin i sicrhau ei bod yn effeithiol.	2018/19
Rydym wedi cydweithredu'n llwyddiannus â'r cymdeithasau tai sy'n bartneriaid inni i ddarparu cartrefi fforddiadwy newydd.	2018-23
Rydym wedi darparu gwasanaeth atal digartrefedd.	2018-23
Rydym wedi cyfrannu at sicrhau y caiff cartrefi sy'n wag ers amser hir eu defnyddio eto.	2018-23
Mae camau 1 a 2 o'r Rhaglen Tai Arloesol wedi'u cwblhau.	2020/21
Mae'r holl gartrefi a ddarperir gan landlordiaid cymdeithasol wedi cael eu categorioiddio gan ddefnyddio'r system codio hygyrchedd.	2019/20
Rydym wedi cynyddu'r cyflenwad o gartrefi hygyrch.	2018-2023
Rydym wedi darparu addasiadau i gynorthwyo tenantiaid / preswylwyr i aros yn eu cartrefi.	Lle bo angen

Yn ogystal â monitro llwyddiant prosiectau byddwn yn defnyddio'r dangosyddion perfformiad canlynol i fesur sut rydym yn perfformio. Ar gyfer rhai o'r dangosyddion ni allwn bennu targedau gan fod y perfformiad yn gysylltiedig â'r galw am wasanaeth neu'r defnydd ohono.

Byddwn yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn aros ar y trywydd iawn i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

Canlyniad	Mesuriad
1	Canran y tenantiaid y mae eu cartrefi wedi cael eu gwella'n fewnol sy'n fodlon ar y gwaith SATC sydd wedi'i gwblhau
1	Canran y tenantiaid y mae eu cartrefi wedi cael eu gwella'n allanol sy'n fodlon ar y gwaith SATC sydd wedi'i gwblhau
1	Nifer y cartrefi sy'n cydymffurfio â SATC (yn llawn, elfennau allanol a mewnol)
2,7,8	11 mesuriad canlyniadau o'r rhaglen Cefnogi Pobl wedi'u seilio ar benderfynyddion ehangach atal digartrefedd.
3	Cynnydd yn y nifer, maint a mathau o gartrefi fforddiadwy newydd a ddarperir trwy'r cymdeithasau tai neu'r Cyngor, gan gynnwys sut y darparwyd y cartref – e.e. trwy'r Rhaglen Tai Arloesol ac ati.
3	Cwblhawyd yr arfarniad o opsiynau tai gwarchod, a nifer y cynlluniau tai gwarchod lle mae'r canlyniad wedi cael ei gyflawni
3	Nifer y cartrefi a ddarparwyd trwy'r Rhaglen Tai Arloesol
4	Cynyddu canran y stoc tai cymdeithasol sydd â chod hygyrchedd
4	Nifer fwy o gartrefi cymdeithasol hygyrch a ddarperir.
4	Nifer yr addasiadau a ddarparwyd (Hwyluso, mân waith a gwaith mawr)
5 a 6	Nifer y grantiau/benthyciadau a ddarparwyd i wella tai yn y sector preifat (e.e. Troi Tai'n Gartrefi, Benthyciadau Gwella Cartrefi, grantiau addasu, grantiau Trwsio Cartrefi a benthyciadau tai amlfeddiannaeth)
5	Canran y cartrefi gwag tymor hir yn y sector preifat a ddaeth yn ôl i ddefnydd buddiol (a fu'n wag ers dros 6 mis) oherwydd gweithredu uniongyrchol gan CBSC
6	Achosion o ran pobl sydd wedi cael digartrefedd wedi atal. (Adran 66)
	Mae achosion sydd wedi cael eu risg o ddigartrefedd yn rhyddhad trwy ddarparu llety amgen. (Adran 73)
6	Nifer y bobl y penderfynwyd eu bod yn ddigartref yn anfwriadol, mewn angen blaenoriaethol ac yn gymwys i gael cymorth (Adran 75)
7	Nifer yr achosion o achub morgeisi a gwblhawyd
7	Nifer y tenantiaid yr ymwelwyd â hwy ac y rhoddwyd cymorth a chyngor iddynt i helpu i leddfu effeithiau diwygio lles
7 a 8	Gwerth yr arbedion ariannol (£) a grëwyd i denantiaid y Cyngor o ganlyniad uniongyrchol i gymorth
8	Nifer tenantiaid y Cyngor yr ymwelwyd â hwy ac y rhoddwyd cyngor iddynt ynghylch mesurau arbed ynni a defnyddio ynni
8	Nifer y cartrefi sy'n eiddo i'r Cyngor y darparwyd mesurau effeithlonrwydd ynni iddynt o ganlyniad i gyllid grant allanol

I roi cyd-destun byddwn hefyd yn adolygu'r Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru isod fel rhan o'r amcan cyffredinol hwn:

Dangosyddion Llesiant Cyffredinol -	
Canran yr anheddau sydd heb beryglon	Ffynhonnell y Data Gwaith blynyddol casglu data Peryglon a Thrwyddedau Tai.



4. Hybu system trafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfleoedd, yn hybu ffyniant ac yn lleihau'r effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd gymaint ag sy'n bosibl

Canlyniadau

1. Gweithio gyda'r broses o gyflawni Metro De-ddwyrain Cymru, gan anelu at raglen Trydaneiddio Llinellau'r Cymoedd fel rhan o'r gwaith o gyflawni cynllun ehangach Metro De-ddwyrain Cymru.

2. Datblygu Strategaeth Adfywio CBSC a'i Chynllun Cyflawni gyda chysylltedd yn greiddiol iddynt, gan hybu hygyrchedd, y Metro a gwelliannau digidol a band eang sy'n cefnogi arloesedd ac yn gwella hygyrchedd i bawb.

3. Hybu adfer gwasanaethau teithwyr ar y llinell reilffordd rhwng Nelson ac Ystrad o dan raglen y Metro.

4. Hybu adfer y llinell reilffordd rhwng Caerffili a Chasnewydd fel rhan o raglen y Metro.

5. Hybu rhwydwaith bysiau cynaliadwy sy'n cefnogi hygyrchedd a chysylltedd yn lleol ac yn rhanbarthol trwy rwydwaith ffyrdd sy'n hybu gweithrediad effeithlon bysiau.

6. Sicrhau'r cysylltedd trafnidiaeth fwyaf posibl mewn a rhwng ffyrdd o deithio trwy integreiddio'r gwaith o gyflawni Cynllun Teithio Llesol Bwrdeistref Sirol Caerffili â'r Metro er mwyn gwella'r ddarpariaeth bysiau, rheilffyrdd, cerdded a beicio i gynyddu hygyrchedd ac ychwanegu gwerth at gynigion y Metro.

4. Hybu system trafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfleoedd, yn hybu ffyniant ac yn lleihau'r effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd gymaint ag sy'n bosibl

Datganiad Llesiant

“Dyw'r seilwaith presennol ddim yn ymdopi. Mae gormod o dagfeydd. Mae angen datblygu'r seilwaith (ffyrdd, trenau, siopau) cyn i ddatblygiadau newydd ddechrau” (Cyfranogwr yn nigwyddiad Panel Safbwynt 11 Gorffennaf 2016)

Yn 2015 roedd 39,100 o deithiau cymudo i fannau y tu allan i'r fwrdeistref sirol bob dydd, a 18,900 o deithiau cymudo i mewn iddi. Felly mae 20,200 yn fwy o deithiau cymudo i swyddi y tu allan i'r fwrdeistref sirol, a Chaerdydd a Chasnewydd yw'r cyrchfannau mwyaf poblogaidd. Rhondda Cynon Taf yw man cychwyn y mwyafrif o deithiau cymudo i'r fwrdeistref sirol, ac yn agos iawn wedyn mae Caerdydd a Blaenau Gwent. Dengys hyn, er bod y llifoedd cymudo mwyaf rhwng y fwrdeistref sirol a Chaerdydd, fod yna hefyd gryn dipyn o gymudo ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ac ar draws y Cymoedd. Yn yr adborth a gafwyd lawer gwaith o ddigwyddiadau ymgysylltu â chymunedau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a'r Asesiad Llesiant Lleol roedd canfyddiad mai cyfleoedd cyfyngedig sydd o ran trafnidiaeth gyhoeddus wrth symud o'r dwyrain i'r gorllewin y tu mewn neu'r tu allan i'r fwrdeistref sirol, ac felly mae modd tybio y defnyddir ceir ar gyfer y mwyafrif o'r teithiau o'r math hwn.

Mae pellter teithio i gyfleoedd gwaith a hyfforddiant yn ffactor pwysig wrth benderfynu pa mor hygyrch yw cyflogaeth. Gallai'r rhwystrau a nodwyd gan ein preswylwyr mewn perthynas ag argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus a'r costau cysylltiedig gynyddu'r angen i ddefnyddio'r car fel y brif ffordd o deithio i'r gwaith.

Bydd Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn darparu'r cyfle cyllido pwysicaf yn hanes de Cymru. Nod y Fargaen Ddinesig yw rhoi hwb i'r economi leol, ac economi rhanbarth ehangach y de-ddwyrain, i'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Fargaen Ddinesig werth £1.2 biliwn a lofnodwyd yn ffurfiol ar 15 Mawrth 2016 gan y deg awdurdod lleol sy'n cymryd rhan, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn nodi'r bwriad i sicrhau 25,000 o swyddi newydd gan ddenu £4 biliwn o fuddsoddiad gan y sector preifat ar draws y rhanbarth.

Mae'r Fargaen Ddinesig yn cynnwys benthyddiad o £500 miliwn oddi wrth Lywodraeth y DU, gyda chyfraniad tebyg oddi wrth Lywodraeth Cymru, a'r gweddill yn dod oddi wrth y deg awdurdod lleol sy'n cymryd rhan, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r deg awdurdod lleol sy'n cymryd rhan wedi sefydlu Cyd-gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a fydd yn cymryd yr awenau, ac ef fydd y corff penderfynu fydd â'r dasg o gyflawni'r Fargaen Ddinesig.

Bydd y Fargaen Ddinesig yn darparu i bartneriaid lleol y pwerau a'r adnoddau i ddatgloi twf economaidd sylweddol ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'n fargaen sy'n adeiladu ar gryfderau sectorol y rhanbarth, ei sylfaen o sgiliau lefel uchel a thair prifysgol lwyddiannus. Mae'r Fargaen Ddinesig yn cynnig cyfle i barhau i fynd i'r afael â rhwystrau'r ardal i dwf economaidd, a'i nodau yw'r canlynol:

- Gwellu cysylltedd trafnidiaeth;
- Codi lefelau sgiliau'n uwch byth;
- Cynorthwyo pobl i gael gwaith;
- Rhoi i fusnesau'r cymorth mae arnynt ei angen i arloesi a thyfu.

Yn fanylach bydd hyn yn cynnwys:

- **£1.2 biliwn o fuddsoddiad yn seilwaith Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** – un flaenoriaeth allweddol ar gyfer y buddsoddiad fydd darparu'r Metro, gan gynnwys Rhaglen Trydaneiddio Llinellau'r Cymoedd.
- **Cysylltu'r rhanbarth** – mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi sefydlu **Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol** anstatudol newydd i gydgyssylltu'r gwaith o gynllunio a buddsoddi mewn trafndiaeth, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.
- **Cymorth ar gyfer arloesi a gwella'r rhwydwaith digidol** – er mwyn datblygu'r galluedd mewn cymwysiadau lled-ddargludyddion cyfansawdd bydd Llywodraeth y DU yn buddsoddi £50 miliwn i sefydlu Canolfan Gatapwlt newydd yng Nghymru. Bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd hefyd yn rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu ac yn darparu cymorth i fusnesau arloesol o werth mawr.
- **Datblygu gweithlu medrus a mynd i'r afael â diweithdra** – caiff Bwrdd Sgiliau a Chyflogaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ei greu (gan adeiladu ar drefniadau sy'n bodoli eisoes) er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth sgiliau a chyflogaeth yn ymateb i anghenion busnesau a chymunedau lleol. Bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gydgyllunio'r cymorth cyflogaeth yn y dyfodol o 2017 ymlaen i bobl sydd â chyflwr iechyd neu anabledd a/neu sy'n ddi-waith hirdymor.
- **Cefnogi menter a thwf busnesau** – caiff Sefydliad Busnes Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ei sefydlu i sicrhau bod yna un llais i fyd busnes er mwyn gweithio gydag arweinwyr awdurdodau lleol.
- **Datblygu tai ac adfywio** – bydd Llywodraeth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ymrwmo i ymagwedd bartneriaethol newydd at gynllunio strategol. Bydd hyn yn sicrhau y darperir cymunedau cynaliadwy, trwy ddefnyddio ac aildefnyddio eiddo a safleoedd.

Un ffactor allweddol wrth gyflawni amcanion uchelgeisiol y Fargen Ddinesig o ran twf economaidd yw gwella hygyrchedd a chysylltedd ledled y Prifddinas-Ranbarth, gan gysylltu'r boblogaeth â chyfleoedd cyflogaeth. Caiff y gyfran fwyaf o gyllideb y Fargen Ddinesig ei defnyddio i gyllido'r Metro, y cynigion ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus ranbarthol sydd â'r nod o wella cysylltedd ledled y rhanbarth a rhannau eraill o'r wlad a lleihau amserau teithio, yn arbennig i Gaerdydd.

Ar adeg cyhoeddi hwn cytunodd Cyd-gabinet y Dinas-ranbarth i fuddsoddi £40 miliwn mewn gorsaf reilffordd newydd yng Nghaerdydd Canolog. Gan y bydd trydaneiddio Llinellau'r Cymoedd yn galluogi teithiau trên amlach o lawer i fyny ac i lawr y Cymoedd, mae capasiti gorsaf Caerdydd Canolog yn hanfodol i rediad llyfn y rhanbarth a'r brifddinas ar lefel genedlaethol.

Dyma weledigaeth y Metro

"System drafndiaeth newydd yw Metro a fydd yn trawsnewid y ffordd yr ydym yn teithio o gwmpas Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd yn darparu gwasanaethau cyflymach, amlach a mwy cydgysylltiedig gan ddefnyddio trenau, bysiau a rheilffyrdd ysgafn. Bydd Metro yn dod â buddion i deithwyr, yn cysylltu cymunedau gyda'i gilydd ac yn helpu i drawsnewid yr economi. Bydd yn cael effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gadarnhaol. Bydd hefyd yn llunio hunaniaeth ein rhanbarth."

Nod y Metro yw darparu o leiaf 4 gwasanaeth yr awr ar draws y rhwydwaith cyfan trwy integreiddio rhwng trenau, bysiau ac, o bosibl, rheilffyrdd ysgafn. Bydd y Metro yn integreiddio tocynnau i ddarparu un system docynnau a bydd yn cysylltu â'r rhwydwaith trafndiaeth llesol i wella cysylltedd ar gyfer cyflogaeth a chyfleusterau a gwasanaethau eraill.

Rydym yn cydnabod rôl bwysig bysiau wrth gyflawni ein dyheadau i leihau ein hól-troed carbon, gwella hygyrchedd lleol a rhanbarthol a helpu i leihau tagfeydd. Tagfeydd yw un o'r prif rwystrau i ddarparu gwasanaethau bws effeithlon a dibynadwy ac mae angen inni fynd i'r afael â mannau lleol lle mae tagfeydd yn wael a gweithio ar lefel ranbarthol i leihau'r effaith mae tagfeydd yn ei chael ar goridorau llwybrau allweddol i gyrchfannau allweddol er mwyn sicrhau gwasanaethau bws cyflymach a mwy uniongyrchol sy'n cynnig dewis gwirioneddol yn lle teithio mewn ceir. Mae'r Cyngor yn chwarae rhan arweiniol yn y gwaith o osod a rheoli cenhedlaeth newydd o beiriannau tocynnau i weithredwyr llai ledled Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, a fydd yn rhoi cyfleoedd i gwmnïau bws llai gefnogi systemau tocynnau digidol, talu â chardiau digyswllt a darparu gwybodaeth amser real. Bydd hyn yn cydategu'r buddsoddiad diweddar mewn seilwaith tebyg a wnaed gan y cwmnïau bws mwy ac yn darparu'r platfform a fydd yn hybu systemau tocynnau a gwybodaeth integredig.

Mae amserau teithio'n ffactor pwysig wrth benderfynu pa mor hygyrch yw cyflogaeth gyda trafndiaeth gyhoeddus. Bydd y pryderon a godwyd gan ein preswylwyr mewn perthynas â darpariaeth a chost trafndiaeth gyhoeddus yn atgyfnerthu'r defnydd o geir fel y brif ffordd o deithio i'r gwaith. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n cefnogi ymrwymiad y Brifddinas-Ranbarth i ddyfodol carbon isel, sydd â rhwydwaith trafndiaeth a diwylliant symud sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i economi ffyniannus ac iechyd a lles ei ddinasyddion a lle mai teithio cynaliadwy yw'r dewis a ffefrir.

Mae trafndiaeth dda yn hanfodol i wella mynediad i gyfleoedd gwaith a gwella lles cyffredinol pobl leol. Er mwyn cyflawni'r Fargen Ddinesig mae'n hanfodol i'r ranbarth gael ei wasanaethu gan system drafndiaeth gyflym ac effeithlon a all gysylltu ei bobl â chyfleoedd cyflogaeth ac â gwasanaethau a chyfleusterau ledled y ranbarth. O ganlyniad mae'r Metro, y rhaglen sydd â'r nod o ddarparu'r system drafndiaeth hon, wedi'i gynnwys yn y Fargen Ddinesig.

Un rhan hanfodol o'r gwaith o ddarparu'r rhwydwaith yw ei ehangu, trwy adfer hen lwybrau trafndiaeth a chreu rhai newydd, er mwyn darparu seilwaith trafndiaeth estynedig a chysylltiedig i'r Ranbarth. Rydym eisiau gwarchod llinellau rheilffordd segur rhag unrhyw ddatblygiad niweidiol neu ddefnyddiau anghydnaws er mwyn sicrhau nad yw'r defnydd ohonynt at ddibenion trafndiaeth yn cael ei beryglu i genedlaethau'r dyfodol. Rydym wrthi'n ceisio sicrhau yr adferir gwasanaethau teithwyr ar ddwy linell, sef llinell reilffordd Cwm Bargod rhwng Ystrad Mynach a Bedlinog a llinell Machen rhwng Caerffili a Chasnewydd.

Er bod llinell Cwm Bargod ar waith fel llinell nwyddau ar gyfer gwaith echdynnu mwynau Ffos-y-Frân, hi yw'r llinell reilffordd olaf o bwys yn y fwrdeistref sirol sydd heb wasanaethau teithwyr. Mae llinell Cwm Bargod yn cysylltu Nelson ag Ystrad Mynach a'r gwasanaethau ar linell Cwm Rhymni. Byddai adfer gwasanaethau teithwyr ar y llinell hon yn hwyluso symudiadau i ac o Nelson, yn arbennig ar gyfer y defnyddiau cyflogaeth arfaethedig ar safle Tŷ Du. Er bod y llinell wedi'i nodi yng Ngham 3 o'r Metro, mae'r gwaith o adfer y llinell hon yn dibynnu ar y defnydd ohoni ar gyfer trenau nwyddau gan nad oes darpariaeth briodol i drenau teithwyr a nwyddau basio ei gilydd.

Yn wreiddiol roedd llinell Machen yn rhedeg o ochr ddwyreiniol Caerffili trwy Fachen i orsaf Casnewydd. Roedd yna bryderon ynghylch ei hadfer ond, fel rhan o'i adolygiad o reilffyrdd yn 2013, cyflawnodd SEWTA, Cynghair Trafndiaeth De-ddwyrain Cymru, astudiaeth ddichonoldeb ben desg ar y llinell a chanfu fod modd i wasanaethau teithwyr gael eu hadfer ar y llinell. Mae adfer y llinell hon yn hanfodol gan mai hon fyddai'r llinell gyntaf i gysylltu i'r dwyrain â Chasnewydd, yn hytrach nag i'r de â Chaerdydd, ac y byddai'n agor y rhwydwaith trafndiaeth yn ehangach ar draws y ranbarth.

Mae ein Cynllun Teithio Llesol, sy'n ymdrin â cherdded a beicio, yn bwysig wrth hybu ffyrdd iachach o fyw a lleihau effeithiau negyddol traffig ar ein cymdogaethau a'n cymunedau. Polisi Llywodraeth Cymru yw ceisio sicrhau y defnyddir dulliau teithio llesol ar gyfer teithiau byr a dylai gwelliannau i rwydweithiau cerdded a beicio wella hygyrchedd lleol er mwyn hwyluso'r newid hwn.

Mae masnachfaint reilffordd Cymru a'r Gororau i fod i gael ei hadnewyddu yn 2018 ac ar hyn o bryd mae'n destun proses ceisiadau i weithredwyr posibl. Yn ogystal â bod yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau rheilffordd a nodir yn y fasnachfaint, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn gyfrifol am ddarparu elfennau rheilffyrdd/rheilffyrdd ysgafn/tram y Metro. O ganlyniad bydd yr ymgeisydd sy'n llwyddo i gael y fasnachfaint yn gwneud cyfraniad sylweddol i gyfeiriad a natur gwelliannau'r Metro. Nid yw rhai materion allweddol, megis ai rheilffyrdd neu reilffyrdd ysgafn/tramiau neu hyd yn oed bysiau fydd prif elfen y system, wedi cael eu penderfynu eto ac ni fydd y sicrwydd angenrheidiol ar gyfer cynllunio gwelliannau'r Metro yn bosibl hyd nes i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei enwi.

Ar yr adeg berthnasol yn y broses (fel y nodir uchod) byddwn yn hybu llinellau rheilffordd a thocynnau integredig. Byddai'r gallu i gwsmeriaid deithio a thalu am docyn am eu taith gyfan waeth pa gwmnïau teithio gwahanol maent yn eu defnyddio (megis cwmnïau bws a thrên) yn darparu gwasanaeth di-dor i deithwyr ac mae wedi gweithio'n dda mewn dinasoedd eraill.

Mae'r Prifddinas-Ranbarth yn dioddef o dagfeydd cynyddol sy'n achosi costau sylweddol i economi'r rhanbarth ac yn un o'r rhwystrau mwyaf sylweddol i weithrediad effeithlon a dibynadwy bysiau. At hynny nid yw'r rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus yn addas at ddiben cysylltu pobl â chyflogaeth a gwasanaethau iechyd a hamdden ledled y rhanbarth. Mae'r Fargen Ddinesig a'r elfennau allweddol wrth fynd i'r afael â'r materion hyn yn cynyddu cysylltedd a mynediad, yn arbennig at gyfleoedd cyflogaeth, sydd ynddi ei hun yn elfen allweddol wrth fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol. Felly mae darparu mynediad i gyfleoedd cyflogaeth yn elfen sylfaenol wrth wella rhagolygon preswylwyr y fwrdeistref sirol yn y dyfodol.

Sut ddefnyddiasom y '5 ffordd o weithio' i bennu'r amcan Llesiant hwn?

Cynnwys – Bydd y gwaith o ddarparu system drafndiaeth fodern, integredig a chynaliadwy yn golygu cydweithredu rhwng nifer fawr o gyrff, gan gynnwys y 10 awdurdod lleol yn y Prifddinas-Ranbarth, yn rhanbarthol ac yn unigol, y sector preifat a'r trydydd sector. Bydd darparu system drafndiaeth sy'n gwella mynediad i gyflogaeth a gwasanaethau eraill yn galw am gynnwys amrywiaeth fawr o ddisgyblaethau, oddi wrth amrywiaeth fawr o gyrff.

Cydweithredu – Ymagwedd aml-gydweithredol yw hon fel y nodir uchod rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat gan gynnwys yr ymgeisydd llwyddiannus am y fasnachfaint reilffordd a chwmnïau bysiau ynghyd â Llywodraethau Cymru a'r DU. Er bod yr amcan hwn yn canolbwyntio ar y Metro a thrafndiaeth, mae'n ymwneud â mynediad yn yr ystyr ehangach ac felly byddwn yn rhan o'r cydweithredu ar y strategaeth ddigidol fel rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Nod cyffrous hon yw dod yn rhan o gysylltedd digidol gyda'r gorau yn y byd a fyddai'n cefnogi busnesau, cyflogaeth ac ysgolion yn rhanbarthol ac yn lleol ac sydd â'r potensial i newid y ffordd rydym yn byw ac yn gweithio. Yn rhanbarthol gallai 'rhwydwaith ffibr tywyll' strategol, sy'n adnodd nas defnyddir, gael ei berchnogi'n rhannol fel ased cyhoeddus. Er mwyn bod yn 'ddinas-ranbarth agored', byddai'r hyn a elwir yn aml 'y rhyngwyd pethau' megis technoleg wisgadwy a cheir di-yrwr yn dibynnu ar ddatblygu'r rhwydwaith ffibr tywyll yn y dyfodol.

Hirdymor – Bydd gwelliannau i drafnidiaeth yn parhau am 10 mlynedd o leiaf, gan fod y Fargen Ddinesig wedi'i phennu dros gyfnod o 10 mlynedd a bod fframwaith 20 mlynedd i gynllunio rhanbarthol felly bydd yr amcan wedi'i lunio dros y tymor hir. Mae'n bosibl na chymerir unrhyw gamau gweithredu am 2-3 blynedd ond bydd y buddion hirdymor, os cânt eu gwireddu, yn cael effaith sylweddol ar deithio, allyriadau carbon a chyfleoedd cyflogaeth. Rhagwelir y bydd y Metro yn system drafnidiaeth a fydd yn datblygu ac yn ehangu ac y bydd arni angen buddsoddiad a gwelliant parhaus y tu hwnt i'r cyfnodau hyn er mwyn cyflawni ei hamcanion yn llawn.

Integreiddio – Bydd y Strategaeth Rhanbarthol Strategol yn edrych ar sut y gall y rhanbarth cyfan gael budd o amrywiaeth o weithgarwch 'cydgysylltiedig' gan gynnwys sut y gall trafnidiaeth helpu gyda thwf economaidd a bod yn rhan o'r gwaith ehangach o gynllunio buddion llesiant a fydd yn helpu amcanion amrywiaeth fawr o gyrff gwasanaethau cyhoeddus, megis gwasanaethau iechyd. Gallai ceblau rhwydwaith rhyngwyd yn y dyfodol gael eu gosod yn ddiofyn ar holl brosiectau seilwaith y sector cyhoeddus gan gynnwys y Metro, a fyddai'n cyfrannu at ddyheadau Llywodraeth Cymru i symud tuag at gysylltedd digidol gyda'r gorau yn y byd.

Atal – Mae pobl wedi dweud wrthym yn ein hymgyngoriadau amrywiol bod diffyg trafnidiaeth hygyrch yn rhwystr gwirioneddol i gyfleoedd cyflogaeth. Bydd darparu system drafnidiaeth garbon isel fforddiadwy ac effeithlon sy'n ceisio lleihau amserau teithio i'r eithaf a chynyddu cysylltedd a hygyrchedd hefyd yn helpu preswylwyr i gael mynediad i gyfleoedd cyflogaeth gwell, gan gyfrannu at amcanion y Fargen Ddinesig o ran twf economaidd.

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd i gyrraedd y nod hwn?

Canlyniadau	Erbyn pryd
Cyflawni Metro De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys rhaglen Trydaneiddio Llinellau'r Cymoedd. Cyflawni cynllun ehangach Metro De-ddwyrain Cymru.	Cam 1 – sefydlu wedi'i gwblhau Cam 2 – 2017-23 Cam 3 – ar ôl 2023
Bydd Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol anstatudol newydd yn cydgysylltu'r gwaith o gynllunio a buddsoddi mewn trafnidiaeth, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.	Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y bwrdd ar 25/01/18.
Prosiect Creu Mannau, adeiladu 'canolbwyntiau gorsafoedd' yn agos i'r Metro (canolbwyntiau trafnidiaeth) i gysylltu swyddi â lleoedd. Cam gweithredu rhanbarthol ehangach yw hwn.	Trafnidiaeth Cymru 2023
Yn lleol gwireddu ein gweledigaeth am ganolbwynt trafnidiaeth integredig newydd o ansawdd da sy'n cymryd lle'r cyfleusterau bws a rheilffordd bresennol	2018-2023
Cymeradwyo Cynllun Busnes Strategol yr Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol.	Wedi'i lofnodi erbyn Mawrth 2018
Cynhyrchu Mapiau Rhwydwaith Integredig ar gyfer llwybrau Teithio Llesol. Cynllun 15 mlynedd yw hwn i wella llwybrau cerdded a beicio ar draws y fwrdeistref sirol	Cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru yn 2018
Datblygu Strategaeth Adfywio CBSC i gefnogi cysylltedd gwasanaethau trafnidiaeth, Metro, digidol a band eang	Haf 2018

Canlyniadau	Erbyn pryd
Gwarchod llwybrau hen linellau rheilffordd rhag datblygiadau a allai beryglu eu defnydd yn y dyfodol ar gyfer trafnidiaeth a mynd ati i hybu adfer gwasanaethau teithwyr, yn arbennig ar linellau rheilffordd Cwm Bargod a Chasnewydd-Caerffili (Machen) trwy raglen y Metro.	Gwaith gwarchod llwybrau yn parhau. Adfer o bosibl tua diwedd y rhaglen 15 mlynedd.
Gwella ac ehangu cyfleusterau gorsafoedd trwy ddarparu gwell cyfleusterau parcio a theithio a chysylltiadau cerdded a beicio er mwyn gwneud gwasanaethau trên yn fwy hygyrch. Lleihau tagfeydd ac allyriadau carbon o'r orsaf reilffordd bresennol a'r orsaf newydd trwy gynyddu'r lle parcio wrth orsaf Ystrad Mynach; darpariaeth parcio newydd sylweddol yng ngorsaf arfaethedig Parcfordd Llanbradach ar linell Rhymni; a maes parcio newydd i gydategu'r cynigion ar gyfer gorsaf newydd yng Nghrymlyn ar linell Cwm Ebwy.	Cynlluniau parhaus gan ddibynnu ar geisiadau / argaeledd cyllid
Darparu seilwaith peiriannau tocynnau newydd wedi'i seilio ar dechnoleg GPS i'r cwmnïau bws llai yng Nghymru. Bwriedir ei gyflawni ledled Cymru yn ystod chwe mis cyntaf 2018. Bydd yn darparu platfform ehangach ar gyfer systemau tracio cerbydau a thocynnau integredig amser real (gan gynnwys trafodion digyswllt) yn y dyfodol.	2018 ar gyfer gosod y platfform tocynnau sylfaenol. Rhagor o ddatblygiadau'n dibynnu ar gyllid
Datblygu a chyflawni rhaglen o goridau blaenoriaethol i fysiau mewn partneriaeth â'r cwmnïau bws trwy fesurau sy'n mynd i'r afael â'r prif fannau lle mae tagfeydd yn wael er mwyn gwella dibynadwyedd a lleihau amserau teithio.	Cam 1: 2017/18 Rhestr o goridau blaenoriaethol wedi'i chadarnhau trwy Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd; Cam 2 – 2018 – 2023 Cyflawni gwaith dichonoldeb, cynllunio a chyflawni trwy Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Metro.

Pam rydyn ni'n barnu y bydd ein Hamcan Llesiant yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gennym ni at y Nodau Llesiant cenedlaethol

Byddai nodau Cymru **Lewyrchus** a Chymru fwy **Cydnerth** yn cael eu cefnogi gan yr amcan hwn gan y bydd yn creu cyfleoedd cyflogaeth mewn amgylchedd carbon isel.

Bydd Cymru sy'n fwy **Cyfartal** lle gall pawb deithio o gwmpas a chael mynediad i gyfleoedd cyflogaeth neu gyfleoedd eraill yn gwella. Bydd y Metro, gyda chefnogaeth cynigion ar gyfer teithio llesol lleol, yn gwella hygyrchedd a chysylltedd i gyrchfannau hanfodol megis cyfleoedd cyflogaeth a gwasanaethau a chyfleusterau eraill, a fydd i gyd yn cyfrannu'n sylweddol at gynyddu ffyniant trwy dwf economaidd. Mae Llywodraeth Cymru yn ei strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb' wedi nodi mai sgiliau a chyflogadwyedd yw un o'i meysydd blaenoriaethol. Mae teithio a mynediad yn ffordd bwysig i sicrhau'r cysylltiad rhwng swyddi a phobl. Mae Llywodraeth Cymru'n ceisio cynyddu nifer y teithiau byrrach, mwy lleol, yr eir arnynt trwy gerdded a beicio (gan gynnwys defnyddio sgwteri symudedd), a elwir teithio llesol. Bydd teithiau gan ddefnyddio dulliau teithio llesol yn cynnwys rhai i'r ysgol, i'r gwaith, i'r siopau neu i wasanaethau lleol megis canolfannau ieuchyd neu

hamdden. Bydd cynyddu teithio llesol yn sicrhau buddion ychwanegol pwysig sef hybu ffyrdd iachach o fyw a lleihau effeithiau negyddol traffig ar ein cymdogaethau a'n cymunedau. Mae hyn yn cyfrannu at **Gymru Iachach**, oherwydd bydd rhaglen y Metro yn darparu system drafnidiaeth garbon isel gyflym ac effeithlon sy'n gwella hygrychedd a chysylltedd, gan gysylltu pobl â chyfleoedd cyflogaeth ac mae buddion y Fargen Ddinesig, sydd wedi'u gwireddu, yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gennym ni at Gymru sy'n **Gyfrifol ar lefel fyd-eang**. Byddai **Cymru o gymunedau cydlynus** yn cael budd gan y bydd yr amcan hwn yn sicrhau cymunedau sydd wedi'u cysylltu'n well trwy drafnidiaeth integredig ar lefel leol a rhanbarthol.



Sut y byddwn ni'n sicrhau adnoddau i'r Amcan Llesiant hwn

Mae'r Fargen Ddinesig hon yn ail-gadarnhau uchelgais cyffredin parhaus y ddwy Lywodraeth a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i gyflawni 2 gam cyntaf cynllun ehangach y Metro. Mae £325 miliwn o'r Gronfa Buddsoddi werth £1.2 biliwn eisoes wedi cael eu clustnodi i'r gwaith o gyflawni'r cynllun hwn (£125 miliwn oddi wrth Lywodraeth y DU, £94 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cymru a £106 miliwn oddi wrth Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop).

Mae cyflawni camau pellach cynllun y Metro yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru'n rhag-ddynodi mwy na £400 miliwn yn rhagor o gyllid o'r Gronfa Buddsoddi i'w cyflawni, ac mae'r gwaith cynllunio angenrheidiol ar y gweill. Fel rhan o'r Fargen Ddinesig hon mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i gynnwys Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn y gwaith o gydgyllunio cynllun ehangach y Metro ac yn y gwaith o gaffael sefydliad cyflawni.


Blaenoriaethau buddsoddi ehangach – Caiff y rhan sy'n weddill o'r Gronfa Buddsoddi ei defnyddio i fwrw ymlaen ag amrywiaeth fawr o brosiectau a chynlluniau sy'n cefnogi twf economaidd ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Caiff penderfyniadau ynghylch blaenoriaethu'r cynlluniau hyn eu gwneud gan Gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Gallai'r cynlluniau y bwrir ymlaen â hwy gynnwys: camau pellach o'r Metro; buddsoddi i ddatgloi safleoedd ar gyfer tai a chyflogaeth; a datblygu cyfleusterau ymchwil ac arloesi. Mae tocynnau integredig ar gyfer Caerffili a Chyngor Sir y Fflint wedi cael cyllid grant gan Lywodraeth Cymru.

Mae Awdurdodau Lleol wedi cynhyrchu Map Rhwydwaith Integredig, sy'n ddyletswydd statudol; mae hwn yn darparu map o ddyheadau sy'n nodi cynigion CBSC o ran Teithio Llesol am y 15 mlynedd nesaf. Bydd y gwaith o ddatblygu a darparu'r llwybrau a ddangosir ar y Map Rhwydwaith Integredig yn dibynnu ar argaeledd cyllid ar gyfer cynlluniau Teithio Llesol.

Pryd fydd yr amcan hwn yn cael ei gwblhau?

Mae rhaglen y Fargen Ddinesig dros gyfnod o ddeng mlynedd ond bydd y buddion, os cânt eu gwireddu, yn para cenhedlaeth (25 mlynedd) neu fwy, gydag amrywiaeth o gerrig milltir ar hyd y ffordd. Mae'r rhan fwyaf o'r mesuriadau wedi'u seilio ar brosiectau ac yn cael eu mesur ar hyn o bryd ar gerrig milltir. Golyga hyn y bydd mesuriadau penodol ar lwyddiant yr amcan yn cael eu

datblygu wrth i'r rhaglenni ddatblygu neu eu cysylltu â mesuriadau eraill mewn amcanion eraill megis yr Amcan 'Galluogi cyflogaeth'.



5. Creu bwrdeistref sirol sy'n cefnogi ffordd iach o fyw yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Canlyniadau

1. Anelu at leihau anghydraddoldebau iechydd ar draws y fwrdeistref sirol
2. Creu lle sy'n cefnogi ffordd iach o fyw.
Gan gynnwys -
 - Cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru i leihau cyfraddau ysmegu i 16% erbyn 2020
 - Lleihau'r cyfraddau gorbwysedd a gordewdra ymysg plant
 - Deall a mynd i'r afael â'r hyn sy'n helpu i annog pobl i ddod yn fwy corfforol egnïol

5. Creu bwrdeistref sirol sy'n cefnogi ffordd iach o fyw yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Datganiad Llesiant

Mae ein data'n dangos bod gan breswylwyr sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd uwch lefelau ystadegol uwch o afiechyd a'u bod yn byw mwy o flynyddoedd mewn iechyd gwael o gymharu â'r rheiny sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Mae disgwyliad oes yn amrywio'n sylweddol yn ôl ble mae pobl yn byw yn y fwrdeistref sirol. Mae data rhwng 2005 a 2009 yn dangos mai'r bwlch o ran disgwyliad oes iach, rhwng y preswylwyr sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig, oedd 18.6 blynedd i wrywod a 16.2 blynedd i fenywod. Mae data mwy diweddar, rhwng 2010 a 2014, yn dangos bod y bwlch hwn wedi lleihau i 13 blynedd i wrywod a 14.6 blynedd i fenywod, ond mae'n dal i fod yn arwyddocaol.

Mae ffyrdd afiach o fyw yn codi, o leiaf yn rhannol, oherwydd yr anghydraddoldebau yn yr amgylchiadau mae pobl yn cael eu geni, yn tyfu i fyny, yn byw ac yn gweithio ynddynt. Mae llawer o waith i'w wneud o hyd i leihau'r anghydraddoldebau hyn.

Mae cryn dipyn o waith partneriaethol wedi cael ei wneud yn y blynyddoedd diweddar ac wedi cyfrannu at y gwelliant hwn mewn anghydraddoldebau iechyd. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y bu newidiadau yn ddiweddar sydd wedi newid ffocws gweithredol y gwaith hwn. Mae hyn yn creu heriau a hefyd cyfleoedd h.y. newidiadau i raglenni Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg a gostyngiadau parhaus mewn cyllidebau, felly mae'n rhaid inni edrych ar ffyrdd gwahanol o gefnogi gwell iechyd a dylanwadu lle gallwn.

Gall ymddygiad unigolyn o ran ei ffordd o fyw effeithio ar ei risg o gael afiechyd a marw cyn pryd. Ar hyn o bryd **ysmygu** yw achos ataliadwy mwyaf afiechydon a marwolaethau yng Nghymru. Mae'n cyfrannu'n uniongyrchol at anghydraddoldebau iechyd gan fod bron traean o'r preswylwyr yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig yn ysmegu (29%) o gymharu ag 11% yn ein hardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae 18% o oedolion ym mwrdeistref sirol Caerffili'n dweud eu bod yn ysmegu (2016/17). Mae hyn wedi gostwng o 23% yn 2010/11 ac mae ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 19%, ac yn adlewyrchu'r duedd genedlaethol ar i lawr.

Gordewdra – Erbyn 2050 rhagwelir y bydd 60% o ddynion **mewn oed** a 50% o fenywod **mewn oed** yn ordew ac y bydd 25% o blant o dan 16 oed yn ordew. Ym mwrdeistref sirol Caerffili roedd y ganran uchaf o oedolion sydd dros eu pwysau neu'n ordew yng Ngwent (63%) yn 2014/15 ac roedd hon yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 59% (2014/15). Mae cyfraddau gordewdra'n codi'n gyflymach yng Ngwent nag yng Nghymru gyfan. Mae'r cyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â gordewdra'n cynnwys diabetes Math II, clefyd coronaidd y galon, pwysedd gwaed uchel, strôc a mathau o ganser.

Mae'r effeithiau ehangach yn cynnwys llai o gyfraniad i fywyd teuluol a'r gymuned; llai o gyfleoedd cyflogaeth; llai o incwm; cynhyrchiant is ac absenoliaeth; perfformiad gwael yn yr ysgol a lles meddyliol gwael. Mae mwy na chwarter (2014/15) 27% o'r plant 4/5 oed ym mwrdeistref sirol Caerffili dros eu pwysau neu'n ordew. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Gwent a chyfartaledd Cymru ac yn frawychus o uwch nag yn unrhyw un o ranbarthau Lloegr.

Mae gordewdra'n niweidio **plant** yn y tymor byr, ond gan fod hyd at 80% o blant yn mynd ymlaen i fod yn oedolion gordew, mae gordewdra ymysg plant hefyd yn niweidio cyfleoedd bywyd.

Canfu lechyd Cyhoeddus Cymru hefyd fod gorbwysedd a gordewdra ymysg plant 4-5 oed yn cynyddu wrth i amddifadedd gynyddu. Mae hyn yn golygu bod yna ddadl economaidd gref dros fuddsoddi ym mlynnyddoedd cynnar bywyd gan fod rhaglenni'r blynyddoedd cynnar yn aml yn llai drud na'r gwasanaethau mae eu hangen i fynd i'r afael â chanlyniadau corfforol, meddyliol, ymddygiadol ac economaidd gymdeithasol datblygiad gwael ym more oes yn ogystal â gwella ansawdd bywyd. Mae tystiolaeth yn dangos bod plant â lefelau uchel o ffitrwydd corfforol yn cael canlyniadau academaidd uwch a bod y rhai â lefelau ffitrwydd is yn cael canlyniadau academaidd is (*ffynhonnell: Journal of Paediatrics*) a bod ar blant angen o leiaf 1 awr o weithgarwch corfforol bob dydd. Cefnogodd astudiaethau gan lechyd Cyhoeddus Cymru (Tachwedd 14) ganfyddiadau allweddol bod disgyblion ag ieuchyd a lles gwell yn fwy tebygol o gyflawni'n well yn academaidd a bod cysylltiad cadarnhaol yn bodoli rhwng cyrhaeddiad academaidd a lefelau o weithgarwch corfforol. Roedd ymchwil y University of Strathclyde and Dundee (2012) yn awgrymu bod gweithgarwch corfforol o fudd arbennig i berfformiad merched mewn gwyddoniaeth a bod plant oedd yn cael ymarfer corff yn rheolaidd nid yn unig yn gwneud yn well yn academaidd yn 11 oed ond hefyd yn 13 oed ac yn eu harholiadau yn 16 oed.

Gan adeiladu ar hyn cyflwynasom fenter o'r enw 'The Daily Mile' gydag un nod syml - helpu plant i ddod yn ffithrwy gerdded neu redeg am 15 munud bob dydd. Bydd hyn yn gwella ieuchyd a lles corfforol, emosiynol a chymdeithasol ein plant gwaeth beth fo eu hoed neu eu hamgylchiadau personol. Mae'n annog plant i fod yn fwy egniol ac yn eu helpu i ddeall buddion ieuchyd a lles corfforol a meddyliol ac mae'n ennill momentwm ar draws ein hysgolion a rhanbarth Gwent.

Mae arnom ddyletswydd statudol i gynhyrchu 'Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae' bob 3 blynedd i'r fwrdeistref sirol gan gydnabod gwerth cyfleoedd chwarae a mannau agored i ieuchyd a lles. Rydym yn defnyddio pecyn cymorth ac yn mapio'r mathau o leoedd sydd gennym yn erbyn safonau cydnabyddedig mewn amrywiaeth o feysydd megis lleoedd chwarae dan oruchwyliaeth a heb oruchwyliaeth ac yn nodi sut rydym ni a'n partneriaid yn bwriadu cynnig cyfleoedd chwarae sy'n gynhwysol ac yn annog yr holl blant i chwarae a chyfarfod â'i gilydd. Mae'r asesiad yn cynnwys cydnabod cyfleoedd chwarae mewn mannau agored ac rydym wedi datblygu ein safonau ein hunain ar fannau agored yn unol â chynghor a gofynion rheoliadau cynllunio.

Caiff ffactorau ehangach fel teithio i barciau a chostau eu hystyried wrth asesu cyfleoedd chwarae ac ymarfer corff. Gallwn ddarparu tystiolaeth o gryfderau o ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn mewn modd cydweithredol ac rydym wedi nodi camau gweithredu i'w cymryd megis y 'Newid ar Raddfa Fawr' sy'n hybu gweithgarwch corfforol yn ardal Blaenau'r Cymoedd i fenywod 14-40 oed. Caiff hyn ei gydategu gan waith sy'n parhau ar raglen 'Gwent Egniol'.

Yn gyffredinol, bu cynnydd mewn cyfranogiad o'r naill flwyddyn i'r llall ac mae mwy na hanner yr holl blant wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau 5 x 60 munud o leiaf unwaith. Mae cyfraddau cyfranogiad yn rhaglen allgyrsiol Aml-sgiliau'r Ddraig, sydd wedi'i bwriadu i gynnig cyfleoedd chwaraeon hwyliog a phleserus i blant 7-11 oed, hefyd yn cynyddu bob blwyddyn. Mae cynnydd sylweddol yn nifer y clybiau sy'n cael eu rhedeg mewn ysgolion cynradd a chymunedau chwaraeon er mwyn sicrhau bod llwybr chwaraeon ar waith. Bu cynnydd hefyd yn nifer y cyfleoedd i blant 3-6 oed oherwydd y rhaglen llythrennedd corfforol. Mae hon yn rhoi sesiynau i blant bach megis pêl-droed, pêl-rwyd, rygbi a chriced ac yn cynnwys y gofawyr. Mae menter nofio am ddim ar ddyddiau Gwener yn yr holl ganolfannau hamdden yn rhedeg ar hyn o bryd ac mae cyfraddau cyfranogiad wedi cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall. Cynigiasom hefyd nofio am ddim yn ystod oriau nofio

cyhoeddus i blant oedd yn cymryd rhan mewn gwersi nofio ac, er mwyn ateb y galw, mae sesiynau nofio strwythuredig ychwanegol am ddim wedi cael eu trefnu yn ystod gwyliau'r ysgol.

Lansiwyd Rhwydwaith Cymru **Cynlluniau Ysgolion Iach** yn 1999 i hybu datblygiad cynlluniau ysgolion iach lleol. Darparodd Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru gyllid a chyfarwyddyd i helpu gwasanaethau iechyd ac addysg mewn partneriaeth i sefydlu a rhedeg cynlluniau ysgolion iach lleol ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol ledled Cymru. Ers ei sefydlu yn 2001 mae Cynllun Ysgolion Iach Caerffili wedi tyfu'n gyflym ac erbyn hyn mae pob un o'r ysgolion yn cymryd rhan weithredol ynddo. Ein nod yw cynorthwyo ysgolion i ddatblygu ymagwedd ysgol gyfan at iechyd trwy 7 maes allweddol:

- Bwyd a Ffitrwydd
- Iechyd a Lles Meddyliol ac Emosiynol
- Datblygiad Personol a Pherthnasoedd
- Amgylchedd
- Defnyddio a chamddefnyddio sylweddau
- Diogelwch
- Hylendid

Ers 2010 mae ysgolion wedi cael y cyfle i gael achrediad cenedlaethol olaf am ymarfer rhagorol gyda Gwobr Ansawdd Genedlaethol Llywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio gyda'n hysgolion i gael y wobr gan y bydd hyn yn dangos nid yn unig eu bod wedi cyrraedd y safon hon ond wedi gwneud hynny ers 9 mlynedd neu fwy.

Dechreuwyd Cynllun **Blynyddoedd Cynnar Iach Caerffili** yn 2008 er mwyn rhoi rhagor o gymorth i leoliadau'r blynyddoedd cynnar a gofal plant hybu iechyd a lles y gymuned gyfan, gan gynnwys plant, rhieni/ gofalwyr ac aelodau o'r staff. Ers 2004, mae lleoliadau'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yn y fwrdeistref wedi bod yn cymryd rhan yng nghynllun dyfarniad Byrbrydau Iach Safon Aur Caerffili, ac mae'r mwyafrif o'r lleoliadau wedi llwyddo i gael y dyfarniad, gan ddarparu'r sail i gyflwyno cynllun Blynyddoedd Cynnar Iach.

Mae cynllun Blynyddoedd Cynnar Iach yn ymestyn gwaith 'Cynllun Ysgolion Iach Caerffili' sy'n rhan o 'Gynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru' o eiddo Llywodraeth Cymru. Gan fod yr holl ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghaerffili'n gweithio tuag at fod yn ysgol iach, mae ffocws ar weithgareddau a pholisi sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yn cynnig dilyniant i blant wrth iddynt symud i addysg statudol, yn ogystal â gwella eu datblygiad yn ystod y blynyddoedd cyn-ysgol. Mae cynllun Blynyddoedd Cynnar Iach yn cynnwys arferion gorau i ennyn diddordeb plant a'i gwneud yn bosibl datblygu agweddau ac ymddygiadau iach ym more oes a fydd yn parhau trwy gydol eu oes. Mae'n cysylltu'n agos â'r rhaglen Atal Gordewdra trwy annog rhieni i fod yn fwy egniol gyda'u plant a thrwy hyrwyddo'r 10 Cam at Ffordd Iach o Fyw.

Mae'r cynllun yn hyfforddi ar amrywiaeth o weithgareddau megis sesiynau coginio '3 Sticky Fingers', Ffa La La (llythrennedd corfforol a symudiad trwy gyfwng y Gymraeg), Brilliant Babies, hyfforddiant ar sefyllfaoedd trawmatig ac ymwybyddiaeth ofalgar, i deuluoedd ymwybodus. Rydym hefyd yn cynnal cwrs Diogelwch Tân a phedwaredd sesiwn ar Ddiogelwch ar y Rhyngwrwyd. Mae'r holl hyfforddiant hwn yn ychwanegol at Busy Feet (ymarfer ynghylch Maeth ac Iechyd y Geg) a'r Cynllun Gwên. Mae hwn yn gynllun llwyddiannus y mae nifer fawr o'n darparwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant wedi cymryd rhan ynddo dros ddeng mlynedd.

Rydym yn cynnig cyfleoedd chwaraeon i oedolion a phobl ifanc ag **anableddau**. Gan gydweithio â Chwaraeon Anabledd Cymru rydym yn darparu mynediad i ganolfannau hamdden, clybiau cymunedol, cynlluniau gwyliau ysgol a rhaglen insport. Rhoddwyd i'r Tîm Chwaraeon a Hamdden Ddyfarniad Rhuban insport, sy'n cydnabod popeth a wnawn i greu cyfleoedd chwaraeon cynhwysol i bobl anabl. Mae ein rhaglen yn ystod gwyliau'r ysgol yn rhoi cyfle i bobl ifanc roi cynnig ar weithgareddau chwaraeon newydd a chyffrous a ddarperir gan ein hyfforddwyr arbenigol a gwirfoddolwyr. Gellir teilwra'r rhaglen gwyliau i anghenion a gofynion yr unigolyn.

O ran gweithgarwch corfforol, 26% o **oedolion** ym mwrdeistref sirol Caerffili a ddywedodd eu bod wedi cydymffurfio â'r canllawiau ar gyfer ymarfer corff/ gweithgarwch corfforol yn ystod yr wythnos flaenorol yn 2014-15. Mae hyn yn cymharu â ffigwr o 28% yng Ngwent a 31% yng Nghymru gyfan. Mae'r wyddoniaeth ar fuddion gweithgarwch corfforol yn glir ynghylch y buddion ac effeithiau mawr y gall eu cael ar iechyd, ac iechyd a lles meddyliol cymedrol ehangach.

Mae **Gwent Egnïol** yn gydweithrediad rhanbarthol ar draws Gwent. Ei weledigaeth yw gwella llythrennedd corfforol, hybu dyfodol cadarnhaol a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn cymunedau trwy chwaraeon. Mewn amrywiaeth o ffyrdd nod y bartneriaeth yw cael 75% o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon erbyn 2027; 55% yw targed carreg filltir 2018. Mae'r bartneriaeth wedi edrych ar chwaraeon blaenoriaethol sy'n gyffredin ar draws y pum awdurdod lleol sy'n helpu i ateb y galw sylfaenol. O dan thema 'mynd i'r afael ag anghydraddoldebau', mae plant a phobl ifanc o gymunedau difreintiedig sy'n byw mewn tlodï'n cael eu cynorthwyo trwy raglen cynhwysiant cymdeithasol o'r enw 'Positive Futures' gan ddefnyddio chwaraeon i ymgysylltu â'r bobl ifanc hyn. Yng Nghaerffili mae'r momentwm wedi parhau o 6,778 o fynychiadau yn 2015/16 i fwy na 9,000 o fynychiadau yn 2017.

Mae cynyddu cyfranogiad merched a menywod yn bwysig er iechyd a buddion eraill felly yn 2016 lansiodd y cydweithrediad fenter o'r enw 'Lets Go Girls' sy'n caniatáu i ddarparwyr gweithgareddau a benywod sydd â diddordeb mewn cymryd rhan mewn gweithgareddau gysylltu â'i gilydd. Cafwyd rhywfaint o lwyddiant wrth helpu mamau ag iselder ar ôl geni gyda'n menter 'Mams with prams' ac mae eraill wedi cymryd rhan mewn sesiynau pêl-rwyd. Yng Nghaerffili ac yn y rhanbarth byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gyfranogiad merched a menywod mewn gweithgarwch gan mai mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yw un o'n blaenoriaethau.

Un o'r ffyrdd rydym yn cyfrannu at amgylchedd iachach ac yn hyrwyddo ein cyfleusterau twristiaeth yw ras flynyddol **10 cilomedr Caerffili** a gynhelir am y chweched tro yn 2018 ar ddydd Sul, 20 Mai, ynghyd â 2k Caerffili, sy'n ddeniadol i redwyr iau. Disgwylir i 2,500 o redwyr o bob gallu ddod i Gaerffili o bob rhan o'r wlad i fwynhau'r digwyddiad, ac rydym yn ffyddiog y bydd ras 2018 yn fwy ac yn well. Mae 10 cilomedr Bryn Meadows Caerffili, a gynhelir yng nghysgod Castell ysbennydd Caerffili, yn rhoi cyfle i redwyr profiadol a dechreuwyr fel ei gilydd redeg ar gwrs cymharol wastad gyda rhywfaint o rannau tonnog, yn erbyn cefndir hanesyddol. Ceir rhagor o fanylion ar www.caerphilly10k.co.uk

Gan ddefnyddio ymarfer corff i wella iechyd mae'r **Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff** yn gynllun a gyllidir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd wedi bod yn cael ei ddatblygu ers 2007. Mae'r Cynllun yn targedu cleientiaid 16 oed a hŷn sydd â chlefyd cronig neu sydd â risg o ddatblygu un. Mae'r cynllun yn cael ei gydgyssylltu'n ganolog gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac mae wedi sicrhau cyllid tan 31 Mawrth 2019. Mae'r Cynllun yn ymyriad iechyd seiliedig ar dystiolaeth sy'n cynnwys gweithgarwch corfforol a thechnegau newid ymddygiad i gynorthwyo'r cleientiaid a atgyfeirir i wneud newidiadau i'w ffordd o fyw er mwyn gwella eu hiechyd a'u lles. Prif nodau'r Cynllun a redwn yw:

- Cynnig Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff o ansawdd da ledled Cymru
- Cynyddu ymrwymiad y cleientiaid i weithgarwch corfforol yn y tymor hir
- Gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl y cleientiaid
- Canfod pa mor effeithiol yw'r ymyriad wrth gynyddu lefelau gweithgarwch y cleientiaid a gwella eu hiechyd

Ar hyn o bryd mae rhwng 1000 a 1200 o bobl y flwyddyn yn cymryd rhan ac mae ein hatgyfeiriadau'n cynyddu gan fod y cynllun yn helpu i wella ansawdd bywyd y cyfranogwyr.

Awyr Agored, Parciau a Chefn Gwlad

Mae'n bwysig inni ddeall amrywiaeth o weithgareddau sy'n cyfrannu at greu man lle gall pobl fwynhau ffordd iachach o fyw (yn hytrach na chanolbwyntio ar chwaraeon yn unig). Rydym hefyd eisiau adeiladu ar ein cryfderau. Er enghraifft, rydym yn ffodus o ran faint o fannau gwyrdd sydd ar gael ac y gellir eu defnyddio i hybu llesiant. Mae rhyw 80% o'r fwrdeistref sirol wedi'i chategoreiddio fel cefn gwlad ac yn yr ardaloedd hyn ceir amrywiaeth o dirweddau gan gynnwys ucheldiroedd hygyrch a chyrrff dŵr sylweddol, mwy na 800km o hawliau tramwy cyhoeddus, pum prif barc gwledig, Gwarchodfa Natur Genedlaethol a nifer o ardaloedd a chyfleusterau eraill y gellir eu defnyddio fel rhan o'r gwaith o hybu ffyrdd iachach o fyw.

Mae Caerphilly Adventures hefyd yn defnyddio ein mannau gwych yn yr awyr agored i weithio gyda phobl ifanc a'u teuluoedd i wella perthnasoedd teuluol, rhianta, hyder a hunan-dyb trwy gyfrwng gweithgareddau awyr agored. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i oedolion a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored megis cerdded bryniau, canŵio, dringo creigiau, ogofa a phadlo bwrdd ar eich traed, trwy gynnal amrywiaeth o gyrsiau. Mae Caerphilly Adventures hefyd yn darparu hyfforddiant ar gerdded bryniau a chymorth cyntaf er mwyn galluogi oedolion i arwain grwpiau yn yr awyr agored yn ddiogel. Mae Gwobr Dug Caeredin yn cyflawni'r amcanion llesiant trwy ei gwahanol rannau: gwirfoddoli, gweithgarwch corfforol, sgiliau ac alldaith. Mae Caerphilly Adventures hefyd yn cefnogi CAG sef rhwydwaith o wirfoddolwyr sy'n trefnu gweithgareddau awyr agored i'w aelodau.

Nod gwahanol fentrau Llywodraeth Cymru yw hybu defnyddio seilwaith gwyrdd i gyflawni'r amcanion a ddymunir a ragnodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd. Yn sail i'r rhain mae egwyddor rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, sy'n cael ei hyrwyddo gan Cyfoeth Naturiol Cymru ond sy'n berthnasol i ninnau ac yn cael ei chefnogi gennym. Mae'r 'gwasanaethau' a ddarperir gan ein hadnoddau naturiol yn chwarae rhan sylweddol yn ein hiechyd ac mae potensial i'w cynyddu. Un fenter bwysig i hybu'r cynnydd hwn, trwy fwy o ddefnydd o seilwaith gwyrdd, yw datblygu cynllun rhanbarthol 'Parc Tirwedd y Cymoedd', sy'n cael ei ysgogi gan Lywodraeth Cymru ond a fydd yn cael ei gyflawni gan fwyaf trwy gamau gweithredu asiantaethau partner. Rydym yn datblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd i gefnogi hyn.

Yn 2015 adolygasom ein Darpariaeth Hamdden Awyr Agored gan edrych ar y ddarpariaeth chwarae â chyfarpar; caeau chwaraeon; rhandiroedd a'n mannau gwyrdd. O hyn mapiasom yr ardaloedd yr oedd arnynt angen mwy o gyfleusterau a'r ardaloedd oedd â digon eisoes. Mae adolygu'r hyn sydd gennym yn golygu y gallwn ganfod bylchau yn y ddarpariaeth ac mae hyn yn ein galluogi i dargedu'r bylchau hynny pan fo arian ar gael o wahanol ffrydiau cyllido. Edrychodd ein hadolygiad hefyd ar ansawdd a hygyrchedd a chododd camau gweithredu rydym yn dal i weithio arnynt, er enghraifft mae safonau draenio gwael wedi effeithio ar gaeau chwaraeon yn y fwrdeistref sirol, sy'n effeithio ar argaeledd y cae yn ystod y tymor chwarae ac ar safon y wyneb chwarae. Rydym wedi rhoi rhaglen draenio ar waith i wella hyn. Nodwyd bod cyfleoedd chwarae

anturus yn yr awyr agored, yn enwedig i ddarparu meysydd chwarae anturus diogel addas i bobl ifanc er mwyn hybu defnyddio mannau yn yr awyr agored, yn un o flaenoriaethau'r Fforwm leuenctid ar gyfer 2017 yn dilyn pleidlais yn ei Gynhadledd Flynyddol. Mae'r Fforwm yn cynnwys pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed o bob rhan o'r fwrdeistref sirol.

Mae'r gwaith o greu amgylchedd iach yn cynnwys ein '**Strategaeth Coed**' gan fod gennym tua 250,000 o goed ar draws y fwrdeistref sirol, a chan fod llawer o fuddion i goed sy'n cael eu rheoli'n dda. Maent yn adnodd cyhoeddus pwysig sy'n cynhyrchu ocsigen, yn amsugno carbon deuocsid a llygryddion, yn darparu cartrefi, lloches a bwyd i fywyd gwylt, a gallant ddarparu clustogfa rhag llygredd sŵn, i enwi ond ychydig o bethau. Gwyddys eu bod yn lleddfu straen bywydau modern ac yn darparu cysgod a lloches i leddfu effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Cadw'r amgylchedd yn lân

Gwyddom o arolwg aelwydydd y Cyngor a'r Panel Safbwynt fod glanweithdra'n dal i fod yn destun pryder yn ein cymunedau a'n hamcanion o hyd yw cadw'r strydoedd a'r priffyrdd cyhoeddus yn lân ac yn rhydd rhag sbwriel a graffiti i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol. Mewn perthynas â gweithgarwch corfforol mae'n well gan lawer o bobl gerdded â'u cŵn, beicio neu gerdded i'r gwaith, er enghraifft, a defnyddio'r awyr agored yn hytrach na mynd i ganolfannau hamdden neu gymryd rhan mewn chwaraeon. Gall amgylchedd â sbwriel, gwydr wedi torri, tipio anghyfreithlon neu faw cŵn, er enghraifft, fod yn rhwystr sy'n atal pobl rhag mwynhau eu mannau awyr agored arferol.

Mae'r rhan fwyaf o'n gweithgareddau glanhau a gorfodi ar y strydoedd (megis dirwyo pobl nad ydynt yn ufuddhau i'r gyfraith) yn mynd rhagddynt fel arfer. Fodd bynnag, rydym yn cynnal amrywiaeth o fentrau megis ein hymgyrch ymwybyddiaeth amgylcheddol 'Digon yw Digon', lle rydym wedi cymryd nifer o gamau newydd megis gosod Gorchymyn Gwarchod Man Cyhoeddus ar y parc yn Ystrad Mynach. Nod y Gorchymyn hwn yw mynd i'r afael â pherchnogaeth anghyfrifol ar gŵn a baw cŵn trwy wella gallu'r Cyngor i gymryd camau gorfodi.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Dyddodi Gwastraff Heb Awdurdod (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2017 ar 25 Hydref 2017. Mae'r rhain yn rhoi mwy o bwerau i Gynghorau ddirwyo 'troseddwy'r tro cyntaf' mewn perthynas â thipio anghyfreithlon gyda hysbysiad cosb penodedig. Mae hyn yn osgoi'r angen i fynd i'r llys yn y lle cyntaf ond mae'r gosb wedi'i phennu fel swm nad yw'n cymell parhau i gyflawni troseddau amgylcheddol. Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o fesuriadau perfformiad mewn perthynas â glanweithdra a gorfodi i wneud cysylltiadau gwell â chreu mannau sy'n cefnogi ffordd iachach o fyw.

Mae angen i Iechyd a Lles fod yn rhan annatod o'n bywyd beunyddiol ac fel y cyflogwr mwyaf yn y fwrdeistref sirol, rydym yn cydnabod bod gwella iechyd a lles ein staff o fudd i bawb. Gall newidiadau bach a syml i ffordd o fyw helpu i atal afiechydon megis strôc, canser, diabetes a chlefyd y galon. Yng ngoleuni hyn rydym wedi sefydlu **Grŵp Iechyd a Lles** gyda'r nod o'i gwneud yn hawdd i'n gweithwyr gael gwybodaeth ynghylch gwella eu hiechyd a lles cyffredinol.

Gan fod tua 75% o'n gweithwyr yn byw yn y fwrdeistref sirol bydd unrhyw welliannau i ffordd o fyw y bydd y gweithwyr yn eu rhannu gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau o fudd i'n cymunedau'n ehangach. At ei gilydd mae atal iechyd gwael ar draws y boblogaeth yn fwy effeithiol wrth leihau anghydraddoldebau iechyd na gweithgarwch meddygol neu glinigol ac mae angen i lawer o bartneriaid gydweithio. Byddai llwyddiant yn y maes hwn yn arwain at arbedion hirdymor trwy leihau risg problemau iechyd a chymdeithasol ac yn gwella rhagolygon addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Y pum ymddygiad iach o ran ffordd o fyw a gydnabyddir yn genedlaethol (Iechyd Cyhoeddus Cymru) yw – peidio ag ysmygu, yfed alcohol mewn modd call, bod â phwysau corff iach, gweithgarwch corfforol rheolaidd a diet cytbwys. Y ffordd orau o fynd i'r afael â'r ffactorau uchod yw mewn partneriaeth gyda llawer o sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat gan na all unrhyw asiantaeth wneud hyn ar ei phen ei hun.

Yn wir mae ein Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn edrych ar sut y gallwn feithrin gwydnwch ar draws cwrs bywyd er mwyn atal ansawdd bywyd gwael oherwydd iechyd gwael ac wedi nodi maes gweithredu yn y Cynllun Llesiant drafft (a gyhoeddir ym mis Mehefin 2018) ar gyfer 'Iechyd a Lles Da'. Bydd meysydd gweithredu'n pennu cynlluniau cyflawni i gymryd camau penodol i wella hyn a byddwn yn cyfrannu'n llawn at y maes gwella hwn.

Sut ddefnyddiasom y '5 ffordd o weithio' i bennu'r amcan Llesiant hwn?

Cynnwys - Ni ellid byth cyflawni'r amcan hwn ar wahân ac mae'n rhaid i'r unigolyn a llawer o bartneriaid gymryd rhan er mwyn gwella ansawdd bywyd unigolion. Mae angen i'r prif waith ymgysylltu fod gyda dinasyddion gan ddefnyddio egwyddorion 'cyd-gynhyrchu' (sy'n dechrau o'r syniad nad yw unrhyw grŵp neu berson yn bwysicach na neb arall a bod gan bawb sgiliau, galluedd ac amser i'w cyfrannu). Yn benodol rydym yn cynnwys ac yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid megis Iechyd Cyhoeddus Cymru, ysgolion a rhieni (ar gyfer mentrau fel cynllun y Daily Mile). Mae natur gwaith atal iechyd gwael yn galw am gynnwys yr unigolyn yn ogystal â gwasanaethau iechyd, ymarferwyr cyffredinol, Ymwelwyr Iechyd, y sector gwirfoddol a grwpiau lleol megis grwpiau cerdded. Er enghraifft, mae gan y cynllun cerdded 'Calonnau Iach', ar y cyd â'r GIG, 3000 o gyfranogwyr yng Nghaerffili. Menter arall yw Partneriaeth Tirwedd Ddeddyrain Caerffili, sy'n ymwneud â datblygu'r potensial sydd gan ymylon trefol a chefn gwlad ddeddyrain Caerffili o ran hamdden. Mae'r fenter hon yn cael ei harwain gan y cymunedau a dylai fod â buddion arbennig i Barc Lansbury, ein hardal fwyaf difreintiedig.

Hirdymor – Mae'r amcan hwn wedi'i fframio yn y tymor hir o gwrs bywyd hyd cenhedlaeth er mwyn mynd i'r afael â goblygiadau hirdymor iechyd gwael sy'n effeithio ar ansawdd bywyd a'r economi ehangach os nad ydym yn gwella'r sefyllfa bresennol. Mae'r amcan hwn yn dechrau o'r cyfnod cyn beichiogi a 0-3 oed yn y rhaglen Dechrau'n Deg ac yn mynd ymlaen i leoedd iach i oedolion a phlant. Mae cyfleoedd i wella iechyd wrth ddatblygu Parc Tirwedd y Cymoedd yn ymrwymiad hirdymor dros genhedlaeth ac mae'n debyg y bydd yn rhedeg am y 25 mlynedd nesaf.

Cydweithredu – Fel y nodir o dan y pennawd Cynnwys rhaid inni gydweithredu i wella'r agwedd hon. Mae gormod o bartneriaid i'w rhestru yma ond mae staff o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru i gyd yn cyflawni gweithgareddau mewn partneriaeth. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) awydd a pharodrwydd i ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio eu safleoedd ar gyfer hamdden awyr agored ac mae grŵp Swyddogion Cefn Gwlad De Cymru'n cydweithredu er mwyn sicrhau y caiff mentrau lleol a rhanbarthol eu datblygu a'u gwireddu er mwyn hybu buddion i iechyd, yn arbennig trwy reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

Integreiddio – Mae iechyd da yn sylfaen i'r holl amcanion llesiant eraill oherwydd heb iechyd da nid oes modd cyflawni llawer o amcanion eraill megis cynnal cyflogaeth gynaliadwy, gwneud yn fawr o addysg a chyfleoedd ansawdd bywyd cyffredinol. Bydd llwyddiant yr amcan hwn yn cyrraedd nodau'r sefydliadau eraill a restrir yma gan ein bod ni i gyd eisiau sicrhau'r un canlyniadau.

Atal – Nod yr amcan hwn yn ei gyfanrwydd yw atal iechyd gwael a meithrin mwy o wydnowch ymysg ein dinasyddion dros gwrs bywyd er mwyn galluogi ansawdd bywyd gwell. Mae llawer o gyfraniadau at y maes hwn nad ydynt bob amser yn amlwg ar unwaith. Er enghraifft mae gennym raglen cyfalaf i wella draenio ar gaeau chwarae a fydd yn caniatáu i gemau gael eu chwarae yn ystod cyfnodau o dywydd gwael; bydd gwell draenio'n sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o'r caeau ac felly yn atal canslo gemau ac yn caniatáu i chwaraeon fynd rhagddynt. Yn ganolog i allu pobl i weithio, dysgu a mwynhau ansawdd bywyd da, iechyd a lles da yw'r man cychwyn ar gyfer pob cyfle arall. Gellir lleihau'r galw ar wasanaethau sydd eisoes dan bwysau, megis gofal cymdeithasol a gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd, trwy gynorthwyo preswylwyr i fod â bywyd iach ac annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl.

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd i gyrraedd y nod hwn?

Bydd cynllun gweithredu manwl yn cael ei ddatblygu dros y 4-5 mlynedd nesaf. Isod nodwn rai o'r prif gamau y byddwn yn eu cymryd dros y cyfnod hwn:

Canlyniadau	Pryd (Amserlen)
Canlyniad 1: Anelu at leihau anghydraddoldebau iechyd	
Parhau i gynyddu rhaglen y 'Daily Mile' mewn ysgolion ar draws y fwrdeistref sirol.	2018-2023
Parhau â rhaglen Calonnau Iach mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.	
Cynnal ein gwasanaeth allgymorth iechyd (contract a rennir) i ddarparu rhaglenni bwydo ymatebol a chlybiau babanod fel rhan o ddatblygiad plant.	2018-2021
Rhedeg a chynyddu'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol yn Haf 2019. Mae'r prosiect yn darparu bwyd, maeth, gweithgarwch corfforol yn ystod gwyliau'r haf gan helpu ardaloedd sydd â nifer uchel o blant ar brydau ysgol am ddim.	2018-2021
Hyrwyddo rhaglen Ysgolion Iach (rhaglen gan Lywodraeth Cymru, Iechyd y Cyhoedd ac Addysg) i gyflawni camau gweithredu penodol i wella iechyd plant.	2018/19
Anabledd mewn Chwaraeon – cynnig cyfleoedd chwaraeon i unigolion ag anableddau.	2018-2023
Cymryd rhan mewn rhaglen gydweithredol 'newid ar raddfa fawr': Let's Go Girls (ymgyrch i ddarbwyllo mwy o ferched a menywod 14-40 oed i fod yn fwy egniol, yn amlach trwy wahanol fathau o waith ymgysylltu trwy weithgarwch corfforol).	2018/19
Cefnogi mwy o weithgarwch corfforol trwy barhau i ddarparu rhaglenni wedi'u targedu yn lleol ac yn rhanbarthol megis ' Positive Futures ', sef rhaglen cynhwysiant cymdeithasol (wedi'i seilio ar chwaraeon) sy'n defnyddio chwaraeon fel ffordd i ennyn diddordeb pobl ifanc mewn cyfleusterau cymunedol lleol, a thrwy broses atgyfeirio oddi wrth amrywiaeth o asiantaethau partneriaethol.	Parhaus (2018-2023)
Llwybrau Chwaraeon – dull wedi'i dargedu o helpu clybiau i ddatblygu eu sylfaen chwarae, hyfforddi a gwirfoddoli.	2018-2020

Canlyniadau	Pryd (Amserlen)
Cwblhau Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i asesu'r bylchau yn y ddarpariaeth a nodi camau gweithredu gwella	Mawrth 2019
Canlyniad 2: Creu lle sy'n cefnogi ffordd iach o fyw.	
Rhoi ar waith Strategaeth Chwaraeon a Hamdden ar draws y fwrdeistref sirol gyfan er mwyn pennu gweledigaeth a chamau gweithredu penodol i gynnal	Haf 2018
Sefydlu grŵp Iechyd a Lles i'n gweithwyr er mwyn darparu gwelliannau i ffordd o fyw a all fod o fudd i'r cymunedau ehangach.	2018/19
Hyrwyddo a chynnal Cynllun Elitaidd Caerffili 2018 (Nod hwn yw lleihau baich ariannol costau hyfforddiant i athletwyr talentog, y mae llawer ohonynt ag uchelgais i gynrychioli Cymru a/neu Brydain yn eu chwaraeon ar y llwyfan rhyngwladol.	2018-2023
Hybu mynediad i'n parciau a chefn gwlad a defnydd ohonynt (Rhaglenni Datblygu Gwledig), trwy gerdded a beicio a digwyddiadau megis 'Her Caerffili'.	Parhaus (2018-2023)
Erbyn 2020 anelu at darged Llywodraeth Cymru i ostwng y gyfradd ysmegu i 16% - Gwaith addysg/ ymwybyddiaeth i fasnachwyr ynghylch y terfyn oed 18 ar brynu cynhyrchion tybaco. Rhoi pecynnau Dim Prawf Dim Gwerthiant i fasnachwyr sy'n cynnwys canllawiau i fasnachwyr, eitemau i'w harddangos mewn siopau a gwybodaeth i gyflogeion. - Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o gardiau Prawf Oedran ymysg pobl ifanc 16-18 oed trwy ysgolion a cholegau.	
Cyflawni'r camau gweithredu yn ein Strategaeth Coed	2018-2023

Pam rydyn ni'n barnu y bydd ein Hamcan Llesiant yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gennym ni at y Nodau Llesiant cenedlaethol

Cymru **lewyrchus** – Mae ymchwil yn awgrymu bod pobl ifanc sy'n iachach yn fwy tebygol o berfformio'n well yn yr ysgol ac yn llai tebygol o fod yn ddi-waith, bod yn cael budd-daliadau neu gyflawni troseddau. Mae gan bobl o unrhyw oed sy'n iach fwy o botensial i wneud gwaith am dâl neu'n ddi-dâl. Bydd iechyd da ac ymddibyniaeth bersonol yn cynorthwyo preswylwyr o bob oed i fod yn rhan lawn o'r farchnad lafur a helpu i gyfrannu at fwrdeistref sirol lewyrchus. Bydd rhoi y dechrau gorau mewn bywyd i'r holl blant yn sicrhau bod ganddynt y cymorth mae arnynt ei angen i wireddu eu potensial addysgol llawn, y gallant sicrhau gwaith boddhaus ac ystyron ac y byddant yn dod yn aelodau cynhyrchol o'r gymdeithas. Gall ein hamgylchedd a'n mannau gwyrdd gynnig cyflogaeth a buddion eraill megis mewnffuddsoddi a thwristiaeth.

Cymru **iachach** – Mae creu amgylchedd cefnogol sy'n galluogi ein preswylwyr i reoli eu hanghenion eu hunain o ran iechyd a lles corfforol a meddyliol yn rhan bwysig o'r gwaith o atal iechyd gwael. Gellir lleihau'r galw ar wasanaethau sydd eisoes dan bwysau trwy gynorthwyo preswylwyr i fod â bywyd iach ac annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl. Mae darparu cymorth i'r plentyn a'r teulu yn y blynyddoedd cynnar yn lleihau'r risg y bydd yr unigolyn yn cyflawni ymddygiadau sy'n niweidio iechyd ac yn datblygu clefydau megis canser, clefyd y galon, diabetes ac iechyd meddwl gwael.

Mae cymunedau â mannau agored cyhoeddus deniadol yn helpu preswylwyr i fod yn fwy egniol ac ymgysylltiedig ac yn cefnogi gwell iechyd meddwl ac iechyd corfforol.

Cymru sy'n **fwy cyfartal** – Yn y bôn nod yr holl raglenni chwaraeon yw 'mynd i'r afael ag anghydraddoldebau', boed helpu merched a menywod i gymryd rhan mewn ymarfer corff neu chwaraeon, pobl ifanc mae arnynt angen help neu'r rheiny sydd ag anabledau, ac mae hyn yn cefnogi mwy o gynhwysiant.

Mae gan breswylwyr sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd fwy o risg iechyd gwael. Bydd cynorthwyo preswylwyr i fabwysiadu ymddygiadau iach yn eu helpu i gymryd cyfrifoldeb a rheoli eu hiechyd a lles corfforol a meddyliol eu hunain. Mae dewisiadau o ran ffordd o fyw yn un o brif achosion anghydraddoldebau iechyd a gallant gael effaith fawr ar ddisgwyliad oes iach. Mae'r angen i leihau anghydraddoldebau iechyd yn ddiamau. Mae pob unigolyn yn haeddu'r cyfle i gyflawni ei botensial, waeth beth fo ei nodweddion economaidd gymdeithasol, cefndir neu amgylchiadau.

Cymru **gydnerth** - Gwelliant o ran troseddau amgylcheddol gan y bydd cynigion i atal tipio anghyfreithlon yn cyfrannu at amgylchedd glanach a mwy diogel trwy wneud tipio anghyfreithlon a phroblemau amgylcheddol cysylltiedig yn llai tebygol. Bydd cynorthwyo preswylwyr i fod ag iechyd da a sicrhau bod ein plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd yn datblygu setiau sgiliau sy'n galluogi preswylwyr i ymateb yn gadarnhaol i'r byd cyfnewidiol rydym i gyd yn byw ynddo ac yn eu galluogi hwy a'u teuluoedd i fod yn fwy cydnerth ac ymaddasu i newid yn y dyfodol. Mae cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd, i blant ac oedolion fel ei gilydd, yn gysylltiedig ag iechyd meddwl da. Gall rhwydwaith o gymunedau iach, gwyrdd a chynaliadwy sy'n gweithredu'n dda ac â chysylltiadau da ddarparu nifer o fuddion o ran llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Bydd cynorthwyo preswylwyr i gael y dechrau gorau mewn bywyd yn helpu i leihau lefelau troseddau ieuencid, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau eraill gan arwain at gymunedau mwy diogel yn y fwrdeistref sirol. Mae parciau gwledig deniadol a chyfleoedd i gerdded a beicio, gan ganiatáu i bawb gael profiad o leoedd a mwynhau gweithgareddau yn bendant yn rhan o'r gwaith o sicrhau 'Cymru o **gymunedau cydlynus**'.

Bydd cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a chwaraeon yn helpu i leihau teimladau o arwahanrwydd ac unigedd. Yn yr un modd mae creu bwrdeistref sirol lle gall pobl gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden a lle maent yn teimlo'n iach ac wedi'u grymuso i fod yn ddinasyddion ymgysylltiedig, i gyd yn cefnogi Cymru â **diwylliant bywiog**; er enghraifft mae ras 10 cilomedr Caerffili yn helpu pobl i gymryd rhan mewn ymarfer corff mewn amgylchedd cefnogol a hefyd yn hybu twristiaeth gan fod pobl yn dod i ymweld â'r ardal. Cymru sy'n **gyfrifol ar lefel fyd-eang** – Bydd galluogi newid mewn ymddygiad tuag at ymagwedd fwy ataliol a chynaliadwy yn cael effaith enfawr ar yr amgylchedd lleol a byd-eang. Gall ymyrraeth gynnar gadarnhaol a gwella iechyd preswylwyr atal costau uwch gofal iechyd pan fyddant yn oedolion. Trwy annog preswylwyr i warchod ac edrych ar ôl eu hamgylchedd lleol ac adnoddau naturiol rydym yn ymdrechu i gyflawni ein rhwymedigaethau byd-eang.



Sut y byddwn ni'n sicrhau adnoddau i'r Amcan Llesiant hwn

Mae adnoddau yn y maes hwn wedi cael eu lleihau'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn effeithio ar ein gallu i gyflawni amrywiaeth o raglenni felly mae'n bwysig inni gyfuno ein harbenigedd a'n hadnoddau i osod hyn yn y ffordd o weithio sy'n cynnwys pobl eraill yn y gwaith o gyflawni'r amcan hwn.

Pryd fydd yr amcan yn cael ei gwblhau?

Mae data iechyd gwell yn fesuriad hirdymor ac anaml y gellir ei fesur o'r naill flwyddyn i'r llall. Gan mai nod yr amcan hwn yw gwneud gwahaniaeth ym more oes a hybu mwy o weithgarwch corfforol nid oes modd pennu 'dyddiad cwblhau' penodol, felly byddwn yn edrych ar ddyddiadau cwblhau mewn perthynas â chamau gweithredu a newidiadau.

Nodir **mesuriadau** cynnydd isod:

Canlyniad	Mesuriad
1	Cynyddu nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan yng nghynllun y 'Daily Mile'.
1	Cynyddu nifer yr ysgolion sy'n cael Gwobr Ansawdd Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgolion Iach.
1	Nifer a % y rhieni sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni rhianta seiliedig ar dystiolaeth.
1	Nifer y clybiau sy'n ymrwymo i fod yn rhan o ymgyrch 'Lets Go Girls'.
1	Ymgysylltu ag o leiaf 5 lleoliad newydd wrth hybu'r Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy (Cynllun Blynnyddoedd Cynnar Iach)
2	Gostwng cyfraddau ysmegu.
2	% o blant 4/5 oed sydd dros eu pwysau neu'n ordew.
2	% o blant a all nofio 25 metr yn 11 oed.
2	Cynyddu nifer yr ymweliadau â'n parciau a chefn gwlad.
2	Cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn menter 'Calonnau Iach' wedi'i hehangu.
2	Nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn y cynllun Atgyfeirio Iechyd.
2	Mabwysiadu 'Strategaeth Parc Tirwedd y Cymoedd'.
2	Sgôr System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol Mynegai Glanweithdra Strydoedd i'r fwrdeistref sirol gyfan (STS005a).
2	% y priffyrdd a'r tir perthnasol a archwiliwyd sydd o safon glanweithdra uchel neu dderbyniol (STS005b).
2	% yr achosion o dipio anghyfreithlon y rhoddir gwybod amdanynt sy'n cael eu clirio cyn pen 5 diwrnod gwaith (STS006).
2	% yr achosion o dipio anghyfreithlon y rhoddir gwybod amdanynt sy'n arwain at weithgarwch gorfodi.
2	Nifer y camau gweithredu gorfodi a gymerir ar gyfer baw cŵn.

2	% yr achosion o dipio anghyfreithlon y rhoddir gwybod amdanynt sy'n arwain at weithgarwch gorfodi.
----------	--

I roi cyd-destun byddwn hefyd yn adolygu'r Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru isod fel rhan o'r amcan cyffredinol hwn:

Dangosyddion Llesiant Cyffredinol -		Ffynhonnell y Data
Canran oedolion sydd â llai na dau ymddygiad ffordd iach o fyw (peidio ag ysmegu, pwysau iach, bwyta 5 dogn o lysiau neu ffrwythau pob dydd, peidio ag yfed mwy na'r canllawiau a chydymffurfio â'r canllawiau ar weithgarwch corfforol)		Arolwg Cenedlaethol Cymru
Canran y plant sydd â llai na dau ymddygiad ffordd iach o fyw fel uchod		Arolwg Plant Oedran Ysgol, dadansoddiad newydd
Disgwyliad oes iach adeg genedigaeth gan gynnwys y bwlch rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig.		Y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru
Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio.		Arolwg Cenedlaethol Cymru
Sgôr gymedrig lles meddyliol i bobl		Arolwg Cenedlaethol Cymru

Gwybodaeth ychwanegol

Fel ystyriaeth ehangach i greu 'lle iach', rhan o'n Strategaeth Goed yw'r potensial ar randiroedd y Cyngor i ddatblygu 'coedwigaeth randiroedd' ar raddfa fach fel partneriaeth rhwng y Cyngor a thenantiaid o dan Fenter y Fforwm Rhandiroedd.

Yn ddelfrydol byddai hyn yn golygu plannu coed defnyddiol mewn mannau lle na fyddent yn effeithio ar brif swyddogaeth y safle fel lle i dyfu llysiau. Byddwn yn annog tenantiaid i blannu coed ffrwythau priodol lle na fyddant yn ymyrryd mewn modd arwyddocaol â'r gwaith o gynhyrchu llysiau.

Ar wahân i goed ffrwythau, mae potensial hefyd i blannu coedlannau bach pe câi hynny ei gefnogi gan y tenantiaid. Gellid rhoi'r rhain ar leiniau sydd, oherwydd cysgod neu dir dwrlawn, dyweder, yn llai addas i dyfu llysiau arnynt.

Byddai bôn-docio rhywogaethau megis coed cyll, helyg neu gastan yn creu cynhyrchion gwerthfawr megis polion ffa, prisiau pys neu ddeunyddiau ffensiō, y gellid eu cynaeafu'n gymunol ac a fyddai'n golygu bod y lleiniau hyn yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy ac ar yr un pryd yn cynnal eu gwerth i fywyd gwyllt.



6. Cynorthwyo dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu llesiant

Canlyniadau

1. Cynorthwyo pobl i 'helpu eu hunain' trwy ddarparu cyngor a gwybodaeth cynhwysfawr gan gynnwys cyfeirio at wasanaethau eraill.
2. Cynnal 'sgyrsiau ystyrlon' i helpu pobl i nodi'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt er mwyn llywio gwaith cynllunio 'sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau'.
3. Darparu cymorth i leihau'r angen am ymyriadau statudol haen uwch.
4. Adnabod a chynorthwyo gofalwyr.
5. Gwella'r gwaith o recriwtio Gofalwyr Maeth a gofalwyr Cysylltu Bywydau.
6. Parhau i nodi cyfleoedd i gydweithio lle bynnag y bo'n briodol.

6. Cynorthwyo dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu llesiant

Datganiad Llesiant

Yn 2016/17 cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ei rhoi ar waith ledled Cymru. Mae'n bosibl mai dyma'r newid mwyaf pellgyrhaeddol a radical mewn deddfwriaeth sy'n effeithio ar y gwaith o ddarparu gofal cymdeithasol ers cenedlaethau.

Yn sail i'r ddeddfwriaeth mae cyfres o egwyddorion allweddol ac mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau sy'n ei gwneud yn bosibl gwireddu'r rhain. Dyma'r egwyddorion:

- Darparu cymorth ar y lefel isaf er mwyn lleihau'r angen am wasanaethau neu ymyriadau statudol.
- Darparu gwybodaeth a chynghor gyda'r nod o helpu pobl i helpu eu hunain.
- Cyfeirio pobl at wasanaethau yn y gymuned ac yn y trydydd sector lle bynnag y bo'n briodol gwneud hynny.
- Hwyluso sgysiau am 'yr hyn sy'n bwysig' ac atgyfeirio pobl i gael cymorth er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gwybod beth mae'r unigolyn ei eisiau mewn gwirionedd a beth y byddai'n cael budd ohono.
- Nodi canlyniadau personol a darparu gwasanaethau i alluogi pobl i gyflawni'r canlyniadau hyn.
- Darparu 'Gofal a Chymorth' dim ond i'r bobl hynny y gellir diwallu eu hanghenion trwy ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a thrwy hynny yn unig
- Parhau i ddiogelu ac amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed

Fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sydd newydd gael ei rhoi ar waith, mae'r tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth wedi cael ei sefydlu yng Nghaerffili. Y tîm yw'r man cyswllt cyntaf ar gyfer pob atgyfeiriad i wasanaethau statudol a gwasanaethau ataliol. Cyflawnir asesiad i ganfod a yw anghenion y teulu'n galw am 'Ofal a Chymorth'.

O dro i dro, mae'n bosibl na fydd anghenion unigolyn neu deulu'n gymwys am Gynllun Gofal a Chymorth a gellir eu diwallu yn lle hynny trwy wasanaethau llesiant ataliol. Mae'r rhaglenni Trechu Tlodi a gyllidir gan Lywodraeth Cymru – Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cefnogi Pobl a Chymunedau yn Gyntaf – i gyd yn gweithio ar lefel ymyrraeth gynnar ac atal.

Dylai darparu cymorth lefel isel i deuluoedd ac unigolion leihau'r angen am wasanaethau statudol ac arbenigol, ac ar yr un pryd darparu cymorth amserol i deuluoedd a fydd yn eu galluogi i wella eu llesiant. Dylai ymyrraeth gynnar alluogi teuluoedd i sefydlu ymddygiad cadarnhaol, gwella eu gallu i rianta a helpu i atal camdriniaeth neu esgeulustod.

Yng Nghaerffili, mae rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnig ymyriadau wedi'u targedu, â therfyn amser, er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn. Darperir cymorth ar gyfer amrywiaeth fawr o anghenion gan gynnwys rianta ac ymddygiad, llesiant ac iechyd meddwl, eiriolaeth, cymorth ariannol, gofalwyr ifanc, cymorth â llythrennedd a rhifedd, ymgysylltu â phobl ifanc, cymorth i deuluoedd mae cam-drin domestig wedi effeithio arnynt, cymorth cyn ac ar ôl genedigaeth, oediad datblygiad sy'n dod i'r amlwg ymysg plant cyn-ysgol ac ymgysylltu cymunedol. At hynny, mae model y Tîm o gwmpas y Teulu yng Nghaerffili, a elwir yn lleol Cefnogi Newidiadau Teulu, yn cydgysylltu cymorth i deuluoedd ag anghenion lluosog.

Sut ddefnyddiasom y '5 ffordd o weithio' i bennu'r amcan Llesiant hwn?

Cynnwys – Gan ddefnyddio egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, dylai defnyddwyr gwasanaethau gael eu cynnwys yn llawn yn y gwaith o ganfod eu hanghenion a'u canlyniadau personol a chynllunio ar gyfer eu gofynion Gofal a Chymorth. Mae rhaglenni Cefnogi Pobl a Theuluoedd yn Gyntaf yn cynnwys cannoedd o brosiectau a darparwyr a phartneriaid. Mae defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu cynnwys yn eu gofal eu hunain trwy gynnal sgwrs 'yr hyn sy'n bwysig i chi'.

Hirdymor - Ein dyhead hirdymor yw sicrhau y caiff dinasyddion eu cynorthwyo i aros yn annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain cyhyd ag sy'n bosibl. Mae bod yn annibynnol yn rhoi teimlad o bwrpas a hunanwerth i bobl ac i rai pobl hŷn gall symud i lety preswyl beri trallod gan mai yn eu cartrefi mae pobl hapusaf yn aml. Mae hyn yn bwysig i lesiant.

Cydweithredu – Mae'r Amcan Llesiant hwn yn dibynnu ar gydweithredu rhwng yr holl asiantaethau partner i ddarparu cymorth ymyrraeth gynnar i atal yr angen am ymyrraeth statudol. Mae llawer o'r gwaith ataliol a wneir gan y rhaglenni Trechu Tlodi'n cael ei dendro allan i sefydliadau yn y trydydd sector sy'n gweithio ym mwrdeistref sirol Caerffili. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer mwy o weithio partneriaethol ac amlasiantaethol ar draws yr holl sefydliadau.

Integreiddio – Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a Chefnogi Pobl eisoes wedi'u hintegreiddio ar draws Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Caiff cyfleoedd i integreiddio rhagor ar draws asiantaethau partner ehangach eu datblygu wrth iddynt godi. Pe bai'r amcan hwn yn llwyddiannus byddai'n cyfrannu at ganlyniadau amrywiaeth fawr o gyrff ieuchyd, trydydd sector a chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cynllun Ardal Gwent y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan helpu pobl i fod yn fwy cydnerth (lle gallant fod).

Atal – Sylfaen y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw cysyniad gwasanaethau cymorth ymyrraeth gynnar ac atal sy'n galluogi dinasyddion i gael mynediad at wasanaethau er mwyn helpu eu hunain.

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd i gyrraedd y nod hwn?

Canlyniad	Pryd (2018-2023)
1. Cynorthwyo pobl i 'helpu eu hunain' trwy ddarparu cyngor a gwybodaeth gynhwysfawr gan gynnwys cyfeirio at wasanaethau eraill.	
2. Cynnal 'sgyrsiau ystyrllon' i helpu pobl i nodi'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt er mwyn llywio gwaith cynllunio 'sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau'.	
Darparu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth effeithiol i sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	2017 – 2022
Cynorthwyo'r staff i gynnal sgyrsiau ystyrllon gyda dinasyddion i ganfod yr hyn sy'n bwysig iddynt a'r canlyniadau maent eisiau eu cyflawni	2017 – 2022
Gweithredu a chefnogi rhagor o waith datblygu cronfa we 'DEWIS' i sicrhau mai hwn fydd y safle gorau y mae pawb yn mynd iddo i gael gwybodaeth er mwyn 'helpu eu hunain'.	2018
3: Darparu cymorth i leihau'r angen am ymyriadau statudol haen uwch	
Gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i atal derbyniadau diangen i ysbytai a hwyluso rhyddhau cleifion yn amserol.	2018-2022
Parhau i gefnogi gwaith Teuluoedd yn Gyntaf a rhaglenni Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru er mwyn darparu cymorth i deuluoedd ar lefel atal ac ymyrraeth gynnar.	2017 – 2021
Cynorthwyo unigolion sydd yn yr ysbyty gyda chymorth cysylltiedig â thai (gan gynnwys y rheiny a allai fod yn ddigartref ar adeg eu rhyddhau).	2018-2019
Gwneud y defnydd mwyaf posibl o gyllid grant Llywodraeth Cymru i wella ac ehangu'r gwasanaeth 'ar ffiniau gofal' i blant a phobl ifanc.	2018 – 2019
Ehangu rhaglen Cefnogi Pobl, gan sicrhau bod prosesau effeithiol ar waith i gynyddu atgyfeiriadau i'r rhaglen.	2018-2020
4: Adnabod a chynorthwyo gofalwyr	
Gwellu'r cymorth a ddarperir i ofalwyr gan gynnwys gofalwyr ifanc, trwy ddatblygu gwybodaeth, gwell gwaith adnabod a gwell gwasanaethau i wella llesiant gofalwyr a'u galluogi i barhau i gyflawni eu rolau gofalu.	2017 – 2022

5: Gwella'r gwaith o recriwtio Gofalwyr Maeth a gofalwyr Cysylltu Bywydau.	
Mwy o weithgarwch recriwtio a gwell cyfraddau dilyniant er mwyn sicrhau y caiff rhagor o ofalwyr sy'n cael tâl h.y. Gofalwyr Maeth a Gofalwyr Cysylltu Bywydau, eu recriwtio gya'r nod cyffredinol o sicrhau cynnydd net yn nifer y gofalwyr.	2017 – 2019
Cael cefnogaeth wleidyddol i barhad ymgyrch hysbysebu ar y radio am ofalwyr maeth.	2017
6: Parhau i nodi cyfleoedd i gydweithio lle bynnag y bo'n briodol	
Parhau i ymgysylltu â phartneriaethau a chydweithrediadau rhanbarthol er mwyn sicrhau y caiff Caerffili ei chynrychioli ac y gall ddylanwadu ar y cyfeiriad.	2017 – 2022
Caerffili i arwain y gwaith o ddarparu Gwasanaeth rhanbarthol Eiriolaeth i Blant ar gyfer Awdurdodau Lleol Gwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.	2018 ymlaen
Datblygu Strategaeth Anableddau Dysgu ranbarthol.	2018 – 2019
Gweithio gyda Bwrdd Partneriaeth Plant a Theuluoedd Gwent i ddatblygu gwasanaethau uwch i blant ag anghenion cymhleth a heriol ac i bobl ifanc sy'n gadael gofal.	2018 – 2020

Pam rydyn ni'n barnu y bydd ein Hamcan Llesiant yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gennym ni at y Nodau Llesiant cenedlaethol

Mae'r Amcan Llesiant yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ddau nod Llesiant cenedlaethol allweddol:

Cymru iachach: Mae gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn cefnogi'r gwaith o hybu iechyd corfforol ac emosiynol da er mwyn cynorthwyo unigolion i aros yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl.

Cymru sy'n fwy cyfartal Waeth beth fo ei gefndir neu ei amgylchiadau, os oes ar unigolyn angen Gofal a Chymorth Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, yna darperir y lefel briodol o gymorth.

Mae hyn hefyd yn cyfrannu at strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, 'Ffyniant i Bawb', yn arbennig y thema iach ac Egniïol sy'n hybu'r canlynol:

- ❖ Darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas i'r dyfodol
- ❖ Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb
- ❖ Creu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell



Sut y byddwn ni'n sicrhau adnoddau i'r Amcan Llesiant hwn

Ychydig o gyllid ychwanegol mae ei angen ar gyfer y rhan fwyaf o'r camau gweithredu a nodir yn Adran 4 ond mae angen neilltuo amser staff a phartneriaid er mwyn eu cyflawni. Fodd bynnag, mae'r cam gweithredu mewn perthynas â gwasanaethau 'ar ffiniau gofal' yn ei gwneud yn ofynnol inni ddiogelu'r cyllid grant presennol gan Lywodraeth Cymru pan ddaw'n rhan o'r Grant Cynnal Refeniw o 2018 ymlaen. Mae'r cam gweithredu sy'n gysylltiedig â Phartneriaeth Plant a Theuluoedd Gwent hefyd yn dibynnu ar ddyrannu'r Gronfa Gofal Canolraddol. Yn 2018-19 mae'r cyllid ar gyfer rhaglenni Cefnogi Pobl a Theuluoedd yn Gyntaf yn newid i uno'n un gronfa Cyllido Hyblyg gyda chynllun peilot o'r enw 'Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chymorth'. Mae'n bosibl y bydd hyn yn effeithio ar y ffordd y caiff y gweithgareddau hyn eu cyllido yn y dyfodol a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi mewn diweddariadau yn y dyfodol.

Pryd fydd yr amcan hwn yn cael ei gwblhau?

Mae ychydig o'r canlyniadau eisoes wedi cael eu cwblhau neu yn y broses o gael eu cwblhau. Ar gyfer sawl un arall, y sefyllfa yw y bydd y camau gweithredu a nodir yn cael eu hadolygu a'u diwygio'n barhaus er mwyn aros yn gyfredol. Fodd bynnag, gellir pennu targedau mewn perthynas â'r canlynol:

Canlyniad	Mesuriad
1 a 2	Bydd staff perthnasol yn cael hyfforddiant ar 'sgyrsiau ystyrlon' erbyn diwedd 2018
1 a 2	Bydd gwefan DEWIS yn gwbl weithredol erbyn mis Ebrill 2019
3	Cyflawni adolygiad o holl fuddsoddiadau'r Gronfa Gofal Canolraddol i sicrhau bod y cyllid grant mor effeithiol ag sy'n bosibl erbyn mis Medi 2018
3	Tîm Cymorth Dwys y Gwasanaethau Plant i fod yn gwbl weithredol o fis Ebrill 2018 ymlaen
4	Nifer y gofawyr (gan gynnwys gofawyr ifanc) sy'n cael cymorth
4	Lefelau'r cymorth seibiant a ddarperir
5	Sicrhau cynnydd yn nifer y gofawyr sy'n cael eu recriwtio – caiff hyn ei fonitro bob chwarter a phob blwyddyn
1-5	Mae gan raglen Teuluoedd yn Gyntaf 14 o fesuriadau canlyniadau ac adroddir ar y rhain bob blwyddyn i Lywodraeth Cymru. Byddwn yn defnyddio'r mesuriadau perthnasol i gefnogi cynnydd gyda'r amcan hwn.

I roi cyd-destun byddwn hefyd yn adolygu'r Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru isod fel rhan o'r amcan cyffredinol hwn:

Dangosyddion Llesiant Cyffredinol -	Ffynhonnell y Data
Canran y bobl sy'n unig	Arolwg Cenedlaethol Cymru

Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardaloedd; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu â'i gilydd; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch.

Arolwg Cenedlaethol
Cymru

Unrhyw wybodaeth ychwanegol arall

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n adolygu'r setiau data Dangosyddion Perfformiad sy'n mesur y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac mae'n debyg y bydd hyn yn newid y data a gasglwn. Bydd yn rhaid inni ddiweddarau ein mesuriadau uchod pan fydd setiau newydd y fframwaith mesur perfformiad wedi cael eu cytuno.

Cydnabyddir na all Gofal Cymdeithasol gyflawni'r holl gamau gweithredu hyn ar ei ben ei hun a chydabyddir y rhan hanfodol y bydd partneriaid, y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor, yn ei chwarae wrth eu cwblhau.

6. Adolygu ein Hamcanion

Sut y byddwn yn llywodraethu ein hunain er mwyn cyflawni ein Hamcanion Llesiant:

Bydd y broses ar gyfer pob Amcan Llesiant yr un peth felly dyma'r prif ffyrdd y byddwn yn llywodraethu ein hunain wrth gyflawni ein hamcanion

- ✚ Bydd gennym Gynllun Gweithredu ar gyfer pob Amcan.
- ✚ Byddwn yn defnyddio cerdyn sgorio i fesur ein perfformiad fel rhan o'n perfformiad cyffredinol.
- ✚ Bydd y camau gweithredu yn gysylltiedig â Chynlluniau Gwasanaeth unigol felly bydd yn rhan o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ac nid ar wahân iddo.
- ✚ Adroddir i'n Tîm Rheoli Corfforaethol ar gynnydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg.
- ✚ Byddwn yn ymgynghori â'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod ein hamcanion yn dal i fod yn berthnasol iddynt. Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio dulliau ymgynghori sy'n bodoli eisoes o wasanaethau yn hytrach na chynnal ymarfer ymgysylltu ar wahân ar gyfer amcanion yn unig bob amser. Er enghraifft, rydym yn gofyn i'r cyhoedd beth sy'n bwysig iddynt wrth ymgynghori ar ein cyllidebau a gall y mecanweithiau presennol hyn chwarae rhan fwy a mwy integredig mewn gwaith asesu.
- ✚ Byddwn yn defnyddio'r gwaith monitro ar gyfer y Cynllun Llesiant fel ein hadolygiad gan y bydd yr amcanion yn cyfrannu at Gynllun y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- ✚ Bydd ein harchwilwyr a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein cynorthwyo wrth ddarparu arferion da o ran sut orau y gallwn gyflawni ein hamcanion.

Y camau y byddwn yn eu cymryd i adolygu ein hamcanion yn rheolaidd

- ✚ Bydd ein strwythur adrodd yn cynnwys adrodd yn aml i'n Tîm Rheoli Corfforaethol yn ein gwaith cynllunio ariannol tymor canolig er mwyn sicrhau bod darparu adnoddau'n chwarae rhan integredig yn y gwaith o gyflawni amcanion.
- ✚ Byddwn yn asesu ar ryw adeg a ydym yn aflwyddiannus, yn rhannol lwyddiannus neu'n gwbl lwyddiannus ac yn gwahodd ein cyrff adrodd ac unrhyw bartneriaid perthnasol i herio ein hunan-asesiadau .
- ✚ Adrodd i'r Cabinet (y Weithrediaeth) ar ein cynnydd.
- ✚ Mae ein Panel Cynghori ar Genedlaethau'r Dyfodol yn cael ei adolygu ac efallai y byddwn yn reporting prif ffrydio adroddiadau 'i graffu aelodau ehangach er mwyn cynnwys detholiad ehangach o aelodau, mae hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.
- ✚ Adrodd i bwyllgorau craffu aelodau perthnasol i gael herio a chraffu ddwywaith y flwyddyn.
- ✚ Adrodd i unrhyw bartneriaid perthnasol fel rhan o unrhyw gydweithrediad a sefydlir i gyflawni ein hamcanion.
- ✚ Adrodd o leiaf unwaith y flwyddyn i'r cyhoedd ar ein cynnydd ac adolygu ein hamcanion fel rhan o'n trefniadau rheoli perfformiad.

7. Y saith nod llesiant i Gymru

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru lewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Cymru gydnerth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynus	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Mae mwy o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r hyn mae'n ei olygu i gyrff cyhoeddus i'w gweld ar y safle isod:

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy>

8. Cysylltu â ni

Mae eich barn a'ch safbwyntiau ar gynnwys ein cynlluniau a'r blaenoriaethau yn bwysig inni. Rydym yn croesawu eich cyfraniad fel y gallwn barhau i ddarparu gwybodaeth ystyrlon sy'n helpu i roi gwybod ichi am ffocws y gwasanaethau, gan sicrhau ein bod yn gweithio ar y pethau sy'n bwysig i wneud gwahaniaeth i chi, ein dinasyddion a'n cymunedau.

Cysylltwch â ni trwy e-bost: PMU@caerphilly.gov.uk NEU drwy'r

ddolen we: [Perfformiad y Cyngor](#) gan ddilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrin:

Neu cysylltwch â:

Ros Roberts

Rheolwr Perfformiad

Uned Rheoli Perfformiad Corfforaethol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Tŷ Penallta

Ystrad Mynach

Hengoed CF82 7PG

Ffôn: 01443 864238

E-bost: roberr@caerphilly.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd mewn gwahanol ieithoedd a fformatau ar gais. Gellir hefyd gweld rhagor o wybodaeth ar ein gwefan: www.caerffili.gov.

